

Ebrill 2020

Gwerthusiad Canol Cyfnod Cronfa Drawsnewid 'Cymru Iachach'



Ebrill 2020

Gwerthusiad Canol Cyfnod Cronfa Drawsnewid 'Cymru Iachach'

Adroddiad ar gyfer Llywodraeth
Cymru

Awduron:
Heledd Bebb a Nia Bryer

Browerdd, Heol yr Ysgol
Llanarthne, Sir Gaerfyrddin
SA32 8HJ

01558 822 922
nia@ob3research.co.uk

38 Llewelyn Goch
Sain Ffagan, Caerdydd
CF5 6HR

029 2089 1724
heledd@ob3research.co.uk

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	17
2. Methodoleg y Gwerthusiad	18
3. Trosolwg o'r Gronfa Drawsnewid	23
4. Y Theori Newid	33
5. Y dyluniad a'r rhesymeg	43
6. Y model cyflawni a rheolaeth	51
7. Mewnbwn a gweithgareddau	61
8. Allbynnau a deilliannau sy'n dod i'r amlwg	76
9. Casgliadau ac argymhellion	88
Atodiad A – Crynodebau prosiect y Gronfa Drawsnewid	96
Atodiad B – Gwerthuso'r Gronfa Drawsnewid – Cwestiynau Ymchwil	113
Atodiad C – Gwerthuso Rhaglen y Gronfa Drawsnewid – Canllaw Trafod Uwch-Arweinwyr Llywodraeth Cymru	115
Atodiad Ch – Gwerthusiad Rhaglen y Gronfa Drawsnewid – Canllaw Trafod ar gyfer Cadeiryddion ac Arweinwyr y BPRh	117

Datganiad ynghylch yr achosion o coronafeirws Covid-19

Mae'r adroddiad gwerthuso canol pwynt hwn yn ystyried tystiolaeth a gasglwyd cyn i achosion o Coronafirws Covid-19 gael effaith ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol felly mae'n bwysig ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad yn y cyd-destun hwn.

Wrth ddod i'r casgliadau terfynol ar gyfer y gwerthusiad, a chyn belled ag yr oedd yn bosibl gwneud hynny mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym, adlewyrchir ar effaith bosibl y pandemig coronafirws ar ddyfodol prosiectau Cronfa Drawsnewid. Mae hyn hefyd wedi'i ystyried wrth ddrafftio'r argymhellion.

Bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol, i'w gyhoeddi yn 2021, yn ystyried yn llawn effaith Covid-19 ar gyflawniadau'r Gronfa Drawsnewid.

Geirfa

Acronym/Gair Allweddol	Diffiniad
AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
ACE	Profiadau Niweidiol Plentynod
AD	Adnoddau Dynol
BIP	Bwrdd Iechyd Prifysgol
BPRh	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
C&YP	Plant a Phobl Ifanc
CBS	Cyngor Bwrdeistref Sirol
CD	Cronfa Drawsnewid
CGGC	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
CI	Cymru Iachach
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
CNPT	Castell-Nedd Port Talbot
ETTF	Cronfa Effeithlonrwydd Trwy Dechnoleg
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
ICF	Cronfa Gofal Integredig
ITB	Bwrdd Trawsnewid Integredig
OECD	Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
RAG	Coch Ambr Gwyrdd
RCT	Rhondda Cynon Taf
RSG	Grant Cymorth Refeniw
SCIE	Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol
SCW	Gofal Cymdeithasol Cymru
TG	Technoleg Gwybodaeth

Rhestr o dablau a ffigurau

Tabl 7.1: Cyllideb a gwariant y Gronfa Drawsnewid (Ionawr 2019 – Mawrth 2020)	65
Ffigur 3.1: Crynodeb o brosiectau'r Gronfa Drawsnewid ym mhob BPRh	26
Ffigur 4.1: Deg Egwyddor Cynllunio 'Cymru Iachach'	36
Ffigur 4.2: Model Rhesymeg Theori Newid y Gronfa Drawsnewid	41
Ffigur 6.1: Dadansoddiad o themâu prosiectau'r Gronfa Drawsnewid	55
Ffigur 6.2: Y modelau a enwyd gan y prosiectau	58
Ffigur 7.2: Esiamplau o strwythurau rheoli	70
Ffigur 8.1: Esiamplau o'r data gwaelodlin a bennwyd yn yr adroddiadau canol cyfnod	77

Crynodeb Gweithredol

Nodau'r Ymchwil

Comisiynwyd Ymchwil OB3 ar y cyd â'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) gan Lywodraeth Cymru ym Medi 2019 i gyflawni gwerthusiad o Gronfa Drawsnewid (CD) 'Cymru Iachach'.

Dwy nod sydd i'r gwerthusiad, sef:

- gwerthuso i ba raddau mae'r CD wedi cyflymu'r gwaith o fabwysiadu dulliau newydd o weithio'n ehangach a'u datblygu er mwyn disodli neu ail-gyflunio gwasanaethau cyfredol a gwella'r deilliannau ar gyfer pobl
- gwerthuso cydrannau unigol y modelau newydd sydd wedi hwyluso mabwysiadu ac uwchraddio dulliau newydd o weithio'n llwyddiannus (ac yn aflwyddiannus).

Y Dull

Roedd y gwerthusiad canol cyfnod, a gyflawnwyd rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020, yn cwmpasu'r elfennau gwaith canlynol:

- cyfnod cychwynnol i gynnwys cyfarfod cychwynnol i drafod y rhaglen waith, cyrchu gwybodaeth a dogfennaeth perthnasol a pharatoi adroddiad cychwynnol
- gwaith ymchwil desg gan gynnwys adolygu'r dogfennau polisi a'r ddogfennaeth weithredol perthnasol
- cyflawni cyfres o gyfweiliadau pennu cwmpas dros y ffôn ac wyneb yn wyneb gyda chynrychiolwyr o bob un o'r gwerthuswyr a benodwyd gan y Byrddan Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh)
- datblygu templed adrodd ar gyfer y gwerthusiadau rhanbarthol
- paratoi cyfres o ganllawiau trafod lled-strwythuredig
- cyflawni cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid polisi a strategol
- cyflawni pecyn o waith maes ansoddol ar draws y saith BPRh
- cyflawni meta-ddadansoddiad manwl o'r adroddiadau gwerthuso rhanbarthol a baratowyd gan y BPRh
- paratoi'r adroddiad terfynol yma.

Trosolwg o'r Gronfa Drawsnewid

Cyhoeddwyd 'Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' (CI)¹ ym Mehefin 2018, ac roedd yn pennu gweledigaeth hirdymor ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' at y dyfodol. O fewn CI roedd yna weithred i 'sefydlu CD wedi ei thargedu i gynorthwyo gweithrediad y Cynllun hwn', ac yn enwedig y modelau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor sy'n cael eu hyrwyddo gan y BPRh.

Pwrpas y CD yw darparu cyfanswm o £100m i gyflymu datblygiad modelau darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol newydd, eu hehangu, a dangos eu gwerth. Mae'r CD yn rhan o Raglen Drawsnewid ehangach a sefydlwyd i gyflawni'r ymrwymadau a wnaed yn CI.

Lansiwyd y gronfa yn haf 2018, a gwahoddwyd pob un o'r saith BPRh i gyflwyno cynigion i'w hariannu gan eu hannog i ganolbwyntio ar fodelau a fyddai'n gwneud cynnydd cynnar wrth:

- alinio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor
- ddatblygu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol a chymunedol yn lleol, a
- gwasanaethau a gweithgareddau atal newydd integredig.

Yr amcan hirdymor oedd y câi'r rhain, a modelau newydd eraill, eu mabwysiadu gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, wedi eu hariannu o'u hadnoddau eu hunain.

Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y CD yn pwysleisio bod angen i bob prosiect ddarparu:

- disgrifiad clir o gwmpas ac amcanion y prosiect, mewn perthynas â CI a'r Egwyddorion Cynllunio perthnasol
- amserlen fisol sy'n nodi cerrig milltir a defnydd o adnoddau, gan gynnwys cyllid, trwy gydol oes y prosiect
- manylion am sut y câi'r prosiect ei werthuso'n broffesiynol
- manylion ynghylch sut y bydd y prosiect yn cysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol, ac yn arbennig y rhai sy'n chwarae rhan uniongyrchol yn y prosiect a 'mabwysiadwyr nesaf' posibl y model neu'r dull newydd

¹ [Llywodraeth Cymru \(2018\) Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

- manylion am sut y bydd y model newydd yn gynaliadwy ar ôl cwblhau'r prosiect trawsnewid.

O ran meini prawf ar gyfer dethol roedd yna ddisgwyliad y byddai'r holl gynigion yn mynd i'r afael â'r ddwy Egwyddor Cynllunio (yn gallu datblygu ac yn drawsnewidiadwy) ac o leiaf un arall.

Erbyn Mehefin 2019, roedd cyfanswm o 12 cynnig wedi cael sêl bendith ar draws y saith BPRh, gwerth cyfanswm o £87m fel a ganlyn:

- £6.9m i BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg
- £22.7m i BPRh Cwm Taf Morgannwg
- £13.5m i BPRh Gwent
- £13m i BPRh Gogledd Cymru
- £2.6m i BPRh Powys
- £16.5m i BPRh Gorllewin Morgannwg
- £12m i BPRh Gorllewin Cymru.

Yn ogystal, mae prosiect Cydweithio dros Ofal yr Arennau £2m wedi cael cyllid o'r CD. Rhwydwaith Arennol Clinigol Cymru yw noddwr y prosiect, a Chwm Taf Morgannwg sy'n gweithredu fel BPRh nawdd.

Rhyddhawyd y cyllid i'r BPRh gyflawni eu prosiectau rhwng Hydref 2018 a diwedd Rhagfyr 2020 i gychwyn. Mae dyddiadau cymeradwyo a chychwyn yn amrywio fesul BPRh. Cyhoeddwyd estyniad i'r amserlen cyflawni tan Fawrth 2021 ym mis Ionawr 2020 er mwyn helpu i fwyafu deilliannau'r cyllid.

Canfyddiadau allweddol y gwerthusiad

Mae prif ganfyddiadau'r gwerthusiad wedi eu nodi isod:

Dyluniad y rhaglen

- Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais hirdymor i drawsnewid y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Cymru, ac mae hyn wedi cael ei fynegi'n glir yn ei strategaeth 'Cymru Iachach' (CI).
- Mae'r Gronfa Drawsnewid (CD) sydd â'r nod o gynorthwyo'r trawsnewid yma, wedi cael ei datblygu mewn cyd-destun polisi cefnogol iawn, ac mae'n ymateb yn uniongyrchol i'r blaenoriaethau ar gyfer newid a bennwyd mewn dau adolygiad allweddol, sef Adolygiad OECD a'r Adolygiad Seneddol.

- Wrth ddylunio'r CD, mae'r rhai sy'n gyfrifol am lunio polisi wedi cofleidio'r egwyddorion allweddol sydd wrth wraidd y CI, a'r blaenoriaethau a bennwyd yn yr adolygiadau hyn, gan gynnwys y Nodau Pedwarplyg, y deg Egwyddor Cynllunio a Gofal Iechyd Darbodus. Yn ogystal, mae'r Gronfa wedi cael ei dylunio i fabwysiadu'r amcanion a bennwyd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Yn ei ddull o weithredu i ddyrannu cyllid trwy'r CD, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull llai cyfarwyddol o fynd ati nag yr oedd Adolygiad OECD yn ei awgrymu, ac mae hyn wedi golygu bod yr BPRh yn dylunio cynigion prosiect trwy ddull sy'n fwy 'o'r gwaelod i fyny'. Er y gallai hynny fod yn rhesymegol wrth sicrhau bod prosiectau'n mynd i'r afael â blaenoriaethau rhanbarthol, mae hi wedi golygu bod prosiectau â nodau ac amcanion tebyg yn cael gwahanol hunaniaethau a modelau gweithredu hefyd, a fydd yn codi sialensiau o ran datblygu ymyraethau effeithiol mewn rhanbarthau eraill.
- O ran ei ddull o ddyrannu cyllid, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi 30 o brosiectau ar draws y rhanbarthau, sy'n uwch o lawer na'r nifer a awgrymodd CI, a awgrymodd y dylai pob rhanbarth ddatblygu dau brosiect strategol yr un. Er y bwriedir i lawer o'r prosiectau hyn gyfrannu at raglenni gwaith strategol mwy a strategaethau rhanbarthol, mae yna risg na fydd ariannu nifer fawr o brosiectau llai yn cyflawni lefel strategol y newid a ragwelwyd ar gyfer y CD. Am hynny, mae angen i'r BPRh sicrhau eu bod yn gallu dangos, ar ffurf tystiolaeth werthuso gadarn, y cyfraniad a wnaeth yr holl brosiectau a ariennir tuag at eu deilliannau rhanbarthol strategol.
- Mae'r Gronfa Drawsnewid yn un o sawl ffrwd ariannu y mae BPRh yn eu defnyddio yn eu hymdrechion i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae yna achos cadarn o blaid dull system-eang o weithredu mewn perthynas ag ariannu yn y dyfodol er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ac adrodd, ac eglurhau'r nodau strategol cyffredinol y mae'r cyllid yn ceisio eu cyflawni.
- Gwnaeth amseriad y galw am geisiadau hi'n ymestynnol i'r rhan fwyaf o'r BPRh ddatblygu cynigion, ac er y croesawyd y dull hyblyg ac agored o weithredu ar y cychwyn, mae'r dull o fynd ati i reoli'r CD wedi bod yn gynyddol gyfarwyddol. Fodd bynnag, gwnaed y gofynion adrodd a gwerthuso rhanbarthol yn glir o'r cychwyn cyntaf yn rhan o'r broses ymgeisio. Os nad yw gwybodaeth o'r fath ar gael, mae yna risg y bydd yna ddiffyg truenus o dystiolaeth gadarn am effaith y CD a'r gwahaniaeth a wnaed

Cyflawni'r rhaglen

- Mae'r rhan fwyaf o'r modelau sy'n cael eu hariannu gan y CD yn rhai newydd a gallent fod yn drawsnewidiol i'r rhanbarth o dan sylw, ond mae yna themâu sy'n gorgyffwrdd a dulliau gweithredu tebyg. Mae yna risg o ddyblygu ymdrechion - gyda sawl dull o weithredu sydd ychydig bach yn wahanol i'w gilydd yn cael eu datblygu mewn amryw o ranbarthau heb unrhyw ymdrech i rannu'r hyn a ddysgwyd. Yn aml, mae gwahanol enwau a therminoleg i ddisgrifio dulliau tebyg o weithredu, sy'n ei gwneud yn anodd clustnodi modelau cyffredin a all fod yn weithredol ar draws mwy nag un rhanbarth. Nid yw nifer o fodelau'n arbennig o ddiffiniedig ac mae yna risg na fydd fawr ddim datblygiad i'r rhain o lefel isranbarthol i ranbarthol, neu o ranbarthol i genedlaethol o ganlyniad.
- Er bod y rhan fwyaf o'r prosiectau wedi datblygu ar gyflymdra newid sydd naill ai'n gyflym (saith) neu resymol (16), mae lleiafrif (saith) wedi wynebu problemau sylfaenol ac oedi, ac nid oeddent wedi eu sefydlu adeg paratoi'r adroddiadau canol cyfnod.
- Yn nodweddiadol, mae'r prosiectau sydd wedi cymryd mwy o amser i'w rhoi ar waith wedi wynebu problemau technegol, sialensiau recriwtio, problemau sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu a phroblemau sy'n ymwneud â negodi manylebau contract allanol. Mae hi'n bwysig myfyrio ar y problemau hyn sy'n aml y tu hwnt i ddylanwad rheolwyr prosiectau, a dysgu gwersi naill ai er mwyn gyflymu trefniadau o'r fath, neu er mwyn caniatáu ar gyfer integreiddio cyfnod cynllunio i unrhyw gronfa drawsnewid yn y dyfodol.
- Mae hi'n debyg bod prosiectau o'r ysbyty adref wedi datblygu'n gynt nag eraill, o bosibl am eu bod wedi cael eu datblygu ar sail dulliau o weithredu sy'n bodoli eisoes, bod y galw am y mentrau hyn eisoes yn bodoli ac am eu wedi bod yn symlach i'w rhoi ar waith.
- Cyfanswm gwariant y gyllideb CD erbyn diwedd Mawrth 2020 oedd 41% o gyfanswm y gyllideb. Roedd y gwariant dros 12 mis cyntaf y rhaglen yn bryderus o araf oherwydd y gwahanol sialensiau roedd y BPRh yn eu hwynebu wrth roi prosiectau ar waith, a dylai Llywodraeth Cymru gymryd hynny i ystyriaeth wrth gynllunio unrhyw raglenni ariannu tebyg yn y dyfodol. Mae hi'n galonogol bod y gwariant dros y chwarter diweddaraf (hyd Fawrth 2020) wedi dwysáu, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod nifer o brosiectau wedi dod yn 'fyw' yn ddiweddar iawn.
- Bydd yn ymestynnol, os nad yn amhosibl, i'r rhaglen ddefnyddio gweddill y dyraniad cyllid dros y cyfnod o 12 mis sy'n weddill hyd Fawrth 2021, ac un rheswm pwysig am hynny yw effaith

ddigynsail y coronafeirws Covid-19 ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn.

- Mae hi'n debyg bod y CD yn cael effaith gadarnhaol wrth ddarbwylo partneriaid i gydweithio, ac mae yna ryw dystiolaeth gychwynnol ar draws y rhanbarthau lle mae staff yn dechrau meddwl mewn ffordd wahanol a newid eu diwylliant gwaith. Mae hyn yn dal i fod yn ymestynnol dan amodau ariannol mor anodd fodd bynnag, ac mae prosiectau wedi wynebu sawl sialens wrth roi'r peth ar waith.
- Roedd yr amserlen oedd ar gael i gyflawni gwir drawsnewid yn uchelgeisiol iawn o'r cychwyn cyntaf, ond mae hyn wedi cael ei lesteirio ymhellach gan nifer o ffactorau gan gynnwys oedi wrth gymeradwyo ceisiadau, problemau helaeth o ran recriwtio a'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ar led.
- Mae'r strwythurau llywodraethu ar gyfer y prosiectau i'w gweld yn briodol ac yn gweithio'n dda, ac mae ganddynt ymrwymiad cynyddol yr uwch reolwyr.
- Cyfyngedig fu cysylltiad dinasyddion yn y gwaith o gyd-gynhyrchu cysyniadau prosiectau neu eu cyflawni hyd yn hyn, ac mae angen gosod mwy o ffocws ar yr agwedd hon dros weddill y cyfnod cyflawni.
- Mewn modd tebyg, mae cysylltiad y gweithlu a rhanddeiliaid eraill, lle mae hyn wedi digwydd o gwbl, wedi arwain at fanteision cadarnhaol o ran y prosiectau, ond nid yw hyn wedi digwydd drwyddi draw.

Allbynnau a deilliannau'r rhaglen

- Mae cyfanswm o 30 'prosiect' wedi cael eu hariannu ar draws saith BPRh ac ar y neu hadroddiadau canol cyfnod, mae 22 o brosiectau'n weithredol. Ar draws yr wyth prosiect sy'n weddill roedd hi'n nail ai'n aneglur a oedd y prosiectau'n hollol weithredol neu doedden nhw ddim ar gael eto.
- Mae gan rai o'r prosiectau sydd ar droed hunaniaethau mwy diffiniedig a gweladwy nag eraill, ac o ganlyniad gallai fod yn haws eu cyfleu, eu mabwysiadu a'u datblygu ar draws ardaloedd eraill yn y dyfodol.
- O ran eu natur, mae prosiectau sydd wedi esblygu o ddulliau sy'n bodoli eisoes ac sydd wedi eu sefydlu'n gadarnach yn narpariaeth y brif ffrwd yn fwy ymestynnol i'w cyflwyno fel modelau gweladwy a gwahanol.

- Nid yw'n bosibl i'r adroddiad canol cyfnod hwn fwrw llawer o oleuni ar y deilliannau y mae'r prosiectau a ariennir yn eu cyflawni hyd yn hyn, a hynny i raddau helaeth oherwydd dyddiadau dechrau diweddar llawer ohonynt.
- Mae yna gonsensws eang ei bod hi'n rhy gynnar i allu dangos tystiolaeth o'r gwahaniaeth y mae prosiectau'n ei gwneud, ac i ba raddau y maent yn cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd, ac eithrio'r rhai sy'n dueddol o fod yn gysylltiedig â phrosesau, fel newidiadau i systemau sefydliadol a dulliau o weithio.
- Yn yr un modd, prin yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i fedru dod i safbwynt gwybodus ynghylch i ba raddau y mae modelau'n debygol o gael eu cynnal neu eu ehangu ar ôl i'r cyllid ddod i ben,
- Ar adeg adrodd canol cyfnod, mae prosiectau yn blaenoriaethu'r angen i gasglu a thystiolaethu'r cyfraniad a wneir gan yr ymyriadau, gan dderbyn y bydd priodoli unrhyw wahaniaeth a wneir yn heriol yng ngholeuni ffynonellau cyllid ac allanolion eraill sy'n effeithio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Argymhellion

Mae'r casgliadau a'r argymhellion a gynigir yma'n seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad o'r gwaith maes a'r gwaith dadansoddi data a gyflawnwyd hyd canol Mawrth 2020. Mae hi'n ddilys ac yn briodol bod y canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn y cyd-destun hwnnw.

Fodd bynnag, mae coronafeirws Covid-19 wedi ychwanegu pwysau digynsail at y sector iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn debygol o gael effaith sylweddol ar gyllid a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Gan hynny, mae'r argymhellion yn ceisio cymryd cyd-destun newydd argyfwng iechyd cyhoeddus y coronafeirws Covid-19 i ystyriaeth.

Cynigir cyfres o argymhellion ar gyfer y CD. Mae'r rhain wedi cael eu rhannu'n ddwy adran ar wahân.

- Awgrymiadau gweithredol i'w cyflawni ar unwaith ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen yw argymhellion un i saith
- Argymhellion strategol tymor hwy yw argymhellion wyth i bymtheg gyda'r nod o ddysgu gwersi ehangach o'r CD.

Argymhellion ar gyfer gweddill cyfnod cyflawni'r CD

Argymhelliad 1

Ar hyn o bryd, nid oes gan brosiectau'r CD y systemau a'r prosesau angenrheidiol i gofnodi data a thystiolaeth o ddeilliannau, effeithiau a'r gwahaniaeth a wnaed er mwyn cyflwyno achos busnes ar gyfer cyllid cynaliadwy yn y dyfodol. Dylai'r BPRh weithio gyda'u gwerthuswyr allanol penodol er mwyn sicrhau bod gan bob prosiect fframwaith gwerthuso cadarn i gasglu tystiolaeth am ddeilliannau (nid dim ond allbynnau clinigol a DPA perfformiad) at ddibenion adrodd yn y dyfodol.

Argymhelliad 2

Er mwyn rhoi mwy o amser i brosiectau CD gael eu gweithredu a chasglu'r dystiolaeth angenrheidiol am effeithiau, dylai Llywodraeth Cymru edrych i ymestyn yr amserlen o leiaf 12 mis. Dylid blaenoriaethu unrhyw estyniad a gymeradwyir ar gyfer prosiectau:

- a) Sy'n gallu dangos eu bod yn cyflawni neu'n rhagori ar eu hamcanion gwreiddiol a/neu
- b) Sydd wedi cael eu cyflymu mewn ymateb i Covid-19.

Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch datblygiad pandemig y coronafeirws Covid-19, dylid parhau i adolygu'r argymhelliad hwn ac ymestyn yr amserlen eto fyth os oes angen.

Argymhelliad 3

Lle bo safbwynt y BPRh yn glir nad yw rhai ymyraethau'n gweithio, neu nad ydynt wedi dwyn ffrwyth eto, dylai'r BPRh a Llywodraeth Cymru gynnal dialog agored a gonest i glustnodi'r rhain a sefydlu proses i gau pen y mwdwl ar y prosiectau hyn.

Argymhelliad 4

Yng ngoleuni pandemig y coronafeirws Covid-19, dylai Llywodraeth Cymru a'r BPRh ystyried newid ffocws prosiectau'r CD ar gyfer gweddill cyfnod y gweithgareddau a all helpu i leddfu'r pwysau sydd ar iechyd a gofal cymdeithasol yn y cyfnod interim e.e. trwy gynyddu darpariaeth gofal yn y gymuned neu ryddhau pobl o'r ysbyty. Dylid ail-ddyrannu unrhyw gyllid CD sy'n weddill i weithgareddau Covid-19.

Argymhelliad 5

Dylai'r BPRh ganolbwyntio ar ddatblygu strategaethau ymadael clir a chadarn ar gyfer eu prosiectau CD yn ystod gweddill y cyfnod fel y gellir cynnal y chwistrelliad o gyllid a ddarperir gan y CD at y dyfodol.

Dylai strategaethau ymadael ystyried hefyd sut y gall y BPRh sicrhau bod modd cyflymu'r cydrannau llwyddiannus o'r gwahanol fodelau a'r dulliau newydd o weithredu i'w mabwysiadu ar raddfa ehangach a'u datblygu ar lefel ranbarthol neu genedlaethol yn y dyfodol.

Argymhelliad 6

Gofynnir i'r BPRh ddefnyddio gwahanol fecanweithiau adrodd ar gyfer sawl ffrwd ariannu debyg o fewn yr un adran o Lywodraeth Cymru. Mae'r diffyg cysondeb yma'n creu beichiau gweinyddol sylweddol. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried alinio gofynion adrodd y gwahanol gronfeydd fel bod yr holl wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn yr un fformat yr un pryd.

Argymhelliad 7

Os caiff Argymhellion 1-6 eu gweithredu fel rhan o'r model dylunio a chyflawni ar gyfer trawsnewid yn y dyfodol, dylai hynny ryddhau mwy o amser i reolwyr prosiectau ystyried yr hyn a ddysgwyd o brosiectau'r CD.

O ran y Gronfa Drawsnewid gyfredol, lle bo modd dylid gwneud pob ymdrech i roi prosesau ar waith i rannu dysg am 'beth sy'n gweithio' ar lefel ranbarthol ar draws y BPRh.

Ar lefel genedlaethol, mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod yr hyn a ddysgir gan fodelau a dulliau ar themâu tebyg yn cael ei ystyried a'i rannu.

Dylai elfen Cymunedau Maes y gwerthusiad cenedlaethol chwarae rhan bwysig wrth sicrhau hyn. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu 'manylebau' cenedlaethol sy'n ymgorffori'r gwersi a'r arferion gorau i gydategu unrhyw gyflwyniad pellach neu ddatblygiad o'r modelau llwyddiannus yn y dyfodol.

Argymhellion strategol tymor hwy:**Argymhelliad 8**

Er bod y cysylltiadau rhwng CI a CD yn glir, yn y dyfodol rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru neilltuo digon o amser yn ystod cyfnod dylunio unrhyw raglen ariannu i weithio mewn partneriaeth â'r BPRh i ystyried a dadansoddi eu blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer cyllid o'r fath. Dylid datblygu canllawiau manylach sy'n parhau i ddarparu hyblygrwydd, ond sy'n fwy strategol ac wedi eu targedu'n well.

Argymhelliad 9

Yn y dyfodol, dylai fod yna gyfeiriad cliriach gan LIC a chyllid ar gyfer llai o brosiectau trawsnewid ond rhai sy'n fwy strategol eu natur, yn unol â'r bwriad gwreiddiol a nodwyd o fewn yr Adolygiad Seneddol.

Dylai'r BPRh gymryd mwy a mwy o gyfrifoldeb dros gynllunio a darparu eu trawsnewidiad eu hunain a chyflwyno neu ddatblygu dulliau sydd eisoes wedi cael eu profi'n llwyddiannus ar lefel isranbarthol.

Argymhelliad 10

I ddilyn y CD, dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhyddhau cyllid i'r BPRh i gyflawni nifer benodol o fodelau strategol y profwyd eu bod yn gweithio o fewn y cylch ariannu cyfredol (os yw'r dystiolaeth yma ar gael erbyn diwedd y cyfnod ariannu).

Gellid gweld hyn fel cyllid sydd ar gael i gyflawni'r 'manylebau cenedlaethol' a ddatblygwyd o ganlyniad i Argymhelliad 7. Byddai hyn yn ddull mwy cyfarwyddol o weithredu a fyddai'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r CD cyfredol.

Argymhelliad 11

Rydyn ni'n argymhell y dylai unrhyw gronfa drawsnewid yn y dyfodol gynnwys cyfnod cynllunio o chwech i ddeuddeg mis i'r prosiectau a gymeradwyir, ac yn ystod y cyfnod hwn gellir rhoi prosesau recriwtio ar waith a sefydlu strwythurau llywodraethu.

Argymhelliad 12

Dylai fframweithiau gwerthuso cadarn a chlr gael eu cymeradwyo o fewn cyfnod cynllunio'r prosiectau sy'n cael sêl bendith cyn y gallant symud ymlaen i gael eu cyflawni'n llawn yn achos unrhyw gyllid a ddaw i ddilyn y gronfa drawsnewid.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd i gyfuno ffrydiau ariannu yn y dyfodol. Yn benodol, mae yna gyfleoedd i edrych ar y posibilrwydd o integreiddio cyllid ICF a'r CD. Dylid edrych hefyd ar gyfleoedd ehangach i gyfuno cyllid er mwyn symleiddio prosesau a chanolbwyntio cyllid ar flaenoriaethau strategol yn fwy effeithiol.

Argymhelliad 14

Rydyn ni'n argymhell bod Llywodraeth Cymru'n datblygu meini prawf clir ar gyfer gwerthuso a thempledi ymgeisio ochr yn ochr â chanllawiau, prosesau cymeradwyo a phrosesau rheoli ac adrodd gweithredol cyson. Yn ogystal, dylai'r BPRh ddangos yn glir sut y byddant yn bodloni'r gofynion adrodd a rheoli gweithredol a gwerthuso o'r cychwyn cyntaf er mwyn osgoi gorfod gofyn am wybodaeth ychwanegol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau trosiant cyflymach wrth roi sêl bendith i brosiectau a chyfathrebu'n rheolaidd ag arweinwyr y cynigion drwyddi draw. Dylid cynnig adborth manwl am unrhyw brosiectau aflwyddiannus fel mater o drefn hefyd.

Argymhelliad 15

Mae'r CD wedi dangos bod yna ddiffyg capasiti ar gyfer rheoli prosiectau a setiau sgiliau rheoli newid o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd AaGIC, Gofal Cymdeithasol Cymru a CGGC rhoi ystyriaeth, ar lefel genedlaethol, i sut y gall gynyddu'r capasiti yma o fewn yr adnoddau staffio sydd ar gael, trwy gyllido cyfleoedd hyfforddi a chymwysterau cenedlaethol priodol.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Medi 2019, penododd Llywodraeth Cymru gwmni Ymchwil OB3 ar y cyd â'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) i gyflawni gwerthusiad o Gronfa Drawsnewid (CD) 'Cymru Iachach'.
- 1.2 Dwy nod sydd i'r gwerthusiad, sef:
- gwerthuso i ba raddau mae'r CD wedi cyflymu'r gwaith o fabwysiadu dulliau newydd o weithio'n ehangach a'u datblygu er mwyn disodli neu ail-gyflunio gwasanaethau cyfredol a gwella'r deilliannau ar gyfer pobl
 - gwerthuso cydrannau unigol y modelau newydd sydd wedi hwyluso mabwysiadu ac uwchraddio dulliau newydd o weithio'n llwyddiannus (ac yn aflwyddiannus).
- 1.3 Y bwriad oedd cyflawni'r gwerthusiad ffurfiannol yma'n gyfnodol trwy gydol y cyfnod cyflawni, a llunio adroddiadau gwerthuso canol cyfnod, terfynol a dilynol. Mae'r adroddiad gwerthuso canol cyfnod yma'n cynnig asesiad interim o'r effaith hyd yn hyn; unrhyw sialensiau sydd wedi codi; y gwersi cynnar a ddysgwyd; unrhyw addasiadau a wnaed; llwyddiannau cynnar a'r cynlluniau cynnar ar gyfer cynaliadwyedd at y dyfodol². Cytunwyd hefyd y byddai'r gwerthusiad canol cyfnod yn cynnwys elfen o werthuso prosesau. Cynhyrchir adroddiad gwerthuso terfynol ym mis Mai 2021³, ac adroddiad dilynol flwyddyn yn ddiweddarach.

Strwythur yr adroddiad

- 1.4 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn naw pennod fel a ganlyn:
- pennod un: y cyflwyniad yma i'r adroddiad
 - pennod dau: amlinelliad o'r methodoleg gwerthuso
 - pennod tri: cyflwyniad i'r CD a'r prosiectau y mae'n eu hariannu
 - pennod pedwar: pennu Theori Newid ar gyfer y gronfa
 - penodau pump i wyth: amlinelliad o'r canfyddiadau allweddol mewn perthynas â dyluniad, cyflawniad, mewnbwn, gweithgareddau, allbwn a'r deilliannau sy'n codi o'r CD
 - pennod naw: casgliadau ac argymhellion

² Llywodraeth Cymru (2019), Manyleb y Gwerthusiad o'r Gronfa Drawsnewid, t.7.

³ Gallai'r dyddiad hwn newid o ganlyniad i argyfwng y coronafeirws Covid-19.

2. Methodoleg y Gwerthusiad

- 2.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r dull a ddefnyddiwyd i gyflawni'r gwerthusiad canol cyfnod, ac mae'n cynnig safbwynt ynghylch cryfderau a chyfyngiadau'r dull a fabwysiadwyd.
- 2.2 Amlinellir nodau'r gwerthusiad cenedlaethol o'r CD yn y cyflwyniad (pennod 1) ac mae'r rhain wedi cael eu bwydo gan gwestiynau ymchwil penodol sy'n gyffredin i elfennau cenedlaethol a rhanbarthol y gwerthusiad o'r CD. Mae'r cwestiynau ymchwil (a amlinellir yn llawn yn Atodiad B) yn cwmpasu chwe phwnc gwahanol, sef:
- Modelau gweithredu – i ba raddau y mae prosiectau'n newydd ac yn drawsnewidiol; yn gallu dangos newid i wasanaethau ataliol parhaus; yn gallu cael eu datblygu
 - Cyflymdra'r newid - sut mae hyn wedi amrywio yn ôl ffocws y prosiectau, a chlustnodi'r ffactorau critigol sy'n dylanwadu ar hyn
 - Deilliannau a mesurau perfformiad - perfformiad gwaelodlin; perfformiad cyfredol yn erbyn y gwaelodlinau; arferion da wrth fesur deilliannau a'r bylchau a glustnodwyd yn sail y dystiolaeth
 - Y manteision o ran cost – effaith ariannol y CD; yr elw ar fuddsoddiad neu'r arbedion ariannol a wnaed; cynaliadwyedd at y dyfodol
 - Cysylltiad – i ba raddau y mae'r gweithlu a dinasyddion wedi chwarae rhan; y manteision a'r sialensiau
 - Llywodraethu – trefniadau; perchnogaeth a rhwystrau i newid.
- 2.3 Caiff y gwerthusiad cenedlaethol ar gyfer y CD ei gyflawni mewn tri cham gwahanol. Yr adroddiad hwn yw'r cam cyntaf. Gwerthusiad canol cyfnod yw hi sy'n ystyried yr agweddau o ran gwerthuso prosesau ac yn cynnig ystyriaeth gychwynnol o'r deilliannau sy'n dechau dod i'r amlwg. Cyflawnir ail ran y gwerthusiad cenedlaethol yn 2021 a chyflwynir adroddiad gwerthuso terfynol i Lywodraeth Cymru a fydd yn dilyn methodoleg debyg ond â ffocws ar adrodd ar effeithiau'r CD a'r prosiectau sy'n rhan ohoni ar sail y newid i'r unigolyn/dinesydd a newidiadau 'system-eang', erbyn Mai 2021⁴. Darperir adroddiad dilynol yn ystod trydydd cam y gwerthusiad cenedlaethol ym Mehefin 2022 a fydd yn ymdrechu i gasglu a chyfleu mwy o ddata a thystiolaeth ar yr effeithiau hirdymor.

⁴ Gallai hyn newid o ganlyniad i argyfwng y coronafeirws Covid-19.

2.4 Mae'r gwerthusiad cenedlaethol o CD wedi cael ei fwydo gan adroddiadau gwerthuso rhanbarthol a gyflawnwyd gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) unigol. Mae pob BPRh yn gyfrifol am gyflawni gwerthusiad manwl o bob un o'u prosiectau trawsnewid, ac mae Llywodraeth Cymru a'r saith BRPh wedi pennu cyfres o ofynion gwerthuso cyffredin i sicrhau dull cyson o weithredu ar draws Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- paratoi methodoleg Theori Newid ar gyfer pob prosiect – a fydd yn cynnwys clustnodi mesurau perfformiad a gwaelodlinau
- y gofyniad i ymateb i amcanion y cwestiynau ymchwil a'r gwerthusiad cenedlaethol
- gofyniad am i unrhyw werthuswyr sy'n cael eu penodi gan y BPRh ddilyn y dull Cymunedau Maes (CM) sy'n cael ei drefnu gan y gwerthuswyr cenedlaethol i rannu arferion da
- llunio adroddiadau gwerthuso rhanbarthol i fwydo canfyddiadau'r gwerthusiad cenedlaethol.

Y Dull

2.5 Roedd y gwerthusiad canol cyfnod, a gyflawnwyd rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020, yn cwmpasu'r elfennau gwaith canlynol:

- cyfnod cychwynnol i gynnwys cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod y rhaglen waith, cyrchu gwybodaeth a dogfennaeth perthnasol mewn perthynas â'r Gronfa Drawsnewid (CD) a pharatoi adroddiad gwerthuso cychwynnol
- gwaith ymchwil desg gan gynnwys adolygu'r dogfennau polisi perthnasol, y ddogfennaeth weithredol, ceisiadau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) a'r adroddiadau diweddarau chwarterol
- cyflawni cyfres o gyfweiliadau pennu cwmpas dros y ffôn ac wyneb yn wyneb gyda chynrychiolwyr o bob un o'r gwerthuswyr a benodwyd gan y BPRh
- datblygu templed adrodd ar gyfer y gwerthusiadau rhanbarthol gan ddefnyddio'r cwestiynau ymchwil a'r gofynion gwerthuso a bennodd Llywodraeth Cymru yn eu trefniadau contractiol gyda'r BPRh
- paratoi cyfres o ganllawiau trafod lled-strwythuredig i'w defnyddio gydag amryw o gyfranogwyr gan gynnwys swyddogion polisi a chyflawni Grŵp Iechyd a

Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, cadeiryddion, arweinwyr ac uwch reolwyr y BPRh ym mhob rhanbarth sydd â chyfrifoldeb dros y CD

- cyflawni cyfweiliadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â phump o randdeiliaid polisi a strategol
- cyflawni pecyn o waith maes ansoddol ar draws y saith BPRh. Roedd y gwaith maes yn cynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â 26 o randdeiliaid o'r BPRh
- cyflawni meta-ddadansoddiad manwl o'r adroddiadau gwerthuso rhanbarthol a baratowyd gan y BPRh ac a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2020, gan gynnwys dadansoddiad o'r data gwaelodlin a'r allbwn a'r deilliannau o ran perfformiad a gasglwyd hyn yn hyn
- cyflwyno'r canfyddiadau sy'n deillio o'r gwerthusiad mewn cyfarfodydd o Fwrdd Reoli'r CD, Bwrdd Ymgynghorol y CD a'r Rhwydwaith CD a chasglu adborth o'r drafodaeth sy'n dilyn
- cyfuno canfyddiadau'r gwaith maes a'r adolygiad desg, a pharatoi'r adroddiad terfynol yma.

2.6 Mae'r gwerthusiad o raglen y CD yn cynnwys dull o ddysgu ymarferol ar ffurf cyfres o achlysuron Cymunedau Maes (CM). Caiff yr achlysuron CM yma eu dylunio er mwyn:

- tynnu ynghyd a chynorthwyo'r rhai sy'n cyflawni ac yn gwerthuso'r modelau iechyd a gofal cymdeithasol newydd sy'n cael eu hariannu gan y Gronfa Drawsnewid
- galluogi timau prosiect o wahanol ranbarthau i rannu datblygiadau, arferion gorau a dysg trwy weithgareddau a thrafod â'i gilydd
- rhannu esiamplau o ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar arferion gorau o rannau eraill o'r DU â'r timau prosiect
- cyfrannu at yr argymhellion y bydd y tîm gwerthuso cenedlaethol yn eu gwneud yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.

2.7 Bydd y CM yn cynorthwyo'r rhanbarthau i gydweithio ar lefel genedlaethol fel rhan o broses barhaus er mwyn bwydo cyflawniad mewn ffordd ddeinamig ar draws y rhanbarthau. Trefnir yr achlysuron CM yn ôl tair thema sy'n adlewyrchu gwasanaethau neu fodelau cyffredin ar draws y rhanbarthau (e.e. gofal yn seiliedig ar le neu ryddhau o'r ysbyty i'r cartref). Bydd hyn yn cynorthwyo'r CD i gynnal 'cwmpas a maint' y modelau gofal newydd. Bydd y CM yn ymdrechu i ddarparu 'lle diogel' i gynrychiolwyr y prosiectau rannu rhwystrau i gyflawniad,

tynnu sylw at achosion o arloesi a chysylltu ag ymarferwyr eraill o ranbarthau eraill sy'n gweithio ar ddulliau tebyg.

- 2.8 Yn ogystal â'r achlysuron CM, cynhelir gweithdai mwy fel y gall pob thema a glustnodir gysylltu amrywiaeth ehangach o randdeiliaid (e.e. BPRh, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AGIC), Uned Cyflawni'r GIG, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLICC), Conffederasiwn y GIG ac ati). Caiff y gweithdai hyn eu dylunio i godi proffil a datblygu momentwm o gylch datblygu a phennu cwrmpas modelau gofal newydd. Cyflwynir arferion gorau o rannau eraill o'r DU yn y gweithdai hyn hefyd.
- 2.9 Yn olaf, caiff rhith-fforwm ei ddatblygu fel sylfaen i ddull gweithredu'r CM. Bydd y fforwm yn caniatáu i dimau prosiect ar draws y rhanbarthau barhau i drafod y materion sy'n codi a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Ystyriaethau methodolegol

- 2.10 Dylid ystyried nifer o faterion sydd wedi effeithio ar y fethodoleg a'r dystiolaeth sydd ar gael yn rhan o'r adolygiad gwerthuso canol cyfnod.
- 2.11 Yn gyntaf, ystyriwyd y gwaith maes a'r dadansoddiad o adroddiadau gwerthuso canol cyfnod rhanbarthol y BPRh cyn yr argyfwng y coronafeirws Covid-19 a'r effaith a gafodd hynny ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid cydnabod y bydd y datblygiad yma'n sicr o gael effaith ar ddyfodol prosiectau'r CD. Nid yw canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn adlewyrchu hynny, ond rydym yn cymryd y peth i ystyriaeth yn ein hadran ar gasgliadau ac argymhellion.
- 2.12 Yn ail, nid oes yna gynllun busnes ffurfiol ar gyfer y CD sy'n pennu'r nodau, yr amcanion, y model cyflawni na'r dangosyddion perfformiad, ond mae'r egwyddorion a'r deilliannau a bennwyd yn CI, a'r canllawiau ar gyfer ceisiadau i'r CD yn darparu rhai manylion perthnasol. Trafodir y rhesymeg dros ddatblygu'r CD ym mhenodau pedwar a phump, ond mae hyn wedi golygu taw proses ôl-osod fu'r broses o gyfleu Theori Newid a rhesymeg dros yr ymyrraeth (h.y. pennu'r angen, y nodau lefel uchel, mewnbwn, allbwn a deilliannau) mewn perthynas â'r rhaglen.
- 2.13 Yn drydydd, y bwriad oedd y byddai ffocws cychwynnol y gwerthusiad canol cyfnod ar gasglu allbwn a deilliannau oedd yn dechrau dod i'r amlwg. Daeth hi'n glir yn ystod y cyfnod cynnar ar ôl comisiynu'r gwaith y byddai hyn yn her. Roedd y broses ymgeisio ar gyfer y CD yn gofyn bod y BPRh yn datblygu mesurau perfformiad, ond nid oedd llawer o'r BPRh wedi penodi eu darparwyr gwerthuso rhanbarthol eu hunain ar y pryd, ac ychydig iawn o fframweithiau

gwerthuso oedd yn bodoli ar lefel ranbarthol i gasglu tystiolaeth o'r fath. Yn ogystal, nid oedd llawer o'r ffrydiau gwaith o fewn y prosiectau wedi cychwyn eto neu roeddent ar gyfnod cynnar iawn yn eu gweithrediad. Am hynny, disgwyliwyd y byddai llai o ddata a thystiolaeth ar gael i'w dadansoddi. Yn niffyg tystiolaeth o allbwn a deilliannau, cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru y byddai'r adroddiad gwerthuso canol cyfnod hwn yn gosod ffocws cadarn ar gofnodi'r hyn a ddysgwyd o werthuso prosesau. Datblygwyd canllawiau trafod i adlewyrchu'r newid ffocws yma.

- 2.14 Yn olaf, mae prosiect ychwanegol, [Cydweithio dros Ofal yr Arennau](#), a noddwyd trwy BPRh Cwm Taf Morgannwg wedi cael ei ariannu gan y CD. Mae'r prosiect yn rhywbeth y gellid ei ddatblygu ar draws Cymru gyfan, ond dim ond ers Ionawr 2020 y mae hi wedi bod yn 'fyw'. Am fod y dyddiad dechrau mor ddiweddar, nid oes cymaint o fanylion ar gael trwy'r adroddiadau ar gynnydd. Mae sylwadau a gododd o gyfweiliadau am eu profiadau o'r broses ymgeisio a sefydlu wedi cael eu hintegreiddio i'r adroddiad hwn lle bo modd. Oherwydd natur wahanol y prosiect hwn, nid yw rhai agweddau ar yr adborth wedi cael eu cynnwys am y byddai modd clustnodi pwy wnaeth y sylwadau.

3. Trosolwg o'r Gronfa Drawsnewid

3.1 Mae'r bennod hon yn cynnig cyflwyniad i'r Gronfa Drawsnewid (CD). Mae'n ystyried cyd-destun strategol y gronfa, y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo, nodau ac amcanion y rhaglen o ran ariannu prosiectau a chrynodeb byr o'r holl brosiectau a ariennir o bob un o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh).

Y Cefndir

- 3.2 Cyhoeddwyd 'Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' (CI)⁵ ym Mehefin 2018, ac roedd yn pennu gweledigaeth hirdymor ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' at y dyfodol. O fewn CI roedd yna weithred i 'sefydlu CD wedi ei thargedu i gynorthwyo gweithrediad y Cynllun hwn', ac yn enwedig y modelau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor sy'n cael eu hyrwyddo gan y BPRh.
- 3.3 Pwrpas y CD yw darparu cyfanswm o £100m i gyflymu datblygiad modelau darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol newydd, eu hehangu, a dangos eu gwerth. Mae'r CD yn rhan o Raglen Drawsnewid ehangach a sefydlwyd i gyflawni'r ymrwymadau a wnaed yn CI.
- 3.4 Lansiwyd y gronfa yn haf 2018, a gwahoddwyd pob un o'r saith BPRh i gyflwyno cynigion i'w hariannu gan eu hannog i ganolbwyntio ar fodelau a fyddai'n gwneud cynnydd cynnar wrth:
- alinio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor
 - ddatblygu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol a chymunedol yn lleol, a
 - gwasanaethau a gweithgareddau atal newydd integredig.
- 3.5 Mae canllawiau'r Gronfa Trawsnewid, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru⁶ yn 2018, yn amlinellu cwmpas y gronfa fel a ganlyn:
- bodloni'r costau ychwanegol â therfyn amser sydd ynghlwm wrth gyflwyno modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol
 - cyflymu'r gwaith o fabwysiadu a datblygu ffyrdd newydd o weithio y bwriedir iddynt ddisodli neu ail-gyflunio gwasanaethau presennol
 - dilysu gallu modelau newydd i dyfu

⁵ [Llywodraeth Cymru \(2018\) Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

⁶ Llywodraeth Cymru (2018) Y Gronfa Drawsnewid 2018-20 – Canllawiau

- profi a yw'r modelau newydd yn drawsnewidiol, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, yn hytrach nag ychwanegu haen arall at strwythurau sy'n bodoli eisoes.
- 3.6 Yr amcan hirdymor oedd y câi'r rhain, a modelau newydd eraill, eu mabwysiadu gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, wedi eu hariannu o'u hadnoddau eu hunain.
- 3.7 Mae'r canllawiau'n pwysleisio'r ffaith fod 'terfyn amser' yn berthnasol i'r cyllid dros gyfnod o ddwy flynedd rhwng 2018/19 a 2019/20, ac maent yn nodi'n benodol nad oes disgwyl i unrhyw fodel gael ei ariannu 'yn gylchol' yn sgil hynny. Anogwyd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynnig cynigion 'cyn gynted â phosibl' gyda'r bwriad y câi'r rhain eu hystyried ar sail dreigl 'gydag amserlen arfaethedig o ddim mwy na 3-4 wythnos' i Lywodraeth Cymru roi penderfyniad ar ganlyniad y cais. Roedd yr amserlen a bennwyd i BPRh ddatblygu eu ceisiadau'n uchelgeisiol o ystyried yr angen am i ymgeiswyr gael sêl bendith y BPRh cyn eu cyflwyno, er bod disgwyl i'r ceisiadau fod yn weddol gryno (dim mwy na deg tudalen o hyd), yn hytrach nag yn achosion busnes cyflawn.
- 3.8 Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y CD yn pwysleisio bod angen i bob prosiect ddarparu:
- disgrifiad clir o gwmpas ac amcanion y prosiect, mewn perthynas â CI a'r Egwyddorion Cynllunio perthnasol
 - amserlen fisol sy'n nodi cerrig milltir a defnydd o adnoddau, gan gynnwys cyllid, trwy gydol oes y prosiect
 - manylion am sut y câi'r prosiect ei werthuso'n broffesiynol mewn modd amserol, i ddarparu tystiolaeth a fyddai'n llywio penderfyniadau ynghylch eu mabwysiadu'n ehangach, gan ystyried yn arbennig gwella canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol, gwell gwerth o ran gofal iechyd, a darparu gwasanaethau fforddiadwy
 - manylion ynghylch sut y bydd y prosiect yn cysylltu rhanddeiliaid allweddol, ac yn arbennig y rhai sy'n chwarae rhan uniongyrchol yn y prosiect (er enghraifft darparwyr gwasanaethau, y cyhoedd a chleifion) a 'mabwysiadwyr nesaf' posibl y model neu'r dull newydd (er enghraifft Clystyrau Gofal Sylfaenol⁷ a BPRh eraill)

⁷ Mae yna 64 o Glystyrau Gofal Sylfaenol ar draws Cymru sy'n cael eu grwpio yn ôl practisau Ymarferwyr Cyffredinol. Y Byrddau Iechyd Lleol sy'n pennu eu ffiniau daearyddol.

- manylion am sut y bydd y model newydd yn gynaliadwy ar ôl cwblhau'r prosiect trawsnewid.

- 3.9 Roedd y canllawiau'n dweud y câi'r deg Egwyddor Cynllunio eu mabwysiadu fel y prif feini prawf ar gyfer dethol. Roedd yna ddisgwyliad y byddai'r holl gynigion yn mynd i'r afael â'r ddwy Egwyddor Cynllunio (yn gallu datblygu ac yn drawsnewidiadwy) ac o leiaf un arall. Roedd y canllawiau'n nodi hefyd y câi cynigion oedd yn mynd i'r afael â sawl Egwyddor Cynllunio eu blaenoriaethu. Roedd y canllawiau'n glir fod Llywodraeth Cymru'n disgwyl i rai prosiectau fethu ac yn pwysleisio pa mor bwysig oedd hi fod arweinwyr prosiectau'n cydnabod hyn 'er mwyn cryfhau cyflawniad gan brosiectau a/neu safleoedd eraill'⁸.
- 3.10 Erbyn Mehefin 2019, roedd cyfanswm o 12 cynnig wedi cael sêl bendith ar draws y saith BPRh, gwerth cyfanswm o £87m fel a ganlyn:
- £6.9m i BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg
 - £22.7m i BPRh Cwm Taf Morgannwg
 - £13.5m i BPRh Gwent
 - £13m i BPRh Gogledd Cymru
 - £2.6m i BPRh Powys
 - £16.5m i BPRh Gorllewin Morgannwg
 - £12m i BPRh Gorllewin Cymru.
- 3.11 Mae Ffigur 3.1 yn pennu'r 30 prosiect a gymeradwywyd ar draws y 12 cynnig a gyhoeddwyd gan y BPRh, ac mae'n cynnwys manylion eu dyddiadau cymeradwyo hefyd⁹. Ceir crynodeb mwy manwl yn Atodiad A.

⁸ Ibid. t.4.

⁹Cyfeiria'r dyddiadau cymeradwyo at ddyddiadau'r llythyrau cynnig grant ac felly'r dyddiad yr hysbyswyd yr RPB yn swyddogol bod eu prosiectau wedi cael cymeradwyaeth. Mewn ambell i achos, cyflawnwyd y broses werthuso sawl mis cyn anfon llythyr cynnig y grant. Yn yr un modd, mewn ambell i achos, ni chafodd y llythyrau eu llofnodi a'u dychwelyd am sawl mis am amryw resymau.

Ffigur 3.1: Crynodeb o brosiectau'r Gronfa Drawsnewid ym mhob BPRh

BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg

Dyfarnwyd cyllid i'r BPRh ar gyfer saith prosiect, a gymeradwywyd yn Rhagfyr 2018:

Model Cyflymu'r Clwstwr: gan ddefnyddio dulliau datblygu cymunedol yn seiliedig ar asedau, nod y prosiect yw datblygu gweithlu lles lleol, gan gynnwys tîm amlddisgyblaeth, pobl sy'n darparu presgripsiynau cymdeithasol, cysylltiadau cymunedol ac adnoddau datblygu cymunedol.

Presgripsiynau Cymdeithasol Di-dor: un pwynt mynediad at wasanaethau annibyniaeth a llesiant ar y we ac ar y ffôn a gwasanaethau gofal sefydlog ac anghymhleth. Bydd practisau ymarferwyr cyffredinol yn gallu defnyddio'r dechnoleg hefyd.

D: datblygu gwasanaeth Brysbennu effeithiol ar gyfer meddygon teulu sy'n darparu cymorth ac yn atal pobl rhag gorfod gweld meddyg teulu oni bai bod angen meddygol.

Gwasanaethau Ataliol Ewch â Fi Adref: un pwynt mynediad newydd o fewn yr ysbyty sy'n defnyddio sgysiau 'Beth sy'n Bwysig' i ddarparu cymorth holistaidd wedi ei deilwra sy'n bodloni anghenion yr unigolyn o ran llesiant, gan ddarparu ymyraethau ataliol a chynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol.

Ewch â Fi Adref a Mwy: model gofal newydd a fydd yn gweithio gyda charfan o gleifion sy'n fwy anghenus ac sydd angen pecyn mwy dwys o gymorth ail-alluogi a gofal cartref, gan gynnwys gwasanaeth dros nos a gofal cofleidiol lle bo angen.

Datblygu Dull Gweithredu sy'n ymwybodol o ACE i greu Plant a Phobl Ifanc Gwydn: bydd tîm gwytnwch yn gweithio mewn ysgolion i gynorthwyo llesiant emosiynol plant, gan ddod â'r agweddau cysylltiad, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs ac iechyd meddwl i mewn i wasanaeth holistaidd sy'n cwmpasu addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

Datblygu Timau Cymunedol Integredig sy'n Seiliedig ar Le: glasbrint newydd 'sy'n seiliedig ar le' ar gyfer gwasanaethau a fydd yn pennu cwmpas isafswm y gwasanaethau y gellid eu darparu ar lefel clwstwr/lleoliad/awdurdod lleol ac Ôl-troed BIP mewn ffordd gynaliadwy.

BPRh Cwm Taf Morgannwg

Mae cydran Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys yr wyth prosiect canlynol, a gymeradwywyd ym Mehefin 2019:

Error! Reference source not found.— i ddarparu'r gwasanaeth hwn trwy ddefnyddio model gweithlu darbodus a rhaglen brysbennu gydategol sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial.

Tîm Clwstwr Cymunedol Uwch – gan adeiladu ar y dull 'rith-ward' a arbrofwyd yng Nghlwtwr Gogledd Cynon, nod y dull amlddisgyblaeth hwn yw darparu cymorth ar gyfer y 3% sy'n defnyddio'r gwasanaethau'r mwyaf mewn practis meddyg teulu.

Error! Reference source not found. – timau amlddisgyblaeth sy'n gweithio mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Unedau Meddygol Aciwt ac Unedau sy'n gwneud Penderfyniadau Clinigol. Maen nhw'n asesu unigolion mewn unedau Damweiniau a Brys a'u nod yw atal derbyniadau diangen, ynghyd â model 'rhyddhau i asesu' â'r nod o glustnodi pobl yn gynt yn eu siwrnai ysbyty, a allai gael cymorth gwell gartref.

Segmentu'r Boblogaeth a Haenu Risgiau – dull newydd o asesu anghenion iechyd gan ddefnyddio dulliau segmentu'r boblogaeth. Mae sgoriau risg cleifion unigol yn cael eu cyfrifo trwy gysylltu a dadansoddi data sylfaenol ac eilaidd, a haenu'r risgiau.

Error! Reference source not found. – gwasanaeth sy'n cynnig uned cymorth ac achub ac offer mwy arbenigol fel teclynnau datgelu codymau sy'n cysylltu â chanolfan fonitro.

Mae cydran Pen-y-bont yn adeiladu ar waith sy'n cael ei wneud eisoes ym maes integreiddio gwasanaethau. Ffocws y tair ffrwd gwaith ar gyfer ardal Pen-y-bont felly yw cyflymu'r newid o fewn y gwasanaethau integredig hyn:

Error! Reference source not found.**Saith Diwrnod yr Wythnos** – dros ddiwrnodau estynedig a gofal a chymorth gyda'r nos. Y nod yw sicrhau dull cydlynol o ddarparu gwasanaethau lle mae'r llif o bobl i mewn ac allan o wasanaethau'n barhaus ac yn hygyrch.

Error! Reference source not found. – darparu un tîm amlddisgyblaeth o broffesiynolion gofal sylfaenol sy'n canolbwyntio ar bobl yn seiliedig ar rwydweithiau clwstwr cymunedol, fel y gellir cyflawni asesiadau amserol ac ymatebol ar gyfer unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth gartref.

D – dull cydweithredol o gymhwyso dulliau ataliol o weithredu a fydd yn cyfoethogi llesiant poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

BPRh Gwent

Cafodd pedwar prosiect eu cymeradwyo yn BPRh Gwent yn Chwefror 2019:

Dull gweithredu system-gyfan i atal a darparu ymyrraeth gynnar yw'r Error! Reference source not found.. Bydd yn creu rhwydwaith o asedau llesiant cymunedol ar sail olion troed priodol sy'n seiliedig ar le. Mae'n cynnwys creu strwythurau a rhwydweithiau; datblygu hybiau yn y gymuned, darparu hyfforddiant a chymorth i bobl i hybu llesiant a ffyrdd o gyrchu gwybodaeth yn rhwydd.

Bydd prosiect Error! Reference source not found. yn datblygu model gweithlu cynaliadwy ar draws Gofal Sylfaenol, yn cynyddu argaeledd gwasanaethau arbenigol yn agosach at adref, ac yn datblygu un pwynt mynediad ar gyfer gwybodaeth a chyngor.

Prosiect ICEBERG yw darparu mynediad di-dor at ofal iechyd meddwl ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac mae'n cynnwys ymyrraeth gynnar â'r nod o atal anghenion a gofal rhag dwysáu lle bo modd.

System ddi-dor o gymorth i hwyluso rhyddhau unigolion o'r ysbyty ar y cyfle cynharaf posibl yw Error! Reference source not found. â ffocws ar wardiau arhosiad byr a'r bobl hynny nad oes angen eu derbyn am arhosiad yn yr ysbyty.

BPRh Gogledd Cymru

Mae yna bedwar prosiect o dan adain BPRh Gogledd Cymru:

Cymeradwywyd **Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol: Cydweithio dros Gymunedau Lleol** ym mis Mawrth 2019, a'i nod yw gweithio gyda'r sector annibynnol a'r trydydd sector i ffrwyno sgiliau'r gweithlu gofal yn well, a datblygu rolau a chyfleoedd gyrfaol yn well o fewn ac rhwng sefydliadau, gan ddefnyddio gwahanol fodelau o gyflogaeth i greu gweithlu cynaliadwy â chefnogaeth o fewn pob clwstwr. Elfen allweddol o fodel y gwasanaeth hwn yw cyfraniad y trydydd sector wrth gynorthwyo gwasanaethau llesiant, hyrwyddo cynhwysiant a chyfranogaeth a chydlynu presgripsiynau cymdeithasol.

Mae'r prosiect **Ymyrraeth Gynnar Integredig a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc Gogledd Cymru** (C&YP) a gymeradwywyd ym Mawrth 2019 yn cwmpasu tair elfen, sef:

- ymgrych amlasiantaeth i wella iechyd emosiynol, lles a gwytnwch plant a phobl ifanc trwy ymyrraeth gynnar ac atal
- datblygu ymyraethau 'ymateb cyflym' (allgymorth mewn argyfwng) ar gyfer plant a theuluoedd ar gyrion gofal
- datblygu gwasanaethau preswyl tymor byr er mwyn helpu i ddychwelyd plant a phobl ifanc sydd ar gyrion gofal adref yn effeithiol.

Cymeradwywyd partneriaeth **Gogledd Cymru Law yn Llaw: At Wasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu** rhwng chwe awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Betsi Cadwaladr yn Rhagfyr 2019 a'i nod yw sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn mwynhau gwell ansawdd bywyd a'u bod yn teimlo'n ddiogel. Mae yna bum ffrwd gwaith, gan gynnwys:

- strwythurau integredig
- datblygu'r gweithlu
- comisiynu a chaffael
- newid diwylliant a chymunedau
- technoleg gynorthwyol.

Nod y prosiect Error! Reference source not found., a gymeradwywyd yn Ionawr 2019, yw rhoi system gofal fwy integredig ar waith drwy:

- hyrwyddo iechyd a lles emosiynol ac atal argyfyngau iechyd meddwl
- darparu ymateb holistaidd ac amserol at anghenion unigol, a chynorthwyo pobl i gadw'n ddiogel yn eu cymuned
- datblygu gweithluoedd gan gynnwys darparu hyfforddiant argyfwng ar gyfer staff y rheng flaen ar draws sefydliadau
- datblygu cartrefi mwy hygyrch a phriodol ar gyfer pobl sydd mewn perygl o argyfwng iechyd meddwl.

Mae gan BPRh Powys¹⁰ naw llif gwaith cyflymydd penodol i gefnogi ei brosiect Lles Gogledd Powys. Nod y ffrydiau gwaith hyn yw cefnogi cyflwyno model gofal integredig newydd fel y'i mynegir yn y [Strategaeth Iechyd a Gofal ar gyfer Powys](#).

Mae cyllid rhaglen Lles Gogledd Powys yn cefnogi cyflwyno newid tymor hir sy'n ofynnol i gefnogi datblygiad campws llesiant aml-asiantaeth newydd a newid tymor byr mewn perthynas â ffyrdd newydd o weithio y gellir eu gweithredu nawr. Mae'r ffrydiau gwaith canlynol yn canolbwyntio ar y newid tymor byr:

Nod **Plant sy'n Derbyn Gofal yn eu Cynefin** yw lleihau'n ddiogel nifer y plant sydd mewn lleoliadau y tu allan i'r Sir, a'u dychwelyd yn nes at adref trwy greu a datblygu capasiti maethu mewnol ychwanegol, sefydlu darpariaeth breswyl a chapasiti llety, a chynyddu adnoddau.

Nod **Rhyddhau i Ymadfer ac Asesu** (D2RA) yw cynorthwyo pobl i adael yr ysbyty pan fo'n ddiogel ac yn briodol iddynt wneud hynny, a pharhau â'u gofal a'u hasesiad y tu allan i'r ysbyty.

Nod **Adolygiadau o Bell – Ethel** – yw lleihau amser a chostau teithio staff sy'n cyflawni adolygiadau o ddefnyddwyr gwasanaethau mewn cartrefi gofal preswyl trwy ddefnyddio llechen Ethel, sef dyfais fawr â sgrin gyffwrdd a ddyluniwyd ar gyfer pobl hŷn, a fydd yn hwyluso galwadau fideo gyda defnyddiwr y gwasanaeth.

Mae **Dychwelyd yr Asesiad Cyn Llawdriniaeth i Bowys** yn cynnwys amryw o lwybrau a phrosesau asesu fel y gall cleifion gael fynd i leoliadau yn y gymuned i gael asesiadau cyn llawdriniaeth, profion gwaed, EGCs ac i lenwi'r holl waith papur perthnasu.

Nod **Gwaith Atal wedi'i Dargedu** yw gwella'r deilliannau iechyd ar gyfer plant mewn cymunedau difreintiedig yng ngogledd Powys trwy ganolbwyntio ar raglenni iechyd a llesiant mewn ysgolion cynradd.

Bwriad **Rhith-feddygfeydd ac eFwcio** yw defnyddio technolegau digidol i wneud gofal iechyd arbenigol yn fwy hygyrch i gleifion.

Bydd **Cartrefi Digidol** yn galluogi pobl i glustnodi a phrynu offer i'w cynorthwyo i fyw'n annibynnol.

¹⁰ Mae'r rhain wedi cael eu categorïddio fel ffrydiau gwaith yn hytrach na phrosiectau unigol oherwydd eu graddfa gymharol fach o gymharu â'r prosiectau a ariennir ar draws ardaloedd BPRh eraill.

Bydd **Gofal â Chymorth Technoleg** yn defnyddio technoleg i gynnig gwell dewisiadau i bobl ac i atal derbyniadau i'r ysbyty/symud pobl i ofal preswyl cyn pryd.

Nod Dull y **Tîm Integredig Trawsffiniol** yw rhoi cyfle i Bowys ailgyflunio'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd a llesiant cymunedol yn gweithio.

BPRh Gorllewin Morgannwg

Cymeradwywyd dau brosiect ar draws BPRh Gorllewin Morgannwg:

Cymeradwywyd y **Dull System-gyfan y Clwstwr** ym mis Mawrth 2019 ac mae hwn werth £10.6 m. Hwn yw'r mwyaf o'r ddau brosiect dan arweiniad BIP Bae Abertawe ac mae'n cael ei gyflwyno ar draws pob un o 8 ardal glwstwr yr ymarferwyr cyffredinol yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ei amcan yw darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn nes at adref, ac mae'n canolbwyntio ar hunanofal ataliol.

Prosiect £5.8 m dan arweiniad y gymuned yw **Ein Cynllun Cymdogaeth**. Fe'i cymeradwywyd ym mis Chwefror 2019, ac mae'n cael ei weithredu mewn lleoliadau penodol (Cwmtawe a Llwchwr yn Hyb Gogledd Abertawe, a Llansawel a'r Felin yn ardal awdurdod Castell-nedd Port Talbot). Mae'r prosiect yn adeiladu ar y ddarpariaeth gyfredol ac mae'n mabwysiadu dull o ddatblygu sy'n seiliedig ar asedau.

BPRh Gorllewin Cymru

Mae tri phrosiect yn cael eu cyflawni ar draws Gorllewin Cymru, a rhoddwyd cymeradwyaeth i'r rhain yn Chwefror 2019:

Nod **Gofal Rhagweithiol â Chymorth Technoleg**, sy'n cael ei gyflawni gan gwmni masnachu awdurdod lleol sy'n eiddo'n llwyr i Gyngor Sir Caerfyrddin (Delta Wellbeing), yw rhoi model newydd o hunangymorth a gofal rhagweithiol ar waith trwy blatfform TG soffistigedig. Mae'r model yn cynnwys offeryn asesu; monitro galwadau'n rhagweithiol, tîm cymorth lles, unedau ymateb cyflym a chymorth yn y gymuned (gan gynnwys prosiect cynhwysant digidol i leihau unigrwydd a theimladau ynysig; cymorth gofalwyr a gwasanaeth atal codymau rhagweithiol).

Bydd Error! Reference source not found.yn galluogi cleifion sy'n wynebu argyfwng i gael eu gweld a chael triniaeth gan broffesiynolion iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol yn

eu cymunedau, er mwyn lleihau derbyniadau i ysbytai a'i gwneud yn haws eu rhyddhau'n gynnar.

Mae **Cre** yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar le, gan weithio gyda phoblogaethau cyfan ar lefel gymunedol. Mae sawl cydran i'r rhaglen a fydd yn gweithio i fynd i'r afael ag unigrwydd a theimladau ynysig, a meithrin cymunedau cefnogol a gwydn, gan gynnwys ymgyrch caredigrwydd rhanbarthol, cymell gwirfoddoli a chynorthwyo hybiau gweithredu lleol i ddatblygu gweithgareddau rhyng-genhedlaeth. Mae'r rhaglen yn cael ei dylunio a'i chyflawni gyda phartneriaid o'r trydydd sector ac mae'n adeiladu ar y model cysylltiadau cymunedol. Wrth galon hyn mae'r nod o daclo problemau fel unigrwydd a theimladau ynysig.

- 3.12 Yn ogystal, mae prosiect [Cydwethio dros Ofal yr Arennau](#) £2m wedi cael cyllid o'r CD. Rhwydwaith Arennol Clinigol Cymru yw noddwr y prosiect, a Chwm Taf Morgannwg sy'n gweithredu fel BPRh nawdd. Cymeradwywyd y prosiect ym mis Medi 2019. Mae cynllun pum-elfen gan y prosiect i drawsnewid gofal yr arenau yng Nghymru i fod yn ddigidol, gan adeiladu ar lwyddiant eu cynllun peilot rhanbarthol yn ne-orllewin Cymru.
- 3.13 Yn Ionawr 2020, ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at bob BPRh gan bennu'r cynlluniau ar gyfer defnyddio gweddill y Gronfa Drawsnewid. Roedd hyn yn cynnwys cynigion i ddyrannu'r £11m sy'n weddill o gyllideb y CD ar sail ranbarthol er mwyn helpu'r BPRh i fframio graddfa a chwmpas eu cynigion newydd. Adeg drafftio, mae'r cynigion pellach a gyflwynwyd gan y BPRh, â'r nod o gyfoethogi ac ategu prosiectau a gymeradwywyd eisoes, ond â phwyslais ar waith aml-ranbarth a chwmpas cenedlaethol, wrthi'n disgwyl cymeradwyaeth¹¹. Nid yw'r cynigion hyn yn cael eu hystyried felly yn y gwerthusiad canol cyfnod hwn.

¹¹ Gallai argyfwng y coronafeirws Covid-19 effeithio ar y broses yma.

4. Y Theori Newid

- 4.1 Mae'r bennod hon yn pennu'r Theori Newid cyffredinol ar gyfer y Gronfa Drawsnewid (CD). Mae'n ystyried y cyd-destun polisi a'r datblygiadau allweddol wrth sefydlu'r Gronfa, a safbwyntiau'r rhanddeiliaid ynghylch y rhesymeg sydd wrth wraidd y Gronfa, nodau ac amcanion y Gronfa a'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r Theori Newid.

Y Cyd-destun Polisi

Adolygiad OECD o ansawdd gofal iechyd

- 4.2 Casgliad adolygiad yr OECD¹² o ansawdd gofal iechyd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon oedd bod angen i Gymru wella ansawdd y gofal iechyd sydd ar gael a chynyddu atebolrwydd mewn perthynas â'r ddarpariaeth. Roedd yr adolygiad yn rhagweld ei bod hi'n debygol y bydd angen i Lywodraeth Cymru 'ddod yn fwy cyfarwyddol ynghylch beth a ddisgwylir gan rai cyrff a sefydliadau - yn arbennig y Byrddau Iechyd - wrth hybu a chymell arloesi'¹³.
- 4.3 Casgliad yr adolygiad oedd, er bod uchelgeisiau ar gyfer 'system iechyd ragorol sy'n troi o gylch y cleifion' yn bodoli yng Nghymru, bod angen cymryd 'camau ymarferol go iawn' i'w gwireddu. Awgrymodd bod angen 'creu momentwm yn GIG Cymru' a bod Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid allweddol, yn datblygu 'dewislen o gamau manwl, mesuradwy, i'w defnyddio dan gyfyngiadau amser' i gyflawni hyn. Roedd yn awgrymu 'bod angen cynllun gweithredu nawr, er mwyn ategu uchelgais strategol Cymru ar gyfer y system iechyd'¹⁴.
- 4.4 Cynigiodd yr adolygiad sawl argymhelliad i Gymru eu hystyried, gan gynnwys:
- Datblygu ymhellach y bartneriaeth rhwng y Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn argymhell gosod 'gofynion mwy cyfarwyddol ar y Byrddau Iechyd a sut y disgwylir iddynt gyfrannu at dwf GIG Cymru'
 - datblygu Cynllun Gweithredu i wireddu uchelgeisiau'r agenda Gofal Iechyd Darbodus
 - rhoi 'modelau darparu a threfnu gofal ar gyfer gofal sylfaenol'¹⁵ ar waith er mwyn cymell arloesi a dulliau newydd o weithio.

¹² [OECD Reviews of Health Care Quality: United Kingdom 2016: Raising Standards](#)

¹³ Ibid. t.232.

¹⁴ Ibid. t.233.

¹⁵ Ibid. t.233.

Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

- 4.5 Casgliad yr Adroddiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru¹⁶ oedd 'nad yw patrwm presennol y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn addas ar gyfer y dyfodol'¹⁷. Roedd yn galw am 'system wahanol o ofal' â gweledigaeth yn seiliedig ar system o ddarpariaeth iechyd a gofal di-dor sy'n 'grymuso unigolion i wneud penderfyniadau, yn teilwra gofal at yr anghenion a'r dewisiadau y mae'r unigolyn wedi eu mynegi, yn llawer mwy rhagweithiol ac ataliol, ac yn cael ei ddarparu mor agos â phosibl at gartrefi pobl, yn ddi-dor ac o'r ansawdd uchaf'¹⁸.
- 4.6 Roedd yr adolygiad yn argymhell y dylai'r weledigaeth ar gyfer y sector iechyd a gofal fod yn seiliedig ar bedwar amcan cydategol, sef y **Nod Pedwarplyg**. Disgrifiwyd y rhain fel a ganlyn:
- gwella iechyd a llesiant y boblogaeth trwy roi ffocws ar atal
 - gwella'r profiad gofal i unigolion a theuluoedd, yn ogystal ag ansawdd y gofal
 - cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, a
 - chynyddu'r gwerth a gyflawnir gyda chyllid iechyd a gofal, trwy welliant, arloesi, defnyddio arferion gorau, a chael gwared ar wastraff.
- 4.7 Cynigiodd yr adolygiad gyfres o argymhellion i gyflawni'r weledigaeth hon. Roedd un o'r rhain (argymhelliad 3) yn cynnig datblygu 'modelau gofal di-dor newydd a dewr' a'r angen am i 'weithgarwch i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso gyflymu'n fuan: gofal di-dor yn agos at y cartref mewn ardaloedd lleol; gwelliant rhagweithiol yn iechyd a llesiant y boblogaeth; a chyfeiriad newydd i ofal arbenigol'.
- 4.8 Paratôdd yr argymhelliad hwn y ffordd ar gyfer y CD, o ran bod yr adolygiad wedi clustnodi'r angen am '[d]ylunio a datblygu modelau gofal newydd ar y cyd â'r cyhoedd a defnyddwyr gofal, ochr yn ochr â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol llinell flaen.' Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriodd yr adolygiad, roedd yr adroddiad yn cydnabod hefyd bod modelau newydd o ofal eisoes yn dod i'r amlwg ar draws Cymru ac y dylai fod yna ffocws ar 'annog y rhain i ledaenu ledled y wlad'¹⁹. Roedd yn galw am 'raglen genedlaethol o drawsnewid' a fyddai'n cael ei lywio gan safonau cenedlaethol ac egwyddorion dylunio cyffredin.

¹⁶ Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Chwyldro o'r Tu Fewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru. Adroddiad Terfynol Ionawr 2018.

¹⁷ Ibid. t.4.

¹⁸ Ibid. t.6.

¹⁹ Ibid. t.13.

- 4.9 O dan argymhelliad 3, pennwyd nifer o gamau ategol yr oedd yn disgwyl eu cyflawni. Roedd y rhain yn cynnwys:
- datblygu egwyddorion dylunio cenedlaethol a fyddai'n sylfaen i'r modelau gofal newydd ac yn cael eu cymhwyso ar draws y system ddi-dor o iechyd, gofal a llesiant i gyd
 - buddsoddiad, trwy CD, er mwyn i'r BPRh 'ddatblygu a gweithredu model leol ddi-dor sylweddol mewn dwy ardal leol newydd yn eu rhanbarth, o leiaf'²⁰
 - adeiladu ar yr arferion effeithiol sydd eisoes yn bodoli, fel y clystyrau gofal sylfaenol
 - gweithredu ar draws ardaloedd blaenoriaeth, fel gofal a chymorth di-dor yn lleol i blant a phobl ifanc, a lleihau tlodi ac anghydraddoldeb i blant.

Cymru Iachach

- 4.10 Mae'r cynllun hwn²¹, y bwriedir iddo ymateb i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, yn pennu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cynllun yn seiliedig ar athroniaeth **Gofal Iechyd Darbodus** yn ogystal ag amcanion atal salwch, cynorthwyo pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, a galluogi pobl i fyw'n annibynnol am gyhyd â phosibl. Mae'n pennu gweledigaeth lle 'dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach, a medru parhau i gadw'n brysur a bod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosib'²². Mae'n gosod ffocws ar 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' a fydd yn 'deg', yn 'ddi-dor ac sy'n cael ei darparu mor agos â phosibl at y cartref'²³. Mae'n pwysleisio symud adnoddau i'r gymuned fel y bydd pobl yn defnyddio gofal ysbyty dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol. Mae'n gosod pwyslais ar lesiant, atal ac ymyrryd yn gynnar gan ddefnyddio technoleg lle bo hynny'n briodol i greu gwasanaeth mwy effeithiol, effeithlon, teg a chynaliadwy.
- 4.11 Yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd y Nod Pedwarplyg a bennwyd yn yr Adolygiad Seneddol, mae'r cynllun yn pennu deg Egwyddor Cynllunio a fyddai'n helpu i wireddu'r athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus. Amlinellir y rhain yn Ffigur 4.1:

²⁰ Ibid. t.17.

²¹ [Llywodraeth Cymru \(2018\) Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.](#)

²² Ibid. t.4.

²³ Ibid. t.4

Ffigur 4.1: Deg Egwyddor Cynllunio 'Cymru Iachach'

• Atal ac ymyrryd yn fuan • Diogelu • Annibyniaeth • Llais • Personol	• Di-dor • Gwerth uwch • Seiliedig ar dystiolaeth • Datblygu • Trawsnewid
---	---

4.12 Mae Cymru Iachach yn disgrifio cynllun Llywodraeth Cymru i wireddu argymhelliad yr Adolygiad Seneddol i ddatblygu a gweithredu modelau newydd o ofal di-dor. Mae'n clustnodi'r BPRh fel y prif ysgogwyr ac yn disgwyl i bob BPRh 'nodi a hyrwyddo o leiaf dau fodel o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol di-dor, yn unol â'r Nod Pedwarplyg a'r Egwyddorion Cynllunio'²⁴.

4.13 Mae CI yn disgrifio cynlluniau Llywodraeth Cymru i greu **Rhaglen Drawsnewid** genedlaethol hefyd, sy'n cynnwys Cronfa Drawsnewid benodedig gwerth £100m. Mae'r cynllun yn cydnabod, er bod 'y Gronfa'n fuddsoddiad sylweddol... mae'n fach yng nghyd-destun cyllid iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol. O ganlyniad rhaid ei thargedu i brosiectau sy'n cael blaenoriaeth a modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r nod o gyflymu'r gwaith o'u datblygu ac arddangos eu gwerth'. Mae'n cadarnhau hefyd y dylai'r gronfa ganolbwyntio ar 'fodelau sy'n gwneud cynnydd cynnar ar... cysoni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor; darparu iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol a sylfaenol yn lleol; a gwasanaethau a gweithgareddau atal integredig newydd'²⁵.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

4.14 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014²⁶ yn pennu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer y sector gwasanaethau cymdeithasol trwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i weithio er mwyn hyrwyddo llesiant unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth. Pennodd y Ddeddf bedair egwyddor allweddol o gylch:

- cynorthwyo pobl ag anghenion gofal a chymorth i gyflawni llesiant
- gosod pobl wrth galon y system newydd trwy roi llais cyfartal iddynt o ran y cymorth y maent yn ei gael

²⁴ Ibid. t.20.

²⁵ Ibid. t.21-22.

²⁶ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- sicrhau bod partneriaeth a chydweithrediad yn gyrru darpariaeth gwasanaethau
- hyrwyddo atal anghenion rhag datblygu a sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir.

4.15 Pennodd y Ddeddf newidiadau sylweddol yn y ffordd y dylid cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau cymdeithasol â mwy o bwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar, cyflawni gwaith aml-asiantaeth a rhoi mwy o gysylltiad a llais i ddinasyddion. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ar bartneriaethau awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gydweithio er mwyn asesu anghenion pobl yn eu rhanbarth o ran gofal a chymorth, a blaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â grwpiau penodol, fel pobl hŷn ag anghenion cymhleth ac anhwylderau hirdymor, a phobl ag anableddau dysgu. Mae'n gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol sy'n cynnwys pobl sydd angen gofal a chymorth hefyd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

4.16 Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015²⁷ ddeddfwriaeth sy'n mynnu bod cyrff cyhoeddus, gan gynnwys byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, yn mabwysiadu saith nod llesiant hirdymor i ddiogelu:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gadarn
- Cymru iachach
- Cymru fwy cydradd
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant byw lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Cymru gyfrifol fyd-eang.

4.17 Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod egwyddorion datblygu cynaliadwy a thryloywder wrth galon gwaith cyrff cyhoeddus. Sefydlodd y Ddeddf Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru, a fyddai'n cynnwys aelodau o awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac eraill.

²⁷ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Y Theori Newid

Adborth o'r cyfweiliadau strategol

- 4.18 Y gred oedd bod **prif ysgogwyr** dros sefydlu'r Gronfa Drawsnewid yn cynnwys:
- yr angen dybryd i fynd i'r afael â'r argyfwng parhaus sy'n wynebu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng ngoleuni'r galw cynyddol
 - yr angen am ffrwd cyllid ar gyfer 'arian iro' er mwyn darparu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer sefydliadau i'w galluogi i drawsnewid eu gwasanaeth, a hynny mewn amgylchedd o bwysau a diffyg ariannol
 - y byddai'n bosibl ac yn realistaidd i'r sector drawsnewid agweddau ar y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol, ac y gallai'r trawsnewid yma ddigwydd o'r tu fewn allan
 - a'r angen am fuddsoddi adnoddau cyfunol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol fel cyfrwng i sbarduno newid.
- 4.19 Awgrymodd y rhanddeiliaid a fu'n rhan o'r gwaith o ddylunio'r CD ei bod yn mabwysiadu'r rhan fwyaf o'r syniadau a'r argymhellion a gyflwynwyd yn Adolygiad OECD, yr Adolygiad Seneddol a Chymru Iachach. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y materion canlynol:
- bod yr Adolygiad Seneddol yn disgwyl i'r newidiadau trawsnewidiol gael eu harwain ar lefel genedlaethol, o ran bod disgwyl i nifer fechan o brosiectau gael eu clustnodi a'u pennu ar lefel genedlaethol yn hytrach na lefel ranbarthol fel yr oedd wedi bod yn digwydd
 - bod Adolygiad yr OECD wedi amlygu'r ffaith fod yna ddiffyg sgiliau a chapasiti ar gyfer newid trawsnewidiol ar draws y rhanbarthau, ac nad oedd dyluniad y CD wedi cymryd hynny i ystyriaeth lawn
 - bod angen mwy o gynllunio o'r bron ar lefel genedlaethol er mwyn canfod beth fyddai cyflawniadau disgwyledig y CD cyn rhyddhau'r cyllid i'r BPRh.
- 4.20 Yng ngoleuni'r materion hyn, roedd yna lai o gonsensws ynghylch beth y gellid **disgwyl ei gyflawni** trwy'r CD, a hynny i raddau helaeth am fod y rhanddeiliaid yn meddwl y bu diffyg cynllunio a dylunio o'r bron i droi'r nodau a'r amcanion lefel uwch a bennwyd yn Cymru Iachach yn rhaglen weithredol. Er hyn, roedd llawer o'r rhanddeiliaid yn dehongli cylch gorchwyl y CD fel un sydd am ddatblygu modelau newydd o weithio a fyddai'n canolbwyntio ar daclo rhai o'r materion sylfaenol sy'n bodoli ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

- 4.21 Cododd y rhanddeiliaid ambell i gwestiwn am ba mor gadarn oedd y **dystiolaeth** oedd yna i brofi y gallai'r cysyniad o CD weithio, naill ai yng Nghymru neu mewn rhannau eraill o'r byd. Hawliwyd nad oedd y rhaglen wedi cael ei llywio'n ddigonol gan dystiolaeth gadarn y gallai 'darparu arian iro ar gyfer modelau arloesol o weithio' drawsnewid gwasanaethau ar draws y sectorau iechyd a gofal.
- 4.22 Roedd y rhanddeiliaid yn unfryd taw'r prawf eithaf o **lwyddiant** y CD fydd a gaiff y gwasanaethau neu'r dulliau cyfredol o weithio eu dileu a/neu eu disodli â'r modern newydd a ariennir. Mewn geiriau eraill, dylai fod yna dystiolaeth glir bod gwasanaethau neu ddulliau cyfredol o weithredu wedi dod i ben neu wedi cael eu dileu. Prawf arall o lwyddiant fydd os ceir nad yw'r modelau newydd yn gweithio yn ystod y cyfnodau peilot, bod y wybodaeth yma'n cael ei rhannu ar draws y sector. Ni fydd y CD yn llwyddo os yw'r modelau newydd o weithio'n cael eu 'bolli ymlaen' neu eu 'hychwanegu' at y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, gan wneud dim ond ehangu gwasanaethau neu ychwanegu at y cymhlethdod sy'n bodoli eisoes.
- 4.23 Ystyrir bod nodwedd arall o lwyddiant yn ymwneud â datblygu modelau llwyddiannus, er nad oes y rhanddeiliaid o reidrwydd yn teimlo bod angen cyflawni hyn o fewn y cylch ariannu cyfredol. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, un prawf o lwyddiant fyddai cyflwyno'r modelau'n effeithiol mewn rhanbarthau eraill.
- 4.24 Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno hefyd bod amcanion y CD yn uchelgeisiol o ystyried, er bod y cyllid a ddyrannwyd yn sylweddol, ei bod yn cynrychioli cwta cyfran fechan o'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol gyffredinol yng Nghymru. Roedd yna deimlad ei bod yn uchelgeisiol hefyd yng ngoleuni'r amserlenni tynn a bennwyd ar gyfer cyflawni, a chodwyd nodyn o rybudd ynghylch yr angen am fod yn realistaidd o ran yr hyn y gellid disgwyl ei gyflawni mewn cyfnod o ddwy flynedd.
- 4.25 Er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y CD, awgrymodd y rhanddeiliaid y dylem fod yn gallu arsylwi ar nifer fechan o fodelau newydd â hunaniaethau clir yn cael eu harbrofi ar draws rhanbarthau'r BPRh nawr. Y gwir amdani yw bod y rhanddeiliaid yn credu bod y CD wedi cael ei defnyddio i gynorthwyo llawer yn fwy o brosiectau na'r hyn a argymhellodd yr Adolygiad Seneddol ac a bennwyd yn Cymru Iachach.
- 4.26 Yn nhermau **deiliannau tymor byr a chanolig** y CD, roedd y rhanddeiliaid yn credu, ar y lefel fwyaf sylfaenol, y byddai'n realistaidd disgwyl i'r rhaglen fod â nifer o fodelau gwahanol ac arloesol a fyddai'n gallu dangos y gwahaniaeth y maent wedi ei gyflawni. Byddai gan y

dulliau yma o weithredu hunaniaeth glir, brand cadarn a naratif darbwyllol fel y gallent gael eu mabwysiadu mewn mannau eraill.

- 4.27 Yn ogystal, roedd y rhanddeiliaid yn credu y dylai prosiectau CD fod yn cael effaith gadarnhaol ar ddangosyddion 'mawr' fel lleihau derbyniadau i ysbytai, y galw sydd yna am wasanaethau damweiniau a brys ac amserau aros am ambiwlansys. Yn gyffredinol, awgrymwyd bod yna lai o ddangosyddion cymaradwy i fesur yr effaith y gallai prosiectau CD ei chael ar ddulliau o weithredu sy'n seiliedig ar gymunedau.
- 4.28 Ymhlith y **rhagdybiaethau** sylfaenol allweddol neu'r egwyddorion arweiniol a wnaed wrth ddylunio'r CD roedd:
- Bod argaeledd cyllid 'wedi'i glustnodi' yn darparu'r adnoddau a'r amodau angenrheidiol i BPRh arbrofi â dulliau newydd o weithio, na fyddai wedi bod yn bosibl pe bai'r cyllid wedi cael ei ryddhau yn rhan o setliadau ariannu blyneddol ar gyfer byrddau iechyd ac awdurdodau lleol
 - na fyddai sefydliadau iechyd a gofal yn gweld y cyllid fel elfen arall o'u cyllidebau craidd ac yn ei ddefnyddio felly
 - ei bod hi'n bosibl profi effeithiolrwydd modelau newydd dros gyfnod cymharol fyr o amser
 - y dylai'r modelau fod yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sydd wedi gweithio mewn mannau eraill.
- 4.29 Ystyrir bod y prif **ffactorau allanol** a allai effeithio ar lwyddiant y CD yn cynnwys:
- y gweithlu: gallai materion o ran capasiti ac ag arbenigedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol olygu nad yw prosiectau'n gallu recriwtio a chynnal yr holl staff, ac y gallai recriwtio o blith y gweithlu presennol gael effaith ganlyniadol ar wasanaethau'r brif ffrwd
 - amserlenni: mae'r cyllid ar gael am gyfnod cymharol fyr ac felly rhaid i raddfa'r trawsnewid fod yn realistaidd
 - y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol: gallai cynnydd yn y galw, fel yr hyn a welir o ganlyniad i bwysau'r gaeaf neu'r hyn a ragwelir o ganlyniad i ledaeniad pellach y coronafeirws, effeithio ar gyflawniad prosiectau'r CD.

Model Rhesymeg y Theori Newid

- 4.30 Mae Ffigur 4.2 yn dangos model rhesymeg ar gyfer y CD er mwyn ddarlunio'r Theori Newid a beth y disgwylir iddo'i gyflawni. Mae'n clustnodi'r deilliannau y bwriadwyd eu cyflawni a'r gweithgareddau a fyddai'n eu cynhyrchu. Mae'n dangos y mewnbwn y bwriadwyd eu rhoi ar waith er mwyn sbarduno newid hefyd.

Ffigur 4.2: Model Rhesymeg Theori Newid y Gronfa Drawsnewid

<i>Mewnbwn</i>	<i>Gweithgaredd</i>	<i>Allbwn</i>	<i>Deilliannau Tymor Canol</i>	<i>Deilliannau Cyffredinol</i>
Ymgrych genedlaethol uchelgeisiol am bolisi a chynllun i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Ysgogwyr Newid Cenedlaethol: • Y Nod Pedwarplyg • Yr Egwyddorion Cynllunio • Gofal Iechyd Darbodus • Cenedlaethau'r Dyfodol Strwythurau a dulliau blaenorol y Byrddau Partneriaeth Ranbarthol e.e. darpariaethau ICF Cyllid arian iro, wedi i neilltuo a'i Gronni dan gyfyngiadau amser (£100m) Tystiolaeth am beth sy'n gweithio mewn mannau eraill	Nifer gyfyngedig o fodelau gofal newydd wedi eu cynllunio ar y cyd gan y sector cyhoeddus ac iechyd/gofal Ymgeisio a chymeradwyo prosiectau peilot arloesol a thrawsnewidiol Recriwtio ac ymestyn y gweithlu iechyd/gofal Cyflwyno a chyflawni dulliau newydd o weithio sy'n canolbwyntio ar integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol Monitro a gwerthuso llwyddiant modelau peilot	Profi a chyflawni modelau rhanbarthol gwladwy ac arloesol Datblygu ac ehangu modelau ar gyflymdra cynt nag yn nifyg y cyllid Tystiolaeth gadarn am ba modelau sy'n gweithio (a pha rai sydd ddim) a'r gwahaniaeth a wnaed Clustnodi modelau y gellir eu cynnal a'u datblygu yn y dyfodol	Parhau â modelau effeithiol y CD ar ôl i'r cyllid ddod i ben Modelau'r CD yn cymryd lle dulliau cyfredol sydd wedi darford ac yn creu buddion o ran darbodaeth Datblygu a mabwysiadu modelau effeithiol y CD yn ehangach, gan gynnwys ar draws rhanbarthau eraill	Unigolion Unigolion yn cyrchu gwasanaethau iechyd a gofal iechyd a gofal teg a di-dor Unigolion yn byw bywydau hir, iach a hapus Unigolion yn byw'n annibynnol am gyhyd â phosibl ac yn cyrchu gwasanaethau mor agos â phosibl at eu cartrefi Unigolion mwy grymus yn cymryd dull rhagweithiol ac ataliol at iechyd a gofal Gwasanaethau Newid mewn diwylliant ar draws y gweithlu iechyd a gofal er mwyn creu dull system-gyfan o weithredu Effaith gadarnhaol ar y dangosyddion perfformiad allweddol ar draws iechyd a gofal Gwell aliniad ac integreiddiad rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Mwy o focws ar adnoddau cymunedol, atal, les ac ymyrraeth gynnar, gan ddarparu gwasanaethau mor agos â phosibl at adref
Ffactorau Allanol • Capasiti a set sgiliau cyfyngedig ar draws y gweithlu iechyd a gofal yn cyfyngu ar recriwtio a chadw staff • Cyfnod cyflawni cyfyngedig o ran amser • Ansicrwydd ynghylch y twf yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol • Cyfyngiadau a diffygion ariannol ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol				

- 4.31 Mae hi'n werth nodi nad oes unrhyw ddangosyddion na thargedau penodol wedi cael eu pennu ar gyfer y CD, ac felly mae natur yr allbynnau a gyflwynir yn Ffigur 4.2 yn ymwneud ag arbrofi a chyflawni'r prosiectau a ariennir. Mae hi'n werth nodi hefyd bod yr allbynnau cyffredinol (a bennwyd ar gyfer unigolion a'r gwasanaeth yn gyffredinol) yn eang ac yn strategol iawn o ran eu natur o ystyried bod amcanion cyffredinol y CD yn ymwneud â chyflawni newid mewn systemau. Mae pob prosiect a ariennir wedi datblygu model rhesymeg Theori Newid lefel prosiect sy'n pennu'r allbynnau a'r deilliannau disgwylidig ar gyfer eu modelau - byddai'r rhain yn darparu rhyw fesur meintiol o'r effeithiau disgwylidig ar y dangosyddion perfformiad allweddol ar draws y gwasanaeth iechyd a gofal.

- 4.32 Fel y mae Ffigur 4.2 yn ei ddangos, mae'r mewnbwn yn cyfeirio at y cyd-destun polisi a'r cynlluniau cenedlaethol y datblygwyd y CD oddi mewn iddynt a ddylai, yn ein barn ni, ddylanwadu'n sylweddol ar natur y prosiectau peilot a ddatblygir ac a ariennir.

Ystyriaethau i grynhoi

- 4.33 Mae adolygiad o'r cyd-destun polisi'n awgrymu bod y weledigaeth a'r uchelgais i drawsnewid y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â'r materion allweddol o gylch y ffaith fod yn galw'n cynyddu ac integreiddio gwasanaethau, wedi bodoli ers amser. Cychwynnwyd Cymru Iachach a'r CD i fynd i'r afael â'r materion hyn yn sgil dau adolygiad allweddol o'r sector, a gyflawnwyd gan yr OECD a'r Adolygiad Seneddol. Mae'r CD wedi cael ei datblygu o fewn cyd-destun polisi cydategol iawn ac mae'r angen am ymyrraeth yn glir. Egwyddorion gweithredu clir, gan gynnwys y rhai a bennwyd yn y Nod Pedwarplyg, y deg Egwyddor Cynllunio, Gofal Iechyd Darbodus, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi llywio dyluniad y gronfa.
- 4.34 Fodd bynnag, materion oedd yn ymwneud â dyluniad y CD oedd y prif faterion a gododd o'r adolygiad desg a'r cyfweiliadau ag unigolion, yn nhermau:
- bod Adolygiad OECD yn gosod mwy o bwyslais ar ddull mwy cyfarwyddol cenedlaethol o weithio nag a welwyd o fewn y CD mewn gwirionedd
 - argymhellodd yr Adolygiad Seneddol a Chymru Iachach y dylai nifer y modelau newydd i'w rhoi ar waith fod yn is na'r nifer a gefnogir gan y CD.

5. Y dyluniad a'r rhesymeg

- 5.1 Mae'r adran hon yn amlinellu safbwyntiau rhanddeiliaid ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, a'r dystiolaeth a gasglwyd o adroddiadau gwerthuso rhanbarthol y BPRh yn nhermau'r nodau a'r amcanion a fwriadwyd gan y Gronfa Drawsnewid (CD); sut mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn strategol; dyluniad y gronfa a'r rhesymeg sydd y tu ôl iddi. Mae'r adran hon yn ystyried sut mae'r CD yn cyd-fynd â ffrydiau ariannu eraill hefyd.

Nodau ac amcanion

- 5.2 Ymateb a gafwyd yn gyson gan yr ymatebwyr wrth ofyn iddynt ddisgrifio nodau'r CD oedd taw mater o 'arloesi' oedd hi a'i bwriad oedd creu 'momentwm' i gyflawni'r weledigaeth a amlinellwyd yn Cymru Iachach. Disgrifiodd llawer o'r ymatebwyr sut roedd y CD yn wahanol i ffrydiau ariannu eraill ac yn caniatáu i BPRh 'gymryd risgiau ac ariannu dulliau arloesol.' Disgrifiwyd y gronfa fel ffordd o 'agor drws y system i gyd' a sbarduno newid hirdymor a thrawsnewidiad y maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- 5.3 Soniodd un ymatebwr fod y sefydliadau o dan sylw, sef byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn bennaf, o ran eu natur yn aml yn gyndyn i fentro, ac y gallai cronfa fel y CD 'lleddfu rhywfaint o'r pwysau' felly. Soniodd ymatebwr arall sut y mae naratif Llywodraeth Cymru'n wahanol wrth drafod y CD o gymharu â chynlluniau eraill hefyd, gyda ffocws cyson ar drawsnewid gwasanaethau hyn hytrach nag ehangu'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes neu lenwi'r bylchau.

Polisi ac addasrwydd strategol

- 5.4 I bob pwrpas, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi cysyniad y CD ac yn teimlo bod yna lwybr polisi clir iawn yn arwain at y CD a oedd yn cynnwys yr Adolygiad Seneddol a'r weledigaeth 'Cymru Iachach' (CI) wedyn, oedd oll yn pwyntio i gyfeiriad yr angen am system iechyd a gofal di-dor. Ystyriwyd bod y prosiectau arfaethedig yn alinio'n dda â'r Nod Pedwarplyg a'r Egwyddorion Dylunio a amlinellwyd yn Cymru Iachach ar y cyfan. Clustnodwyd Gofal Iechyd Darbodus hefyd fel un o egwyddorion craidd y prosiectau a ariennir gan y CD gydag ymyraethau'n gosod ansawdd a diogelwch cleifion wrth galon y cysyniadau. Roedd ymatebwyr o'r BPRh yn credu bod eu prosiectau wedi cael eu dylunio'n benodol i fynd i'r afael ag amcanion CI wrth ddarparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i'r BPRh daclo'r materion sy'n eu hwynebu ar lefel ranbarthol.

5.5 Soniodd sawl adroddiad gwerthuso rhanbarthol am **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)** gan gydnabod y ffaith fod yna orgyffwrdd rhwng nodau'r CD a nodau allweddol y Ddeddf yn nhermau:

- hybu llesiant trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
- cynorthwyo a galluogi pobl i wneud eu dewisiadau eu hunain ac i fod yn fwy annibynnol
- rhoi llais i bobl a'u galluogi i reoli beth maent yn ei ddymuno ac i fynegi'r deilliannau y maent am eu cael eu hunain
- dod o hyd i wahanol ffyrdd o gynorthwyo pobl sy'n cynnwys cymunedau lleol a'r trydydd sector.

5.6 Yn nhermau'r cyd-destun deddfwriaethol, tynnodd sawl BPRh sylw at **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)** yn eu hadroddiadau gwerthuso rhanbarthol, gyda'r prosiectau'n anelu at gysondeb â'u nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio. Yn benodol, roedd cydweithio'n agosach â phobl a chymunedau; atal problemau parhaus ac ystyried effeithiau tymor hwy penderfyniadau yn ffactorau cyson o fewn y prosiectau a ariannwyd.

5.7 Roedd yr adroddiadau gwerthuso rhanbarthol hefyd yn disgrifio rhai o'r materion sylfaenol yr oedd angen iddynt ddelio â nhw o glych y galw am iechyd a gofal cymdeithasol a delio â phoblogaeth sy'n heneiddio. Ymhlith y materion yr oedd prosiectau CD yn mynd i'r afael â nhw roedd:

- sefydlu a gweithredu atebion gofal hygyrch yn y gymuned i leihau'r galw sydd ar wasanaethau iechyd a gofal statudol
- ail-gyflunio modelau cyfredol o ddarparu gwasanaethu neu arbrofi â modelau newydd er mwyn integreiddio gwasanaethau'n well
- creu llwybrau cliriach i gyrchu gwasanaethau iechyd a gofal.

5.8 Amlinellir rhai o'r esiamplau o gysylltiadau â blaenoriaethau polisi mwy lleol a rhanbarthol a wnaed gan y BPRh yn eu hadroddiadau gwerthuso rhanbarthol isod:

Yn **BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg**, dywedir bod y polisiâu a'r strategaethau canlynol wedi cyflunio dyluniad y prosiectau:

- Mae Cynllun Anghenion Gofal a Chymorth Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-23 yn pennu'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r cynllun gweithredu cysylltiedig ar gyfer y pum mlynedd nesaf er mwyn diwallu'r anghenion a glustnodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth
- Strategaeth deng mlynedd BIP Caerdydd a Bro Morgannwg, Llunio ein Strategaeth Lles y Dyfodol, a luniwyd i gyd-fynd â CI
- Cymerwyd Cynllun Llesiant Caerdydd a Chynllun Llesiant Bro Morgannwg i ystyriaeth hefyd.

Roedd cydran Pen-y-bont ar Ogwr o gynnig **BPRh Cwm Taf Morgannwg** yn dangos sut yr oedd yr asesiad o anghenion y boblogaeth wedi clustnodi angen i ganolbwyntio ar atal afiechyd trwy gynorthwyo darpariaeth gofal iechyd yn y gymuned a thrwy ddarparu gofal cymdeithasol gartref lle bynnag y bo modd, ac yn enwedig i'r rhai ag anhwylderau hirdymor.

Mae'r prosiectau'n cysylltu hefyd â'r Cynllun Heneiddio'n Dda ym Mhen-y-bont (2014-19) a'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (2013-19).

Yn **BPRh Gwent** mae'r prosiect [Gofal yn Seiliedig ar Le](#) yn dangos sut y mae'r CD yn hwyluso darpariaeth y Model Gofal Sylfaenol Cenedlaethol yn lleol, gan ategu dulliau system gyfan o weithredu mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol yn seiliedig ar le.

Mae'r Model [ICEBERG](#) yn canolbwyntio'n drwm ar atal a gwella llesiant yn hytrach na thrin pobl ar bwynt argyfwng, ac yn hynny o beth mae'n ymgorffori fframwaith polisi cynharach LICC dros lechyd meddwl, sef 'Busnes Pawb', ac yn adlewyrchu rhai o'r dyheadau gweithredol a bennwyd yn adroddiad 'Cadernid Meddwl' y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn rhan o gyfres prosiectau **BPRh Gogledd Cymru**:

- Gwelir y prosiect [Gogledd Cymru Law yn Llaw: At Wasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu](#) fel cangen gweithredu Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru.

- Nod y prosiect [Law yn Llaw at Iechyd Meddwl](#) yw cyflawni yn erbyn y 6 deilliant a amlinellwyd yn y strategaeth genedlaethol dros iechyd meddwl 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' (2012) a'i gynllun cyflawni ar gyfer 2016-19.

Mae **BPRh Powys** yn dangos y cysylltiadau rhwng ei brosiectau a'r blaenoriaethau strategol ar gyfer y rhanbarth. Er enghraifft:

- Mae'r prosiect [Plant sy'n Derbyn Gofal yn eu Cynefin](#) yn cysylltu â'i Fframwaith Strategol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
- Mae elfennau Plant yn Gyntaf y ffrwd gwaith [Gwaith Atal wedi ei Dargedu i Hybu Talebau Cychwyn Iach](#) yn cysylltu'n uniongyrchol â chynllun Ysgolion Iach a Chyn-ysgol Iach Llywodraeth Cymru.

Yn **BPRh Gorllewin Morgannwg** mae polisïau rhanbarthol wedi dylanwadu ar [Ddull System-gyfan o Weithredu fel Clwstwr](#), gan gynnwys Cynlluniau Llesiant Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, a gwahanol strategaethau a chynlluniau BIP Bae Abertawe gan gynnwys 'Yr uchelgais strategol sefydliadol Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell'; Strategaeth Sylfaenol a Chymunedol 2017-22 a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol.

Gwneir cysylltiadau clir o fewn **BPRh Gorllewin Cymru** rhwng y blaenoriaethau lleol a rhanbarthol a'r prosiectau a gynorthwyir gan y CD.

Bwriedir i'r prosiectau ddatblygu'r ymrwymadau lefel uchel a bennir yng Nghynllun Ardal y BPRh ar gyfer 2018 'Cyflawni Newid gyda'n Gilydd' sy'n pennu gweithredoedd er budd llwybr o ofal a chymorth, a ffocws ar ddefnyddio asedau cymunedol er mwyn helpu pobl i aros yn annibynnol ac yn fwy iach am yn hirach. Mae'r BPRh wedi cydweithio'n agos hefyd â'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn ei ardal ac wedi ymgynghori â BIP Hywel Dda trwy ei raglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol a'i weledigaeth strategol.

Er enghraifft, ategir y prosiect [Gofal Rhagweithiol gyda Chymorth Technoleg](#) gan y Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad a luniodd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ar gyfer gwasanaethau Pobl Hŷn.

Dyluniad y Rhaglen

- 5.9 Roedd safbwyntiau'r ymatebwyr o ran i ba raddau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol wrth ddylunio a datblygu'r CD yn gymysg. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gadarn o'r farn bod y CD wedi cael ei chyflawni cyn i'r cysyniad gael ei ddatblygu'n llwyr: 'daeth y cyllid yn rhy fuan - daeth y buddsoddiad cyn bod y rhaglen wedi ei sefydlu'n iawn'. Roedd yna safbwynt, a gododd mewn sawl cyfweiliad, bod Llywodraeth Cymru wedi bod o dan bwysau i gael 'arian allan trwy'r drws a chychwyn gweithgareddau' ac nad oedd elfennau o'r CD wedi cael eu datblygu'n llwyr adeg lansio'r rhaglen a dyrannu'r gyfran gyntaf o'r cyllid.
- 5.10 Er bod rhai ymatebwyr wedi croesawu 'neges agored a chadarnhaol' cychwynnol y 'dull carte blanche' at y CD oedd yn rhoi'r hyblygrwydd i'r BPRh i ddatblygu prosiectau i ymateb i'w blaenoriaethau strategol. Yn wir, awgrymwyd bod y BPRh wedi croesawu'r dull yma o weithredu ar y cychwyn am ei fod wedi rhoi'r cyfle iddynt greu prosiectau oedd yn diwallu eu blaenoriaethau a'u hanghenion rhanbarthol. Fodd bynnag dadleuodd eraill nad oedd y BPRh mewn sefyllfa digon cadarn ar y pryd, gyda'r Cynlluniau Ardal yn dal i gael eu datblygu a'r blaenoriaethau strategol yn dal i fod yn aneglur mewn rhai rhanbarthau. Awgrymodd un o'r rhanddeiliaid y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi cyflawni mwy o waith dadansoddi o'r bron am sefyllfaoedd cyfredol a meysydd blaenoriaeth y rhanbarthau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sialensiau oedd yn eu hwynebu. Er y byddai hyn wedi golygu dull gweithredu ychydig bach yn fwy cyfarwyddol o ran y CD, gallai fod wedi creu lle i arloesi a dull llai 'bratiog' o weithredu. Ar y cyfan, byddai'r ymatebwyr wedi croesawu 'dull o weithredu â mwy o gyfeiriad' gan Lywodraeth Cymru gyda chanllawiau cenedlaethol mwy manwl a gafael cadarnach ar y modelau y dylai'r rhanbarthau fod yn eu mabwysiadu:
- 'dylai Llywodraeth Cymru fod wedi pennu model pendant... dylent fod wedi bod yn llywio rhaglen genedlaethol'.
- 5.11 Cwestiynodd rhanddeiliaid rhanbarthol eraill y rhesymeg oedd wrth wraidd y CD gan awgrymu nad oedd yna unrhyw dystiolaeth ddarbwyllol y byddai model o newid trawsnewidiol ag 'arian iro' yn gweithio. Roedd yna deimlad, er y gallai'r dull ganiatáu i'r rhanbarthau wneud pethau gwahanol tra bod y cyllid ar gael, bod y gweithgareddau'n annhebygol o fod yn gynaliadwy o ystyried y pwysau ariannol sy'n wynebu'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn hynny o beth, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai canolbwyntio'r cyllid ar fodelau mwy wedi bod yn fwy effeithiol wrth sbarduno trawsnewid go iawn.

- 5.12 Safbwynt cyson arall oedd, er bod y CD wedi cael ei dylunio fel cyfle trawsnewidiol, bod y prosesau gweinyddol wedi lleihau ei photensial i sbarduno newid:

'mae'r bwriad wedi cael ei wanhau gan y prosesau a fabwysiadodd Llywodraeth Cymru a'r rhanbarthau'.

Yn benodol, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod dull o hwyluso yn seiliedig ar 'reolaeth weithredol' yn hytrach na chyfarwyddyd penodol ar gyfer adrodd ar gynnydd wedi cael ei amlinellu ar y cychwyn ar gyfer y gronfa, ond bod hyn wedi newid i fod yn fwy nodweddiadol o ddulliau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoli prosiectau. Yn yr un modd, dywedodd un arall yn y cyfweiliad bod y CD wedi cychwyn fel rhaglen uchelgeisiol i sbarduno newid, ond taw 'gweithrediad [y rhaglen] oedd ei gwendid ac nid yw hi dim gwahanol i gyllid ICF a dweud y gwir yn onest'. Trafodir safbwyntiau ar weithrediad y rhaglen yn fwy manwl ym mhennod 6.

- 5.13 Roedd yr holl ymatebwyr ar lefel ranbarthol yn cytuno bod yr amserlenni wedi llesteirio'r effaith bosibl y gallai'r CD fod wedi ei chyflawni'n ddifrifol. Cododd yr ymatebwyr bryderon bod y CD wedi cael ei sefydlu i gyflawni deilliannau o fewn tymor y Llywodraeth gyfredol, a dadleuwyd nad yw trawsnewidiad ar y raddfa a fwriadwyd yn bosibl ac 'nad oedd hi byth yn realistaidd' i'r rhaglen gyflawni newid trawsnewidiol o fewn yr amserlen a roddwyd:

'Mae CD wedi arddel dull gweithredu byrdymor iawn, ac roedd hynny'n wir am ICF hefyd. Mae'r rhaglen wedi bod yn rhy uchelgeisiol ei hamcanion am y ffordd y mae hi wedi cael ei dylunio'.

- 5.14 Dadleuwyd hefyd fod gan yr holl brosiectau a ariannwyd yr un dyddiad cyflawni, er bod eu dyddiadau cymeradwyo wedi digwydd dros sawl mis, oedd yn golygu nad oedd gan yr holl brosiectau a ariannwyd dair blynedd llawn i gyflawni eu nodau. Cododd ymatebwyr o'r BPRh y pwynt yn gyson bod y math o drawsnewidiad sydd gan y rhaglen mewn golwg yn gofyn am newid ymddygiad dynol, nid dim ond systemau a phrosesau, ac y byddai hynny'n cymryd sawl blwyddyn. Roedd yna bryder hefyd y gallai natur fyrdymor y CD ddwyn goblygiadau anfwriadol o danseilio arloesi, am ei bod wedi annog y BPRh i fod yn ymatebol i'r cyllid a dewis y prosiectau 'rhwydd' neu'r rhai oedd yn 'gyw-brosiectau' ar gyfer unigolion brwdfrydig o fewn y byrddau iechyd neu'r awdurdodau lleol, yn hytrach na'r rhai oedd yn gyson â'r weledigaeth drosfwaol ar gyfer newid strategol tymor hwy.

- 5.15 Roedd sawl un o'r ymatebwyr yn gobeithio gweld estyniad i amserlen cyflawni'r CD, am fod yna bryderon gwirioneddol o fewn partneriaethau'r BPRh fod 'ymyl y dibyn' o ran cyllid o'u blaenau a oedd yn mynd i leihau'r effeithiau posibl y gallai prosiectau eu cyflawni.

Dyblygu neu ddisodli cyllid

- 5.16 Ar y cyfan, nid oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod yna lawer o dystiolaeth o ddyblygu neu ddisodli cyllid. Yn wir, roedd un o'r rhanddeiliaid yn cymeradwyo'r ffaith taw arian 'glân' oedd hyn nad oedd yn gysylltiedig â dyletswyddau statudol. Roedd hyn yn bwysig i'r awdurdodau lleol yn benodol am eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith fod arian o'r fath ar gael.
- 5.17 Disgrifiodd rhai o'r ymatebwyr sut roedd y CD yn cael ei defnyddio i gyflwyno cysyniadau oedd wedi cael eu datblygu eisoes gyda chymorth y Gronfa Gofal Integredig (ICF) (e.e. prosiect [Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol](#) BPRh Gogledd Cymru neu [Ddull Gweithredu Ein Cymdogaeth](#) BPRh Gorllewin Morgannwg) neu â chymorth y Gronfa Effeithlonrwydd Trwy Dechnoleg (ETTF) (e.e. y prosiect [Cydweithio dros Ofal yr Arennau](#)). Ystyriwyd bod hyn yn gyson â phwrpas y CD am fod y canllawiau'n dweud yn glir 'na all fod yn rhywbeth newydd sbon' ac y dylai'r prosiectau a ariennir adeiladu ar bethau sy'n bodoli eisoes.
- 5.18 Roedd rhanddeiliad arall yn croesawu'r CD gan ddweud sut roedd yn cael ei defnyddio i sbarduno agweddau ar eu gweledigaeth yn y rhanbarth yn gynt nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall. Croesawyd gallu'r CD i alluogi pethau i ddigwydd yn gynt. Dadleuwyd bod dyfarnu cyllid y CD yn dilyn proses o graffu ar gynlluniau ar lefel LIC yn arwydd cryf o gefnogaeth a oedd yn ychwanegu at hygrededd y BPRh a'u cynlluniau strategol oedd wrth wraidd hyn.
- 5.19 Soniodd sawl ymatebwr taw cylch gorchwyl y CD oedd caniatáu i atebion gael eu hystyried ar lefel ehangach o lawer ar draws sefydliadau'r bartneiraeth, yn hytrach na chymryd safbwynt plwyfol fesul sefydliad. Yn y BPRh hynny oedd ar gam aeddfetach yn eu datblygiad, bu trafodaeth ystyrlon am y ffordd orau o ddefnyddio'r arian, oedd yn rhywbeth i'w groesawu.
- 5.20 Soniodd sawl ymatebwr o'r BPRh taw'r gwir broblem oedd bod gormod o ffrydiau ariannu tebyg yn cael eu rhyddhau i'r BPRh. Soniodd un rhanddeiliad bod eu BPRh yn delio â chyfanswm o 14 o ffrydiau ariannu a'u bod yn teimlo eu bod nhw i gyd 'yn gweithredu mewn meysydd tebyg' ac felly'n gor-gymhlethu prosesau. Enwodd yr ymatebwyr nifer o ffrydiau ariannu gan gynnwys ICF, cyllid atal, cyllid iechyd Cyhoeddus Cymru, cyllideb pwysau'r gaeaf a'r gronfa iechyd meddwl. Soniwyd am gyllid craidd a'r GCR (ar gyfer awdurdodau

lleol) hefyd. Nododd yr ymatebwyr o'r BPRh y byddent yn croesawu gweld ffynonellau cyllid a'u prosesau cysylltiedig yn cael eu symleiddio. Fodd bynnag, roedd yna gydnabyddiaeth fod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ymarfer i fapio ei ffrydiau ariannu'n ddiweddar, oedd wedi cael ei rannu gyda'r BPRh. Yn hynny o beth, mae yna drafodaeth ar droed ynghylch ail-alinio ffrydiau ariannu.

- 5.21 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo bod i ffaith fod yna gynifer o ffynonellau cyllid yn golygu nad oedd yna 'ddull system gyfan' o weithredu, er bod yr egwyddorion ariannu ar gyfer llawer o'r cronfeydd yn debyg a'u bod yn cwmpasu agweddau fel integreiddio gwasanaethau a gwella cydweithio ar draws y sectorau iechyd a gofal. Roedd yna alwad cyffredinol am i Lywodraeth Cymru gronni cronfeydd neu gwtogi ar nifer y mentrau a phennu set gyffredin o amcanion i'r BPRh eu cyflawni ar draws y ffrydiau ariannu.
- 5.22 Soniodd ambell un o'r ymatebwyr am sut roedd y potiau niferus o gyllid yn creu problemau hefyd yn nhermau'r gallu i glustnodi'r effaith y gallai un pot penodol o gyllid ei chynhyrchu. Ildiodd ambell i ymatebwr o'r rhanbarthau, er nad yw CD am 'roi bathodyn newydd ar rywbeth rydyn ni'n ei wneud eisoes', bod yna elfen o hynny'n digwydd mewn gwirionedd oherwydd y pwysau ariannol.

6. Y model cyflawni a rheolaeth

- 6.1 Mae'r adran hon yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol am y broses gymhwyso a chymeradwyo, rheolaeth y prosiect a'r gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â'r CD, a'r modelau cyflawni y mae'r prosiectau a ariennir yn eu defnyddio.

Y broses ymgeisio ac asesu

- 6.2 Roedd gan yr ymatebwyr rhanbarthol safbwyntiau gwahanol iawn ar y broses ymgeisio. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau ar gyfer cyflwyno ceisiadau wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf a bod y broses ei hun yn 'rhwydd iawn... doedd hi ddim yn fanwl' a'i bod yn 'galonogol ac wedi ei gosod ar y lefel gywir'. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo y bu'r gwahoddiad gwreiddiol a'r canllawiau cysylltiedig oedd yn gofyn am ddogfennau cais byr yn 'annigonol', a bod hynny wedi golygu bod Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu mwy o ymholiadau am wybodaeth bellach: 'nid dalen lân oedd hi fel y cafodd ei chyflwyno'n wreiddiol, am y daeth Llywodraeth Cymru nôl atom i ofyn am bethau penodol'. Ond roedd rhai'n teimlo bod y canllawiau diwygiedig ar gyfer y cyfrannau o gyllid dilynol wedi mynd yn rhy bell i'r cyfeiriad arall. Fodd bynnag, roedd yna safbwyntiau cadarn hefyd bod y ffurflenni cais diwygiedig yn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r broses a chanfyddiadau'r gwerthusiad cynnar, a'u bod felly'n cynnwys gofynion mwy penodol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno o'r cychwyn cyntaf.
- 6.3 Byddai'r ymatebwyr wedi gwerthfawrogi cael mwy o amser i baratoi fel y gallai'r BPRh gyflwyno cais oedd yn ymateb yn well i amcanion CI felly 'yn hytrach na nifer o geisiadau bach digyswllt, y gallent fod wedi creu rhywbeth ehangach, mwy uchelgeisiol, creadigol..eofn!'. Oherwydd y prinder amser i baratoi ceisiadau, roedd yna deimlad hefyd, er bod rhai BPRh wedi cyflawni gwaith ymgysylltu ar gyfer eu hasesiadau o'r boblogaeth a'u cynlluniau ardal ar y cam yma er mwyn llywio eu blaenoriaethau, ar y cyfan roedd yna brinder tystiolaeth o gysylltiadau diffiniol a pherthnasol â defnyddwyr yn y ceisiadau i brofi bod y modelau a oedd yn cael eu cyflwyno'n cyson â'r hyn yr oedd ei angen ar gymunedau - roedd y dystiolaeth a drafodwyd yn dueddol o fod yn glinigol ei natur yn bennaf.
- 6.4 Roedd rhai'n dadlau bod yna deimlad o'r 'cyntaf i'r felin gaiff falu' i'r ffordd y cafodd y CD ei lansio a'i dyrannu, ac roedd yna deimlad nad oedd yr ymgeiswyr cynnar wedi gorfod mynd trwy'r felin yn yr un modd â'r rhai a gyflwynodd ceisiadau'n ddiweddarach. Dadleuwyd bod rhai elfennau o'r ceisiadau a gyflwynwyd yn ystod y cylch cyntaf 'yn teimlo fel mwy o'r un peth... ddim yn drawsnewidiol iawn', tra bod y rhai diweddarach wedi bod yn destun mwy o

herio a chraffu dyfnach, a'u bod yn fwy trawsnewidiol eu natur o ganlyniad. Roedd yr adborth yn awgrymu bod y rhai a oedd wedi cyflwyno eu ceisiadau'n hwyrach wedi ei chael hi'n anos o lawer cael cymeradwyaeth a'u bod yn teimlo 'bod y pyst wedi symud'. Roedd un ymatebwr yn teimlo taw'r wers i'w dysgu o'r profiad oedd 'ei bod hin well cyflwyno cais gwael yn gynnwys nac un da yn hwyr'.

- 6.5 Roedd sawl un o'r ymatebwyr a oedd wedi cyflwyno ceisiadau'n hwyrach yn teimlo bod y broses gymeradwyo ar ôl cyflwyno'r cais wedi bod yn hirach o lawer na'r ddelfryd - hyd at flwyddyn weithiau, ag ychydig iawn o gysylltiad gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod yna. Roedd hyn wedi achosi oedi cyn bod y BPRh yn gallu cychwyn ar bethau. Roedd y rhai oedd wedi cyflwyno ceisiadau aflwyddiannus yn aneglur ynghylch y rhesymau, a nodwyd nad oeddent wedi cael adborth gan Lywodraeth Cymru.
- 6.6 Nododd un BPRh y gofynnwyd iddo wneud newid sylweddol i brosiect yn ystod y broses ymgeisio, oedd yn golygu bod Llywodraeth Cymru wedi ei annog i'w gyflwyno ar draws holl ardaloedd clwstwr y rhanbarth yn hytrach na phrofi ac arbrofi â dull newydd o weithredu mewn un ardal. Cwestiynwyd y rhesymeg dros ofyn am newid o'r fath, am nad oeddent wedi cael digon o amser i 'brofi' a oedd y model yn gweithio ynteu a oedd angen unrhyw ddiwygiadau cyn ei ymestyn ar draws y rhanbarth.
- 6.7 Mynegodd ambell i BPRh siom fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu dyrannu'r £11m o gyllid y CD oedd yn weddill ar sail pro-rata gyda'r cylch cyntaf o ddyraniadau. Roedden nhw'n teimlo y byddai dyraniad yn seiliedig ar y boblogaeth wedi bod yn decach. Fodd bynnag, mae'r canllawiau ategol a ddarparwyd ar gyfer BPRh mewn perthynas â'r £11m na ddyrannwyd yn datgan y defnyddiwyd fformwla dyrannu oedd yn ystyried nifer o anghenion gofal iechyd a dangosyddion cymdeithasol-economaidd.

Rheoli'r prosiectau a'r gofynion monitro

- 6.8 Yn hollol gyferbyniol i rai o'r sylwadau a wnaed am ba mor ymatebol oedd Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod ymgeisio, roedd yr ymatebwyr rhanbarthol yn llawn canmoliaeth o'r swyddogion a'u dull o weithredu wrth reoli a monitro'r CD. Fe'u disgrifiwyd fel 'ymatebol iawn' a pharod i addasu i'r materion a godwyd. Dywedodd yr ymatebwyr yn gyson bod y dull yma'n 'galonogol' a'u bod yn croesawu'r ffaith fod tîm Llywodraeth Cymru wedi bod yn hygyrch ac yn agored yn eu cysylltiadau.
- 6.9 Roedd yna deimlad cyffredinol ymysg yr ymatebwyr rhanbarthol bod y gofynion adrodd a'r gwaith papur cysylltiedig ar gyfer CD wedi datblygu 'wrth fynd ymlaen'. O ganlyniad, roedd

gofynion newydd wedi codi, weithiau ar y funud olaf' ac ar y cyfan roedd nid oedd gan y BPRh y systemau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y gofynion hyn. Er enghraifft, roedd un BPRh wedi mynd allan i dendro ar gyfer gwerthusiad o un o'u prosiectau cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei gofynion gwerthuso. Roedd hynny'n golygu y bu angen i'r BPRh ddiwygio'r fanyleb ar ganol y broses gomisiynu. Er bod yr ymatebwyr eraill yn cytuno y dylai'r fanyleb gwerthuso fod wedi bod yn ei lle o'r cychwyn cyntaf ar gyfer yr agwedd ranbarthol, roedd yna deimlad cyffredinol bod ei chynnwys yn CD yn ddatblygiad cadarnhaol a chanmolwyd y ffaith fod y cwestiynau ymchwil wedi cael eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru a'r BPRh ar y cyd.

- 6.10 Roedd yr ymatebwyr yn derbyn bod angen monitro cyllid cyhoeddus, ond dadleuwyd bod lefel y manylder yr oedd ei hangen erbyn hyn yn 'sylweddol' ac yn 'ormodol', hyd yn oed yng ngoleuni'r symiau mawr o arian oedd o dan sylw. Roedd y pwyntiau penodol a godwyd yn cynnwys:
- ceisiadau am wybodaeth yn rhan o'r adroddiadau chwarterol nad yw'n gyson â'r hyn a nodwyd yn y llythyr cynnig grant mewn perthynas â'r cerrig milltir
 - ffurflenni monitro'n gofyn am wybodaeth a rannwyd â Llywodraeth Cymru eisoes ar ffurfiau eraill e.e. ar y gofrestr risg, mewn adroddiadau gwerthuso
 - mynnu defnyddio system goleuadau traffig Coch Ambr Gwyrdd (RAG) ar gyfer statws risg nad yw'n gyson â system RAG y BPRh ei hun
 - gofynion gwerthuso gor-feichus.
- 6.11 Fodd bynnag, codwyd y pwynt hefyd ei bod hi ond yn briodol bod gofyn i'r BPRh gyflwyno diweddariadau chwarterol manwl ar gynnydd a gwariant hyd yn hyn, am fod cronfeydd sylweddol yn cael eu dyrannu trwy'r CD, ac felly bod angen lefel briodol o graffu. Yn ogystal, dadleuwyd bod monitro cynnydd a gwariant wedi 'dwysáu' am nad oedd y gweithdrefnau monitro a gwerthuso a oedd yn amodau o'r grant wedi cael eu sefydlu mewn llawer o achosion.
- 6.12 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal cyfarfodydd atebolrwydd grant chwarterol ar gyfer pob prosiect a ariennir. Gofynnir i ddau gynrychiolydd o'r BPRh (yr arweinwyr trawsnewid a chyllid) ynghyd â'r arweinydd gwerthuso rhanbarthol fynychu'r cyfarfodydd, er bod mynychwyr eraill o'r BPRh yn mynd hefyd. Roedd un ymatebwr yn teimlo taw ychydig o werth ychwanegol yr oedd y cyfarfodydd hyn yn eu cynnig a bod y 'gofynion yn aruthrol' i'r BPRh. Er eu bod yn derbyn bod angen i'r BPRh adrodd mewn ffordd briodol a chael eu dal i gyfrif,

roedd yna deimlad bod y trefniadau cyfredol yn ormodol, a chroesawyd y trafodaethau oedd ar y gweill i symleiddio'r cyfarfodydd â'r BPRh. Safbwynt y byrddau iechyd oedd hyn yn benodol, oedd wedi sylwi bod eu cydweithwyr yn yr awdurdodau lleol yn fwy cyfarwydd â gofynion monitro o'r math yma. Yn gyferbyniol, roedd yna safbwynt hefyd bod y BPRh yn gyfrifol am symiau sylweddol o gyllid trwy'r CD a dylid disgwyl iddynt fod yn hollol ymatebol am gynydd mewn perthynas â chyflawniad a gwariant ill dau. Yn hynny o beth, dadleuwyd nad oedd y disgwyliadau dim gwahanol i gronfeydd eraill, a bod yna ddyletswydd i fod yn atebol.


- 6.13 Mynegodd yr ymatebwyr rhanbarthol rhywfaint o rwystredigaeth ynghylch y diffyg cysylltiad canfyddedig rhwng gwahanol adrannau'r tîm CD yn Llywodraeth Cymru: 'nid yw'n glir eu bod yn siarad â'i gilydd o reidrwydd'. Disgrifiodd un ymatebwr cael pedwar llythyr grant gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r CD: y prif gyllid; yr hyb ymchwil ac arloesi; capasiti data a chysylltiadau. Byddai un llythyr grant wedi bod yn well er mwyn lleihau'r baich gweinyddol a'r gofynion adrodd.
- 6.14 Gyda'r pwysau i gyflawni sy'n wynebu prosiectau CD o ran eu hamserlenni, cododd nifer o'r ymatebwyr yr angen am i Lywodraeth Cymru 'ymddiried' yn y BPRh a lleihau'r gofynion adrodd fel y gallent ganolbwyntio ar gyflawni. Fodd bynnag, roedd y gofynion adrodd yn hysbys o'r cychwyn cyntaf, ac mae'r diffyg mesurau perfformiad sydd ar gael ar gyfer y gwerthusiad canol cyfnod yn awgrymu bod angen casglu'r wybodaeth yma. Soniodd nifer o'r ymatebwyr am y ffaith fod yna wahanol ofynion adrodd ar gyfer gwahanol ffrydiau ariannu, a bod y diffyg cysondeb ar draws cronfeydd Llywodraeth Cymru'n cymryd amser ac egni. Byddai dull mwy syml o weithredu yn y dyfodol yn rhywbeth i'w groesawu.
- 6.15 Nododd un ymatebwr bod dyrannu cronfeydd CD i gyfrifon daliant am bob grant a phob ardal yn ei gwneud yn haws o lawer rheoli'r arian ac yn gwneud y trywydd archwilio'n gliriach, ac ystyriwyd bod hyn yn arfer da.
- 6.16 Yn gysylltiedig â'r broses fonitro, dadleuodd ambell un o'r ymatebwyr bod hawlio cyllid yn ôl-weithredol yn dwyn risg iddyn nhw. Roedd hyn yn broblem yn benodol i'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd oedd wedi dewis talu sefydliadau'r trydydd sector cyn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru am na ellid disgwyl iddynt ysgwyddo goblygiadau talu staff heb dderbyn y cyllid ar eu llif arian. Fodd bynnag, deallir y gall Llywodraeth Cymru ystyried gwneud taliadau ymlaen llaw ar gyfer sefydliadau trydydd sector llai nad oes ganddynt gronfeydd digonol.

Modelau Gwaith

I ba raddau y mae prosiectau'n newydd neu'n drawsnewidiol

- 6.17 Er bod CI a'r Adolygiad Seneddol yn awgrymu y dylai'r CD fabwysiadu dull cyfarwyddol o fynd ati i ddylunio modelau trawsnewidiol, roedd yr ymatebwyr rhanbarthol yn credu eu bod nhw, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, yn y sefyllfa orau i ddatblygu modelau a fyddai'n mynd i'r afael â'u blaenoriaethau a'u hanghenion.
- 6.18 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod yna wasgariad da ar draws y rhanbarthau a bod prosiectau'r CD yn cwmpasu amrywiaeth eang o themâu a meysydd, gyda rhai ohonynt yn cynnig y potensial i gael eu hefelychu a'u datblygu dros amser.
- 6.19 Fodd bynnag, codwyd pryderon hwyrach nad oedd y CD yn trawsnewid y system i'r fath raddau ag y gallai, a bod caniatáu dull o weithredu 'o'r gwaelod i fyny' at ddatblygu modelau prosiect wedi arwain at ariannu sawl prosiect o natur weddol debyg. Mae Ffigur 6.1 isod yn dangos bod dulliau integredig o roi gofal sy'n seiliedig ar le; modelau o'r ysbyty i'r cartref a phrosiectau cymorth technolegol oll yn themâu amlwg o fewn y prosiectau a ariennir trwy'r CD:

Ffigur 6.1: Dadansoddiad o themâu prosiectau'r Gronfa Drawsnewid



- 6.20 Oherwydd cysondeb y themâu yr oedd y CD yn eu cwmpasu, awgrymwyd fod gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd o ran 'beth sy'n gweithio' yn cael ei rannu ar draws y rhanbarthau, a bod elfen Cymunedau Maes y gwerthusiad cenedlaethol yma'n gallu chwarae rhan wrth gyflawni hynny. Nododd un ymatebwr fod gan Lywodraeth Cymru rôl genedlaethol i'w chwarae wrth goladu'r wybodaeth yma fel 'manyleb' ar gyfer modelau tebyg i'w rhoi ar waith mewn rhanbarthau eraill yn y dyfodol.
- 6.21 Cododd yr ymatebwyr bryderon am fathau tebyg o ymyraethau sy'n defnyddio brand a therminoleg gwahanol. Un enghraifft a roddwyd oedd y nifer o fentrau adre'n gyntaf/o'r ysbyty gartref oedd yn cael eu hariannu a oedd yn debyg o ran eu hamcanion. Roedd yna deimlad bod 'iaith gyffredin' ar draws y rhaglen a defnydd mwy cyson o derminoleg yn bwysig, yn enwedig yn nhermau datblygu a chyfleu'r rhaglen i eraill yn effeithiol, gan gynnwys pobl y tu hwnt i Gymru, yn effeithiol. Os oedd prosiectau'n rhy 'annelwig ac aneglur, yna ni all pobl eraill eu codi a'u rhoi ar waith'. Gwelwyd y [model ICEBERG](#) fel esiampl ag enw arbennig a allai gael ei becynnu'n effeithiol i ranbarthau eraill ei fabwysiadu. Esiaml arall a enwyd oedd [Law yn Llaw Gogledd Cymru: At Wasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu](#) am fod yn ddiffiniedig, yn arloesol ac â'r potensial i'w datblygu:

Mae [model ICEBERG](#) BPRh Gwent yn gweithredu ar y sail fod diwallu'r galw am anghenion gofal iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn gynt, a sicrhau dull gweithredu sy'n fwy seiliedig ar y gymuned ac atal mewn perthynas â gwasanaethau i CAMHS yn arwain at ostyngiad yn y galw a'r ddibyniaeth ar wasanaethau CAMHS arbenigol yn y pen draw. Nod y rhaglen yw chwyldroi'r darlun o ran y ddarpariaeth amlasiantaeth ar gyfer llesiant emosiynol plant, a newid y cysyniad o ran beth yr ystyrir i fod yn 'ddarpariaeth graidd'. Ei nod yw galluogi defnyddwyr gwasanaethau i gyrchu'r cymorth cywir yn ddi-dor o'r cychwyn cyntaf. Mae'n gweithio i wneud arbenigwyr yn fwy hygyrch i staff y rheng flaen a sicrhau gwell dilyniant o ran gofal, gan symud i ffwrdd wrth y diwylliant 'cyfeirio ymlaen'.

Prosiect uchelgeisiol a helaeth yw'r bartneriaeth [Gogledd Cymru Law yn Llaw: At Wasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu](#) sy'n cwmpasu sawl agwedd ar ddarparu gwasanaethau mewn ymdrech i arddel dull holistaidd o ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Nod y prosiect yw sicrhau gwell integreiddiad rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn lleihau dyblygu o fewn y systemau cofnodi, llwybrau mwy hwylus rhwng y gwasanaethau, swyddi ar y cyd a chronni cyllidebau. Mae'n

cynnwys hyfforddiant i'r gweithlu i uwchsgilio staff i ddysgu dulliau newydd o weithio gyda phobl ag anableddau er mwyn cyfoethogi eu hannibyniaeth a'u llesiant yn gyffredinol. Mae elfen newid cymunedol a diwylliannol i'r prosiect hefyd er mwyn sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu'n fwy cysylltiedig â'u cymunedau trwy gyfleoedd gwaith gwirfoddol ystyrlon, gwaith cyflogedig a hamdden, ac mae'n gosod ffocws cryfach ar ddefnyddio technoleg gynorthwyol.

- 6.22 Roedd yna bryder nad oedd rhai o'r modelau'n ddigon gwahanol, a'u bod yn gyfuniad o syniadau 'heb naratif a model clir ac heb y cwmpas i'w datblygu ymhellach'. Ystyriwyd bod llawer o'r prosiectau a ariennir gan y CD yn estyniad o ddulliau o weithredu sy'n bodoli eisoes neu ddatblygiad o ddulliau oedd wedi cael eu harbrofi gyda cyllid ICF yn gyntaf. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod cyllid y CD wedi caniatáu i'r dulliau hyn gael eu datblygu am fod yna dystiolaeth eisoes eu bod yn gweithio. Roedd yn golygu hefyd y gallai prosiectau o'r fath gychwyn yn gynt o fewn amserlen gymharol dynn y CD. Yn hynny o beth, dadleuwyd 'nad oes dim a wnawn yn newydd sbon, ond mae'n arloesol'. Yn hynny o beth, awgrymwyd yr arddelwyd dull 'pragmataidd yn hytrach nac idealistig' wrth wneud penderfyniadau i ariannu prosiectau. Dadleuwyd hefyd na fwriadwyd byth i'r CD ariannu cysyniadau hollol newydd, ac oes oedd model yn newydd i ranbarth neu glwstwr penodol yna roedd hynny'n hollol gyson â phwmpas y CD.
- 6.28 Cyfeiriodd ymatebwyr at fodelau a oedd, hyd yn oed os nad oeddent yn arloesol ac yn newydd yn yr ystyr ehangaf, yn sicr yn cynnig cyfle i brofi dulliau newydd o weithredu a allai gael effaith gadarnhaol yn y rhanbarth o dan sylw. Roedd yr esiamplau a enwyd yn cynnwys:
- Prosiectau [Gwasanaethau Ataliol Ewch â fi Adref](#) ac [Ewch â Fi Adref a Mwy](#) **BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg** am eu bod yn wasanaethau nad oeddent wedi cael eu gweithredu gan y Bwrdd Iechyd erioed o'r blaen
 - Daw sawl un o ffrydiau gwaith **BPRh Powys** fel [Dychwelyd Asesiadau Cyn Llawdriniaeth i Bowys](#) a'r [Rhith-feddygfeydd](#) â gwasanaethau nad oeddent yn bodoli o'r blaen i Ogledd Powys.

Defnyddio modelau sy'n bodoli eisoes

- 6.23 Wrth ymgeisio am gyllid, gofynnwyd i'r BPRh rannu tystiolaeth a'r hyn a ddysgwyd gan fodelau blaenllaw a ddefnyddiwyd mewn rhannau eraill o Gymru, y DU neu mewn gwledydd

eraill a oedd wedi dylanwadu ar ddatblygiad y cynigion. Mae Ffigur 6.2 isod yn rhestru'r modelau y soniodd y prosiectau a gafodd gyllid o'r CD amdanynt yn eu dulliau o weithredu:

Ffigur 6.2: Y modelau a enwyd gan y prosiectau

Model	Prosiect a ariannwyd
Frome (Cymunedau Tosturiol)	Caerdydd a'r Fro - Model Cyflymu'r Clwstwr Gwent – Darparu Gofal yn Seiliedig ar Le Gorllewin Morgannwg – Dull Ein Cymdogaeth
Caergaint	Caerdydd a'r Fro - Model Cyflymu'r Clwstwr Gorllewin Morgannwg – Dull Ein Cymdogaeth
Rhith-ward Aberdâr	Caerdydd a'r Fro - Model Cyflymu'r Clwstwr
Cysylltiadau Iechyd, Mendip	Caerdydd a'r Fro - Model Cyflymu'r Clwstwr
Model ACG John Hopkins	Cwm Taf Morgannwg - Haenu a Segmentu Risg
Torbay (cynllunio gofal rhagflaen)	Cwm Taf Morgannwg – Dydd Mawrth yw Pob Dydd a Chyflawni Dull Gweithredu Un Tîm o Gylch Pobl
Nuka	Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol Gogledd Cymru
Buurtzog	Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol Gogledd Cymru
Bilbao	Prosiect Rhagweithiol Gofal â Chymorth Technoleg Gogledd Cymru
Model Vincles - Barcelona (cynhwysiant digidol i leihau unigrwydd a theimladau ynysig)	Prosiect Rhagweithiol Gofal â Chymorth Technoleg Gogledd Cymru Cwm Taf Morgannwg - Technoleg Gynorthwyol
Dull gweithredu'n seiliedig ar asedau (Canolfan Datblygu Cymunedau'r Alban)	Caerdydd a'r Fro - Model Cyflymu'r Clwstwr a Phresgripsiynau Cymdeithasol Di-dor Gwent – Darparu Gofal yn Seiliedig ar Le

- 6.24 Mae hi'n anodd gweld o'r adroddiadau gwerthuso rhanbarthol i ba raddau y mae'r hyn a ddysgwyd o'r modelau 'beth sy'n gweithio' mewn mannau eraill wedi cael ei fabwysiadu a'i integreiddio i'r prosiectau a ariennir gan y CD. Mae yna ambell i eithriad yn hyn o beth - mae yna dystiolaeth glir bod model Cymunedau Tosturiol (Frome) wedi cael ei ystyried a'i addasu yn rhan o ddulliau BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg o fynd ati i ddarparu gofal yn seiliedig ar le. Yn yr un modd, mae prosiect Bilbao yn amlwg wedi dylanwadu ar ddull gweithredu BPRh Gorllewin Cymru, ac wedi gosod sylfaen gadarn ar gyfer eu prosiect [TEC](#):

Yn **BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg**, mae'r [Model Cyflymu'r Clwstwr](#) yn seiliedig ar y model Cymunedau Tosturiol sydd wedi cael ei roi ar waith yn Frome. Roedd y model gwreiddiol yn gweithredu mewn un practis meddyg teulu, ond roedd yn cael ei ddefnyddio mewn sawl meddygfa ar draws clwstwr yn y rhanbarth ac yn gwasanaethu poblogaeth o 28,000. Am hynny, bu angen tipyn o addasu ar y model.

Roedd tîm y prosiect wedi ymweld â Phrosiect Rhith-ward Aberdâr, Canolfan Feddygol Frome a Chysylltiadau Iechyd Mendip, a System Gofal Canterbury (Seland Newydd). Cafodd y gwersi a ddysgwyd o'r ymweliadau hyn eu hintegreiddio i'w model nhw.

Ystyriwyd bod cael timau amlddisgyblaeth yn gweithio ar lefel practis a gweithrediad yr hyb rhyddhau yn elfennau arbennig o arloesol.

Addasiad o fodel yn Bilbao yw prosiect [Gofal Rhagweithiol â Chymorth Technoleg BPRh Gorllewin Cymru](#) ac mae hi'n ddull hollol newydd o weithredu yng Nghymru. Gwelwyd hyn fel prosiect 'blaenllaw' y rhanbarth a chanddo wir potensial i drawsnewid systemau a sut y maent yn gweithio. Teimlwyd hefyd y gallai'r dull hwn, sy'n cynnwys contractio gwasanaethau i gorff hyd-braich, gael ei gaffael gan Fyrddau Iechyd eraill yn y dyfodol os yw'n gweithio.

Elfennau arloesol o fewn prosiectau

6.25 Yn ogystal â'r ffaith fod y modelau gweithredu'n newydd neu'n arloesol, cyfeiriodd yr ymatebwyr at ddulliau arloesol o weithio o fewn prosiectau hefyd. Roedd esiamplau o arloesi'n cynnwys:

- Yn **BPRh Gogledd Cymru**, mae'r prosiect [Law yn Llaw at Iechyd Meddwl](#) yn cyfeirio at fodel 'GALLAF' o hyfforddiant ymwybyddiaeth am iechyd meddwl, sy'n ymestyn y tu hwnt i iechyd meddwl i gynorthwyo llesiant ehangach unigolion a'u gallu i ddelio â phroblemau lefel is. Mae'r model 'GALLAF' yn cynnwys hyfforddi pobl â 'phrofiad byw' o broblemau iechyd meddwl i gynorthwyo eraill, sy'n rhoi'r cyfle iddynt deimlo eu bod yn 'rhoi rhywbeth nôl' ac yn cyfoethogi eu rhagolygon gyrfaoi
- Mae darparu cyfleoedd i bobl anabl weithio a gwirfoddoli'n elfen allweddol o'r prosiect [Gwasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu](#) yn **BPRh Gogledd Cymru**

- Yn **BPRh Gorllewin Morgannwg**, y dull amlasiantaeth o fynd ati ar ffurf system clwstwr cyfan a sefydlu menter gymdeithasol gymunedol ym mhob clwstwr y gall ymarferwyr cyffredinol gyfeirio cleifion ati am gymorth anfeddygol
- Dadansoddi clystyrau ar sail data yn **BPRh Cwm Taf Morgannwg** trwy brosiect [Segmentu'r Boblogaeth a Haenu Risgiau](#) a fydd yn rhagfynegi sut y mae segmentau o'r boblogaeth yn debygol o fod angen gofal iechyd yn y dyfodol, a galluogi ymyraethau sydd wedi eu targedu'n well ar gyfnod cynharach i'r rhai a fydd yn elwa'r mwyaf er mwyn lleihau eu hanghenion o ran gofal iechyd yn y dyfodol
- Gwelwyd dull **BPRh Gorllewin Cymru** o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector fel elfen hanfodol o'u dull o weithredu, â gwir ymrwymiad i gydweithio o fewn y gymuned mewn ffordd ymarferol ac adeiladol.

6.26 Fodd bynnag, mae hi wedi bod yn anodd canfod union lefel a graddfa'r gweithgarwch trawsnewidiol mewn rhai prosiectau trwy ein gwaith dadansoddi prosiectau ni ein hunain. Mae hynny am fod rhai wedi cael eu dylunio i weithredu mewn ffordd integredig yn rhan o wasanaethau'r brif ffrwd. Mae yna dystiolaeth fod y CD yn cael ei defnyddio i ychwanegu at gapasiti gwasanaethau sy'n bodoli eisoes (e.e. i ariannu mwy o therapyddion neu weithwyr gofal) yn hytrach nag i ariannu ffyrdd gwahanol o weithio. O'r dadansoddiad o adroddiadau a chyfweliadau, mae hi'n dal i fod yn aneglur mewn ambell i achos a briodolwyd cyllid y CD i rolau staffio, gweithgareddau neu gyfarpar penodol.

7. Mewnbwn a gweithgareddau

- 7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried cyflymdra'r newid a gyflawnwyd gan brosiectau unigol yn ogystal â natur y mewnbwn a ddefnyddiwyd, a'r gweithgareddau a gyflawnodd y gwahanol brosiectau. Mae'n ystyried yr agweddau sy'n gweithio'n dda a'r sialensiau tebyg y mae BPRh yn eu hwynebu wrth gyflawni prosiectau. Mae'r bennod yn edrych hefyd ar y strwythurau llywodraethu sy'n bodoli a'r cysylltiadau a wnaed â dinasyddion a staff.

Cyflymdra'r newid ar hyn o bryd

- 7.2 Mae adolygiad o'r adroddiadau gwerthuso canol cyfnod yn dangos, o'r 30 prosiect CD:
- rydyn ni'n teimlo bod saith o'r 30 prosiect yn cyflawni **cyflymdra newid cyflym a sydyn**. Mae'r prosiectau hyn yn cael gweithredu'n unol â'u cynllun gwaith gwreiddiol ac nid ydynt wedi wynebu unrhyw oedi o bwys. Mae dau o'r prosiectau hyn (prosiectau [Ewch â Fi Adre](#) ac [Ewch a Fi Adre a Mwy](#) ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg) wedi cael eu gweithredu'n gynt na'r bwriad oherwydd yr angen i fynd i'r afael â phwysau'r gaeaf a newid diwylliant calonogol yn agweddau'r staff ieched. Ystyrir bod un arall o'r prosiectau hyn ([Adre'n Gyntaf](#) ar draws Gwent) yn ddull o weithredu 'busnes fel arfer' ar safleoedd rhai o'r ysbytai i fath raddau y byddai 'dileu'r gwasanaeth yn niweidiol i'r unigolyn ac i gydweithwyr ieched ac i lif y cleifion o fewn lleoliadau'r ysbytai'²⁸
 - rydyn ni'n teimlo bod gan 16 o'r 30 prosiect **gyflymdra newid rhesymol a chymedrol**. Yn nodweddiadol, mae'r prosiectau hyn wedi wynebu oedi cychwynnol mewn perthynas â threfniadau recriwtio a llywodraethu, ac am hynny maent wedi gorfod treulio mwy o amser na'r disgwyl ar y camau cynllunio cynnar. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys y rhai sy'n wynebu sialensiau wrth roi eu cynlluniau ar waith a'r prosiectau sydd wedi cofnodi perfformiad cymysg ar draws eu hamrywiol elfennau e.e. mae rhai elfennau ar y trywydd iawn, ond nid eraill
 - rydyn ni'n teimlo bod gan saith o'r 30 prosiect **gyflymdra newid araf**. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau sydd wedi wynebu problemau sylfaenol ac y mae'r adroddiadau canol cyfnod yn dangos yn glir eu bod yn wynebu oedi sylweddol neu nad ydynt wedi cychwyn eto. Mae'r ffactorau sydd i gyfrif am yr oedi yma'n cynnwys problemau sefydliadol yn ogystal â phroblemau mawr sy'n ymwneud â materion technegol a recriwtio.

²⁸ Adroddiad Gwerthusiad Canol Cyfnod Rhanbarthol RPB Gwent t.31.

Mewnbwn a gweithgareddau

- 7.3 Gellir grwpio'r prif fewnbynnau a ddefnyddiwyd, a'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan y prosiectau hyd yn hyn i'r meysydd a ganlyn:
- sefydlu trefniadau llywodraethu priodol
 - recriwtio staff rheoli a chyflawni
 - cyflwyno a hyfforddi staff
 - datblygu systemau, modelau, prosesau a gweithdrefnau
 - sefydlu offer a systemau gweithredu TG
 - arbrofi â gwasanaethau, darpariaeth a dulliau newydd o weithio
 - sefydlu a chyflwyno gwasanaethau a darpariaethau
 - monitro a gwerthuso effeithiau gwasanaethau a darpariaethau.
- 7.4 Dylid nodi, fodd bynnag, ei bod hi'n amhosibl ar nifer cyffredinol y staff sydd wedi cael eu recriwtio o ganlyniad i'r buddsoddiad a wnaed trwy'r CD neu faint o staff ychwanegol sydd wedi cael eu cyflogi ar draws y gweithlu o ganlyniad ar hyn o bryd. Rydyn ni'n deall ei bod hi'n anodd i'r BPRh bennu'r wybodaeth yma, ond yn credu y bydd penderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i ofyn am y wybodaeth yma mewn adroddiadau chwarterol o gymorth wrth ddangos y gwerth ychwanegol y mae'r CD yn ei gynnig.
- 7.5 Ar y cyfan, mae'r prosiectau rydym ni'n ystyried eu bod yn dangos cyflymdra newid da neu gymedrol yn nodi eu bod wedi recriwtio staff newydd ac ychwanegol a bod ganddynt dîm llawn adeg yr adroddiad canol cyfnod. Maen nhw'n nodi'n aml hefyd eu bod wedi cyflwyno'r staff newydd yma a'u bod wedi darparu'r hyfforddiant angenrheidiol ar eu cyfer. Roedd y staff yma'n chwarae rhan ymarferol wrth arbrofi a rhoi'r gwasanaethau ar waith adeg yr adroddiadau canol cyfnod hefyd.
- 7.6 Mae'r prosiectau hyn yn nodi'n aml hefyd eu bod wedi datblygu a chytuno ar drefniadau gwaith ar draws eu partneriaeth. Mewn sawl achos, mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth wedi cael eu datblygu a'u mabwysiadu. Mae partneriaid wedi cytuno hefyd ar fodelau cyflawni a phrosesau gweithredu.
- 7.7 Mae'r prosiectau rydyn ni'n teimlo eu bod yn dangos cyflymdra newydd arafach yn dueddol o bwysleisio'r gweithgareddau paratoi maent wedi eu cyflawni ers i'r cais am gyllid gael ei gymeradwyo. Mae'r gweithgareddau hyn yn dueddol o ganolbwyntio ar drefniadau

llywodraethu, diogelu capasiti rheoli prosiectau, llunio cynlluniau cyflawni, cytuno ar fanylebau swyddi a chychwyn recriwtio, yn ogystal â negodi a chytuno ar fanylebau contractau allanol. Yn aml nid oedd yr holl swyddi wedi cael eu llenwi adeg paratoi'r adroddiadau canol cyfnod ar draws y prosiectau hyn.

- 7.8 Modelau sy'n canolbwyntio ar ryddhau pobl o'r ysbyty yw dau o'r prosiectau sy'n dangos cyflymdra newid cyflym a sydyn ac roedden nhw'n hollol weithredol adeg yr adroddiadau canol cyfnod:

Adre'n Gyntaf, BPRh Gwent

Mae'r prosiect yma'n darparu un pwynt cyswllt i gynorthwyo rhyddhau cleifion o ysbytai ar draws pob un o'r pump awdurdod lleol, gan gynnwys gwasanaeth penwythnos. Mae hi wedi bod yn gweithredu ers Tachwedd 2018 ac fe'i sefydlwyd o fewn amserlen fer, gan adeiladu ar lecynnau o waith ar draws safleoedd dau ysbyty. Yn nhermau allbwn, mae hi'n cyflawni ei tharged o helpu i ryddhau 25 o gleifion yr wythnos o'r ysbyty, er nad yw'r deilliannau a gyflawnwyd o ganlyniad i'r gweithgarwch yma wedi cael eu mesur hyd yn hyn. Mae'r prosiect yn nodi'n anecdotaidd ei fod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol wrth ryddhau cleifion yn amserol, gwella llif cleifion a'r gwella capasiti o ran staff iechyd. Mae'n cefnogi newid mewn arferion gwaith a diwylliant ar draws yr ysbytai hefyd.

Gwasanaethau Atal Ewch â Fi Adref, BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg

Mae'r prosiect yma'n darparu un pwynt mynediad mewn ysbyty ar gyfer yr holl wasanaethau cymunedol, gan gynnwys gwasanaeth ar benwythnosau, er mwyn rhyddhau pobl i'w cartrefi'n gynt. Yn nhermau allbwn, erbyn Rhagfyr 2019, roedd 1,116 o gleifion wedi cael cymorth gan arbed amcangyfrif o 555 o ddiwrnodau gwely ysbyty. Mae'r adborth gan staff iechyd yn awgrymu bod y gwasanaeth yn helpu i ryddhau pobl yn gynt. Mae'r manteision i'r cleifion yn cynnwys gwell cyfathrebu ynghylch beth sy'n bwysig iddyn nhw, cael eu rhyddhau'n gynt â chymorth a chyfeirio at wasanaethau eraill. Yn nhermau'r effaith, mae hyd yr arhosiad cyfartalog mewn ysbyty wedi gostwng o 16 i 13.5 diwrnod, er na ellir priodoli hynny i'r CD yn unig.

- 7.9 Nododd sawl un o'r prosiectau oedd yn dangos cyflymdra newid arafach eu bod wedi wynebu amryw o sialensiau ac oedi, fel y mae'r ddwy esiampl isod yn ei ddangos.

Integreiddiad Cyflym a Chyson, BPRh Gorllewin Cymru

Bydd y prosiect yma'n sefydlu Timau Asesu Cymunedol Cyflym integredig ac amlddisgyblaeth fel y gall cleifion gael eu gweld a'u trin gan berson proffesiynol yn eu cymuned, gan osgoi derbyniadau i'r ysbyty a lleihau'r galw am i ymarferwyr cyffredinol gyflawni ymweliadau cartref. Bydd Rheolwr Prosiect Integredig yn goruchwyllo'r prosiect ym mhob lleoliad. Yn Rhagfyr 2019, roedd Rheolwyr Prosiect Integredig wedi cael eu penodi ar draws pob un o'r tri lleoliad, roedd y gwasanaeth yn weithredol yn un o'r rhain (Sir Gaerfyrddin) ac roedd y prosiect yn pennu cynlluniau rhanbarthol a lleol terfynol, yr oedd disgwyl iddynt fod yn eu lle erbyn Mawrth 2020.

Dull Ein Cymdogaeth, BPRh Gorllewin Morgannwg

Mae'r prosiect yma'n cynorthwyo unigolion i gymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u lles yn eu milltir sgwâr trwy ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal integredig. Er bod y model yn adeiladu ac yn ehangu ar ddarpariaeth gwasanaethau cyfredol gan ddefnyddio model datblygu sy'n seiliedig ar asedau, cafwyd ei bod yn 'gymharol anniffriniedig'. O ganlyniad, yn ystod y cyfnodau cynnar aeth mwy o amser ac ymdrech i sicrhau bod y model yn gyson â'r gwasanaethau eraill sydd ar gael. Mae cyflymdra'r newid wedi bod yn arafach na'r disgwyl oherwydd sialensiau recriwtio a'r angen am gysylltu cymunedau, sy'n cymryd amser ac ymdrech. Adeg yr adroddiadau canol cyfnod, roedd pum Cydlynnydd Ardal Lleol wedi cael eu recriwtio, a'r disgwyl oedd y byddai'r holl staff yn eu swyddi newydd erbyn Chwefror 2020.

Gwariant hyd yn hyn

- 7.10 Mae Tabl 7.1 isod yn dangos y gwariant ar lefel rhaglen a rhanbarthol yn erbyn y gyllideb a ddyrannwyd, hyd Fawrth 2020. Mae'n dangos bod £87m o'r £100m wedi cael ei glustnodi ar draws y saith rhanbarth. O hyn, roedd 41 y cant (ychydig dros £35m) wedi cael ei wario hyd yn hyn dros y cyfnod o 15 mis ers Ionawr 2019. Bu gwariant ar y rhaglen yn araf yn ystod y 12 mis cyntaf, pan gwariwyd £19m neu 21 y cant o'r gyllideb gyffredinol, ond cyflymodd hyn yn y chwarter rhwng Ionawr a Mawrth 2020, pan gwariwyd £16m neu 18 y cant o'r gyllideb gyffredinol.

- 7.11 Ar lefel ranbarthol, mae dyraniadau'r gyllideb wedi amrywio. BPRh Cwm Taf Morgannwg a Gorllewin Morgannwg sydd i gyfrif am y mwyaf, tra bod BPRh Powys a Chaerdydd a Bro Morgannwg i gyfrif am y lleiaf. Mae gwariant hyd yn hyn, fel cyfran o'r dyraniad rhanbarthol, yn amrywio hefyd. BPRh Gwent, wedyn BPRh Powys a Chaerdydd a Bro Morgannwg sydd wedi cofnodi'r gwariant cyfrannol uchaf, tra bod BPRh Cwm Taf Morgannwg wedi cofnodi'r gyfradd isaf. Gall y ffaith fod rhai rhanbarthau a phrosiectau wedi rhoi'r rhaglen ar waith yn gynt nag eraill esbonio'r duedd yma i ryw raddau.

Tabl 7.1: Cyllideb a gwariant y Gronfa Drawsnewid (Ionawr 2019 – Mawrth 2020)

£ (000)	Dyraniad	Gwariant hyd yn hyn	Gwariant fel % o'r dyraniad
Caerdydd a Bro Morgannwg	6,948	3,375	49%
Cwm Taf Morgannwg	22,734	6,161	27%
Gwent	13,459	9,551	71%
Powys	2,554	1,274	50%
Gorllewin Cymru	11,963	4,359	36%
Gorllewin Morgannwg	16,535	5,915	36%
Gogledd Cymru	13,014	4,752	37%
Cyfanswm	87,207	35,387	41%

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

Cyflawniadau hyd yn hyn

- 7.12 Amlygwyd sawl esiampl o'r hyn a oedd yn gweithio'n dda wrth weithredu prosiectau CD yn ystod y trafodaethau a/neu o fewn adroddiadau gwerthuso rhanbarthol:
- Ym mhrosiect [Law yn Llaw at Iechyd Meddwl](#) yn **BPRh Gogledd Cymru**, roedd y partneriaid yn cyfathrebu ac yn cydweithio'n dda. Roedd y partneriaid i'w gweld yn dechrau meddwl am fodel anfeddygol/clinigol ar gyfer iechyd meddwl yn y gogledd ac yn gweld cyfleoedd i gydweithio yn rhan o'r ateb iechyd meddwl yn hytrach nag edrych ar y peth fel mater i'r GIG yn unig
 - Roedd **BPRh Powys** yn credu bod y gweithgareddau oedd yn cael eu hariannu gan CD yn tynnu pobl ynghyd o ddau sefydliad oedd yn wahanol iawn o ran eu diwylliant, ac yn sbarduno dymuniad cryfach i weithio tuag at amcanion cyffredin, ac yn gwneud hynny mewn gwir bartneriaeth yn hytrach na chael eu 'harwain' gan y naill bartner neu'r llall
 - Mae'r prosiect [Dull Gweithredu Ein Partneriaeth](#) yn **BPRh Gorllewin Morgannwg** wedi caniatáu i un awdurdod lleol ganolbwyntio ar wasanaethau gofal i blant, am fod eu hadnoddau hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar ofal cymdeithasol i oedolion. Ystyriwyd felly

bod cyllid CD yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt archwilio gwell dulliau o weithredu er mwyn cysylltu'r gwasanaethau ar gyfer plant. O fewn eu prosiect arall, sef dull gweithredu system-gyfan y Clwstwr, roedd y BPRh wedi gweld hyder y clystyrau ymarferwyr cyffredinol yn tyfu o ran eu gallu i ddiwallu anghenion cleifion trwy ddulliau eraill. O ganlyniad, roeddent bellach yn dechrau meddwl am syniadau i fynd i'r afael â materion eraill y tu hwnt i'r CD e.e. dechrau archwilio dulliau eraill o ymateb i ofalu am bobl hŷn

- Yn **BPRh Gorllewin Cymru**, ystyriwyd bod y bartneriaeth ranbarthol gadarn sy'n bodoli'n gweithio'n dda. Roedd y BPRh wedi bodoli ers sawl blwyddyn ac ystyriwyd ei fod yn ddigon aeddfed bellach i ddelio â sialens y CD ac ymateb iddi. Roedd rhai o'r prosiectau wedi ystyried y pwysau lleol yr oedd rhai partneriaid yn eu hwynebu, ac roeddent wedi cynllunio i gyflwyno eu prosiectau tipyn wrth dipyn mewn ymdrech i fynd i'r afael â hyn
- Yn **BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg**, awgrymodd y rhanddeiliaid y bod newid cadarnhaol mewn diwylliant eisoes wedi digwydd o fewn y bwrdd iechyd o ganlyniad i roi'r prosiectau [Ewch â Fi Adre](#) ar waith hyd yn hyn, ac yn arbennig yn nhermau cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ac edrych ar ddewisiadau eraill i gynorthwyo unigolion gartref ac yn y gymuned yn hytrach nac mewn ysbyty
- Dangosodd **BPRh Cwm Taf Morgannwg** sut roedd y gwaith cynllunio a rheoli prosiectau a gyflawnwyd i baratoi eu prosiect [Technoleg Gynorthwyol](#) wedi gweithio'n dda. Roedd hi wedi bod yn sefyllfa gymhleth gyda sawl partner ar draws CBS Rhondda Cynon Taf (TG, Adnoddau Dynol, Gofal Cwsmeriaid, Perfformiad a Chyllid) ynghyd â darparwydd allanol yn cydweithio er mwyn caniatáu i'r prosiect 'fynd yn fyw' yn ôl y bwriad.

Sialensiau o ran gweithrediad

Recriwtio

7.13 Yn ystod ein gwaith maes, codwyd nifer o faterion a sialensiau oedd yn gysylltiedig â rhoi prosiectau CD ar waith. Recriwtio staff oedd y sialens fwyaf y soniwyd amdano'n gyson ar draws yr holl ranbarthau. Roedd yna sawl agwedd i'r sialensiau oedd yn llesteirio recriwtio staff, gan gynnwys:

- natur fiwrocraidd ac arafwch y broses ar gyfer rhoi sêl bendith i 'baru' rolau newydd a'u cymeradwyo mewn 'paneli bandio' mewnol, yn enwedig o fewn y byrddau iechyd. Roedd hyn wedi achosi oedi sylweddol ar draws sawl rhanbarth
- roedd cytuno ar swydd-ddisgrifiadau cyffredin ar draws sawl sefydliad mawr wedi bod yn broblem mewn rhai rhanbarthau hefyd: 'mae recriwtio wedi bod yn gur pen go iawn ...

â gwahanol sefydliadau â gwahanol systemau.' Mewn ambell i achos, roedd moratoriwm ar recriwtio o fewn y sefydliad nawdd, a oedd yn golygu ei bod yn anos byth sefydlu'r strwythurau staffio

- y ffaith fod y swyddi sydd ar gael yn rhai dros dro neu dan contractau tymor byr, ac felly nad oeddent yn arbennig o ddeniadol - yn enwedig os oedd swyddi parhaol gan yr ymgeiswyr: 'swyddi dros dro yw'n holl swyddi, a bydd pobl yn dewis swyddi parhaol dros y rhain bob tro. Mae hynny wir wedi arafu pethau i ni'
- anawsterau sy'n gysylltiedig â recriwtio i rolau (ac yn arbennig rhai dros dro) mewn ardaloedd gwledig. Mewn un rhanbarth, cafodd hyn ei ddwysáu gan y ffaith nad oedd gan y gwasanaeth iechedd ysbyty dosbarth cyffredinol
- bod angen i'r swyddi gan eu llenwi gan o'r gweithlu cyfyngedig oedd ar gael. Soniodd amryw o ymatebwyr ei bod yn sialens recriwtio seicolegwyr, clinigwyr, therapyddion galwedigaethol a swyddi penodol eraill am fod angen amdanynt mewn mannau eraill ar draws y gwasanaeth. Roedd yna risg, trwy lenwi swyddi CD, y byddai bylchau'n codi mewn rhannau eraill o'r system (sydd eisoes yn wynebu sialensiau difrifol o ran staffio)
- problemau wrth recriwtio rheolwyr prosiect â'r sgiliau rheoli newid angenrheidiol mewn rhai rhanbarthau. Awgrymwyd bod hyn yn sialens ehangach ar draws y sector iechedd, am nad oes yna lwybr gyrfafol clir ar gyfer deiliaid swyddi rheoli prosiect o fewn y sector iechedd
- lefelau uchel o drosiant staff - yn un o'r BPRh, arweiniodd buddsoddiad er mwyn hyfforddi staff gweinyddol i reoli newid yn syml at staff yn ymadael am swyddi eraill mwy parhaol. Roedd BPRh arall yn gweld staff yn ymadael i gymryd swyddi parhaol cyn gynted â bod swydd yn codi.

7.14 Arweiniodd yr holl problemau recriwtio yma at bryderon ac ofnau y byddai'r diffyg capasiti gweithredol yn effeithio ar allu prosiectau i fwrw ymlaen â'u cynlluniau o fewn yr amser oedd ar gael. Awgrymwyd y bod angen cyfnod cynllunio ar gyfer prosiectau CD a fyddai'n caniatáu amser ar gyfer sefydlu'r prosesau llywodraethu, rheoli cyllid, gwerthuso a recriwtio, am ei bod hi'n afrealistaidd disgwyl i brosiectau gychwyn ar garlam ar unwaith wrth gymeradwyo'r cyllid. Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd bod y diffyg capasiti ar gyfer rheoli prosiectau a sgiliau rheoli newid yn rhywbeth yr oedd angen mynd i'r afael ag ef ar lefel genedlaethol fel y gallai'r sector iechedd a gofal cymdeithasol fod mewn gwell sefyllfa i gyflawni prosiectau fel CD yn y dyfodol.

- 7.15 Soniodd un BPRh sut roeddent wedi lliniaru'r risg i recriwtio trwy hysbysebu a recriwtio ar gyfer rhai swyddi 'sydd mewn perygl' i'r sefydliad cyn cael sêl bendith ar gyfer prosiectau. O ganlyniad, roedd hyn wedi galluogi rhai prosiectau i gynnal yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyflawni

Capasiti gweithredol

- 7.16 Rhwystr mawr arall a gododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r BPRh oedd diffyg capasiti gweithredol i gyflawni'r CD. Disgrifiodd cynrychiolwyr y BPRh sut roeddent yn dibynnu ar glinigwyr ac ymarferwyr i gyflawni llawer o'r prosiectau hyn, a bod yr unigolion hyn o dan bwysau aruthrol wrth geisio cyflawni eu 'gwaith pob dydd' heb sôn am ddim byd arall. Er bod penodi rheolwyr prosiect yn gallu helpu i ryw raddau, yn y pen-draw mae'r gwir ddiffyg capasiti ar y rheng flaen yn dal i lesteirio cynnydd yn ddifrifol. Mae hi'n ddealladwy hefyd bod angen darbwylo clinigwyr a meddygon ymgynghorol a rhoi tawelwch meddwl iddynt y bydd y newidiadau'n arwain at welliannau yn hytrach nac ychwanegu at eu gwaith trwy 'darfu ar hen arferion cyfarwydd'.
- 7.17 Soniodd sawl unigolyn at yr anhawster wrth 'roi'r lle i bobl feddwl am newid'. Mater o newid diwylliannol yw llawer o'r hyn y mae CD yn ceisio'i gyflawni, a nododd cynrychiolwyr y BPRh bod angen clustnodi digon o amser a lle i ganiatáu i hynny ddigwydd. Dywedodd y BPRh eu bod dan gymaint o bwysau dim ond wrth gyflawni'r prosiectau ar y funud nad oedd ganddynt y capasiti angenrheidiol i gynllunio'n strategol, ac y byddai hynny'n digwydd ar draul y deilliannau a gyflawnir yn y pendraw: 'rydyn ni i gyd wrthi'n "gwneud" a does yna ddim amser o gwbl am "feddwl yn strategol"'. Disgrifiodd un BPRh pa mor anodd oedd hi i gynnal momentwm ac egni'r staff ar un o'u prosiectau mwy o faint oherwydd yr amserlenni cyflawni: 'mae lefel yr egni sydd ei angen i gyflwyno'r model hwn mewn [sawl] ardal yr un pryd, dros gyfnod byr o amser wedi bod yn aruthrol. Roedd goblygiadau i hyn yn nhermau agweddau, ysbryd ac ymroddiad y staff'.

Diwylliant sefydliadau

- 7.18 Ar lefel ehangach, roedd y gwahaniaethau diwylliannol rhwng yr amryw o sefydliadau mawr yr oedd angen iddynt gydweithio'n sialens a godwyd gyson hefyd. Soniwyd yn aml am y gwahaniaethau rhwng dulliau gweithredu e.e. rhwng sefydliad o'r sector gwirfoddol ac awdurdod lleol, ac yn arbennig y gwahaniaethau rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.
- 7.19 Dywedodd sawl ymatebwr nad oeddent wedi sylweddoli faint o amser y byddai ei angen dim ond i gael ymrwymiad i geisio cyflawni newid. Roedd y gofyniad i wneud hyn ar draws sawl

sefydliad mawr sy'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol yn dwysáu maint yr her. Mewn rhai achosion, nid oedd y ffordd roedd y gwahanol ffrydiau gwaith yn cael eu hariannu ar wahân yn hwyluso diwylliant o gydweithio. Mewn esiampl arall, roedd unigolion mewn sawl sefydliad wedi bod ychydig bach yn blwyfol, oedd hyn yn golygu nad oedd prosiectau'n cael eu gweithredu â'r un egni ar draws pob ardal awdurdod lleol bob tro, oedd yn golygu bod yna ddulliau anghyfartal o weithredu ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, teimlwyd bod sefydlu grwpiau gweithredol oedd yn cwmpasu gwahanol brosiectau'n helpu i liniaru'r problemau hyn. Yn yr achosion hyn, wrth i wahanol sefydliadau gydweithio'n agosach, llwyddwyd i gael gwell dealltwriaeth o'u dulliau ei gilydd o weithio. Disgrifiodd un BPRh sut roedd cynnal cyfarfodydd rheolaidd (h.y. pob pythefnos neu bob mis) o grwpiau llywio prosiectau amlddisgyblaeth wedi chwarae rhan allweddol wrth sicrhau trosolwg a goruchwyliaeth ar brosiectau gan arwain ar weithredu penderfyniadau yn y fan a'r lle, a datrys problemau mewn ffordd amserol. Roedd y prosiectau a oedd yn bodoli ar ryw ffurf yn barod eisoes yn dueddol o fod yn fwy 'blaengar' yn eu dulliau o weithredu ac yn fwy cyffyrddus â 'gwaith amlddisgyblaeth' am eu bod eisoes wedi sefydlu diwylliant gwaith o'r fath cyn gweithredu'r prosiect.

- 7.20 Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo bod angen newid diwylliant mewn rhai sefydliadau o ran derbyn 'methiant', a bod angen trafodaeth fwy agored ynghylch yr hyn a ddysgir trwy ddulliau sy'n methu. Gallai uwch reolwyr chwarae rhan bwysig wrth bwysleisio'r neges i staff prosiectau na fyddai pob agwedd ar brosiect yn llwyddiannus oherwydd eu natur drawsnewidiol, a bod hynny'n rhywbeth i'w ddisgwyl a'i bod yn dderbyniol.

Prosesau biwrocrataidd

- 7.21 Roedd yr angen am lywio trwy 'brosesau a biwrocratiaeth' yn sialens a gododd y BPRh yn gyson hefyd, gan gynnwys prosesau cymeradwyo beichus ar gyfer dogfennau allweddol ar draws nifer o sefydliadau, a'r angen am gael sêl bendith sawl unigolyn ar draws sawl sefydliad. Lle'r oedd strwythurau'r prosiectau mor gymhleth, gallai hynny achosi oedi. Yn ogystal, roedd gweithio ar draws sefydliadau'n golygu nad oedd y rolau a'r dyletswyddau gweinyddol yn hollol ddiffiniedig bob tro, a arweiniodd at ddyblygu gwaith ac adnoddau yn ddiangen.
- 7.22 Achosodd diffyg cysondeb o ran systemau gwybodaeth ar draws sefydliadau sialensiau ar gyfer rhai BPRh hefyd, a disgrifiodd y rhain sut roedd gwahanol systemau cyfrifiadur ar draws sefydliadau'n achosi problemau o ran cyfathrebu a rhannu gwybodaeth. Mewn ardaloedd mwy gwledig, mae gan y diffyg seilwaith digidol cadarn yn nhermau cysylltiadau band eang y potensial i lesteirio gallu'r BPRh i wireddu rhai o'i uchelgeisiol ar gyfer y CD.

Pwysau ariannol

- 7.23 Cododd yr ymatebwyr faterion o gylch y pwysau ariannol difrifol y mae'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hwynebu yn fwy cyffredinol. Mewn hinsawdd lle mae cynaliadwyedd gwasanaethau cyfredol dan fygythiad, daeth yn anos fyth rheoli rhaglen newid. Roedd gaeaf 2019/20 wedi bod yn un arbennig o galed i'r gwasanaeth iechyd, ac roedd y pwysau cynyddol ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol yn ffactor yn nhanberfformiad rhai prosiectau CD:

'Rydyn ni'n gorwario...[ac] mae angen ystyried y CD o fewn y cyd-destun y mae gwasanaethau'n gweithredu ynddo â diffyg ariannol... mater o daro cydbwysedd rhwng cyflawni amcanion y rhaglen a mantoli'r cyfrifon yw hi. Rydyn ni'n wynebu gwneud penderfyniadau... ddylen ni fynd am newid hirdymor neu'n ddod i ben â'r hyn sydd o'n blaenau?'

Llywodraethu

- 7.24 Casglwyd y safbwyntiau ar sut roedd prosiectau'r CD yn cael eu llywodraethu trwy gyflwyniadau â'r BPRh a'r adroddiadau gwerthuso. Ar y cyfran, ystyriwyd bod y trefniadau llywodraethu hyn yn ddatblygedig, yn briodol a'u bod bellach yn gweithio'n effeithiol. Disgrifiodd adroddiadau gwerthuso rhanbarthol y BPRh eu strwythurau llywodraethu, a cheir ambell i esiampl yn Ffigur 7.2 isod:

Ffigur 7.2: Esiamplau o strwythurau llywodraethu

BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg

Mae cyflawniad rhaglen y Gronfa Drawsnewid yn cael ei reoli trwy strwythur adrodd y BPRh er mwyn sicrhau cyflawniad effeithiol.

Mae'r strwythur adrodd yn cynnwys cyfarfodydd misol â Bwrdd y Rhaglen Drawsnewid, sy'n cynnwys sawl prosiect trawsnewidiol arall (y Gronfa Gofal Integredig, y Gronfa Gofal Sylfaenol, Trawsnewid Iechyd Meddwl) er mwyn cynnal golwg trosfwaol o'r cyfan o fewn y rhanbarth.

Mae cyfarfodydd pob yn ail fis yn Grŵp Arwain Strategol yn darparu trosolwg o'r prosiectau, gan sicrhau bod eu gweithrediad ar y trywydd iawn a chan dileu unrhyw rwysrau i gyflawni.

Cyflwynir adroddiadau chwarterol ar gynnydd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

BPRh Gwent

Mae pob un o'r rhaglenni trawsnewid yn adrodd i Grŵp Llywio Trawsnewid a Grŵp Gweithredu Arweinwyr Rhaglenni (PLOG) sy'n gweithredu fel rhwydwaith cymorth cymheiriaid. Mae'r Grŵp Llywio Trawsnewid yn cyfarfod yn fisol, mae'n cynnwys noddwyr Gweithredol ac yn adrodd i Grŵp Arwain y BPRh.

BPRh Cwm Taf Morgannwg

Mae dwy gydran yn rhaglen yn dod o dan adain BPRh Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r BPRh wedi sefydlu swyddfa rheoli'r rhaglen i gydlynw'r gweithgarwch ar gyfer y ddwy raglen. Mae gan bob ffrwd gwaith reolwr rhaglen penodol a chymorth prosiect ychwanegol.

BPRh Gogledd Cymru

Y BPRh sy'n goruchwyllo pob un o'r pedwar prosiect. Mae gan bob rhaglen unigol noddwr a rheolwr penodol.

BPRh Gorllewin Morgannwg

Mae prosiect y [Dull System-gyfan y Clwstwr](#) yn bwydo i mewn i Gyd-fyrddau Partneriaeth perthnasol yn yr ardal leol yn dibynnu pa awdurdod lleol y maent yn perthyn iddo (Abertawe neu CNPT). Wedyn mae gwybodaeth yn cael ei bwydo i fyny i'r Bwrdd Trawsnewid Integredig (ITB) sy'n cyfarfod pob yn ail fis. Mae'r ITB yn adrodd i BPRh Gorllewin Morgannwg sy'n cyfarfod bob chwarter.

BPRh Gorllewin Cymru

Mae pob prosiect yn cael ei oruchwyllo gan grŵp cyflawni amlasiantaeth.

Mae'r prosiect [Gofal Rhagweithiol â Chymorth Technoleg](#) yn adrodd i'r Grŵp Digidol a Thechnoleg o dan y Gweithgor Integredig a'r BPRh. Cyfarwyddwr Cymunedau Cyngor Sir Caerfyrddin yw noddwr y rhaglen. Darperir cymorth rheoli i'r rhaglen trwy'r Uned Cydweithio Ranbarthol.

Ar hyn o bryd, mae'r prosiect [Integreiddiad Cyflym a Chyson](#) yn adrodd i Grŵp y Rhaglen Trawsnewid ein Cymunedau a sefydlwyd i oruchwyllo'r cydrannau perthnasol o strategaeth iechyd a gofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Hirdymor Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw noddwr y rhaglen.

Mae'r prosiect [Creu Cysylltiadau i Bawb](#) yn adrodd i Grŵp y Rhaglen Cymunedau Cysylltiedig sy'n eistedd o dan y Grŵp y Gweithgor Integredig a'r BPRh. Noddwyr y rhaglen yw Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Benfro a Phrif Weithredwr Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion.

Yn lleol, mae grwpiau rhaglen integredig yn goruchwyllo gweithrediad o dan strwythurau sirol.

Perchnogaeth lefel uwch

- 7.25 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod yna berchnogaeth gadarn ar lefel uwch, gyda Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol a staff uwch y byrddau iechyd yn chwarae rhan fel noddwyr rhaglenni dynodedig, ac yn cymryd rhan mewn prosesau a strwythurau llywodraethu. Ond nid oedd yr holl ranbarthau'n rhannu'r un safbwynt. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd y CD yn cael ei weld fel busnes craidd, ac o ganlyniad roedd yna 'frwydr barhaus i gael ymrwymiad gan y gweithredwyr... rydyn ni'n cael ein trin fel seilo'.
- 7.26 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod strwythurau'r BPRh yn gwneud sicrhau perchnogaeth yn fwy ymestynnol. Dywedodd un o'r rhanddeiliaid bod eu BPRh yn 'gymysgedd o bobl strategol iawn, rhai ohonynt â'u traed yn gadarn yn y presennol' gyda chynrychiolaeth amrywiol o'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd, y trydydd sector a dinasyddion. Am hynny, gallai fod yn ddigon ymestynnol ar adegau sicrhau bod pawb yn gallu deall y trafodaethau a chyfrannu'n llawn atynt.

Rhwystrau i newid

- 7.27 Un o'r prif rwystrau a godwyd oedd y capasiti oedd ar gael o fewn y BPRh i arwain ar CD. Nodwyd bod rhai BPRh wedi ei chael hi'n anodd ymdopi â'r amrywiol ffrydiau ariannu a ddyrannwyd iddynt yn ystod cyfnodau cynnar y CD. Disgrifiodd un rhanddeiliad sut yr oedd y BPRh ar 'gyfnod anaeddfed yn ei ddatblygiad' adeg rhyddhau cyllid y CD, a'i fod yn gweithredu fel panel ariannu i bob pwrpas felly gan drin y peth fel 'pot o arian' i'w weinyddu yn hytrach nag edrych ar y peth mewn ffordd drawsnewidiol. Nid oedd gan rai prosiectau strwythurau adrodd troswaol clir i gychwyn, ac awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol yn y dyfodol i'r strwythurau llywodraethu fod yn eu lle o'r cychwyn cyntaf 'er mwyn sicrhau trosolwg clir o'r rhaglen a chyfyngu ar y potensial ar gyfer dyblygu'.

- 7.28 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn rhannu'r safbwynt taw'r BPRh oedd y mecanwaith cywir i ddyfarnu cyllid y CD iddo (am ei fod yn ariannu dulliau cydweithredol, ac integredig o weithredu ar draws sefydliadau) ond nid oedd ganddo'r capasiti i godi i'r sialensiau a wynebodd o'r cychwyn. Ond roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno, ac yn teimlo bod diffyg swyddogaeth weithredol y BPRh yn golygu nad oedd yn gyfrwng addas ar gyfer cyllid trawsnewid: 'mae'n bwyllgor statudol diddannedd'. Roedden nhw'n teimlo bod angen i'r BPRh ddarparu mwy o 'her adeiladol' er mwyn cyflunio a newid ymddygiad, ac i weithredu'n gyson fel petai ar fin cael ei archwilio mewn perthynas â gwariant cyllid fel y CD.
- 7.29 Soniodd sawl ymatebwr ar lefel BPRh bod rhannu data yn aml yn rhwystro 'canfyddedig' ac yn enwedig gan unigolion o fewn sefydliadau nad oeddent yn gweithio ar y CD ar lefel pob dydd. Am hynny, roeddent yn aml yn aneglur neu dan gamargraff ynghylch y cyfyngiadau ar eu gallu i rannu data personol ar draws gwahanol sefydliadau. Mewn ambell i agos, ystyriwyd bod yr unigolion wedi bod yn fwriadol o lesteirio. Ystyriwyd bod 'hanes' anodd gwaith partneriaeth mewn rhai rhanbarthau'n rhywbeth a allai lesteirio cynnydd.

Ymgysylltu

Cysylltu dinasyddion

- 7.30 Roedd y rhan fwyaf o'r BPRh yn cydnabod bod eu gwaith cysylltu wedi bod yn elfen wan o'u dulliau o weithredu hyd yn hyn, a phrin iawn oedd y dystiolaeth o gyd-ddylunio neu gyd-gynhyrchu gwasanaethau a welwyd yn yr adroddiadau gwerthuso rhanbarthol. Ymhlith yr esiemplau a ddarparwyd roedd:
- Yn **BPRh Gorllewin Cymru**, cyflawnwyd rhywfaint o waith cysylltu defnyddwyr a gofawyr trwy'r BPRh ei hun, ond sampl bach oedd hwn ac roedd yn dibynnu'n drwm ar gynrychiolwyr o blith defnyddwyr cyfredol. Fodd bynnag, bydd adborth gan y bobl sydd ynghlwm wrth y rhaglenni'n rhan allweddol o'r gwerthusiad, gan gynnwys datblygu Ap 'Cyswllt Llesiant' sy'n galluogi pobl i dracio datblygiad eu llesiant yn erbyn nifer o feysydd
 - Roedd **BPRh Powys** wedi cyflawni gweithgareddau cysylltiedig wedi eu targedu gyda dinasyddion, ond roedd yn cydnabod bod mwy o waith o'i flaen - yn arbennig wrth estyn allan at ddinasyddion yng nghyrrion pellaf y rhanbarth
 - Yn **BPRh Gwent**, gwelwyd rhywfaint o weithgarwch o gylch y [model ICEBERG](#) yn ddiweddar, gan gynnwys gwaith gyda Fforwm Ieuenctid Rhanbarthol Gwent a threialu

dulliau o weithredu ar sail Cyllidebau Cyfranogol. Cydnabuwyd bod yna gyfle pellach i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau

- Roedd prosiect [Dull Ein Cymdogaeth](#) yn **BPRh Gorllewin Morgannwg** wedi gosod ffocws pwysig ar gysylltu â'r gymuned. Cynhaliwyd nifer o achlysuron cymunedol lleol yn hynny o beth, gan gynnwys diwrnodau agored #FyNghymuned mewn canolfannau cymuned. Nododd yr adroddiad gwerthuso rhanbarthol bod yna ragor o gyfleoedd i wneud mwy, ac er bod yna fecanwaith yn bodoli ar gyfer cyd-gynhyrchu, nid oedd unrhyw ddealltwriaeth glir am sut y gallai weithio'n ymarferol hyd yn hyn
- Roedd y trydydd sector yn rhan graidd o ddull gweithredu prosiect **BPRh Cwm Taf Morgannwg** [Datblygu a Chyflawni Cymunedau Cydlynol a Gwydn](#). Cynhaliwyd cynllun peilot 'rhwydwaith PAWB' yn 2018/19 pan ddaeth partneriaid traws-sectoraidd a chynrychiolwyr cymunedol at ei gilydd i gydweithio a rhannu profiadau. Roedd diddordeb mewn cyfranogi'n cynyddu gyda chyfleoedd i weithio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr yn yr ardal. Yr her nawr oedd helpu cymunedau a grwpiau i glustnodi sut y gallent helpu gyda'r agenda atal a llesiant.

Cysylltu'e gweithlu a rhanddeiliaid ehangach

7.31 Roedd mwy o dystiolaeth ar gael o gysylltiad â'r gweithlu yn yr adroddiadau gwerthuso rhanbarthol. Er enghraifft:

- **Disgrifiodd BPRh Powys** ei bod wedi cysylltu'n effeithiol ag ymarferwyr cyffredinol o'r cychwyn cyntaf, a bod trafodaethau cynnar ar ddatblygiad y prosiect wedi bod yn fuddiol. Roedd yr un BPRh wedi ceisio ymgysylltu â chlinigwyr a phobl broffesiynol sy'n gwasanaethu'r ardal, ac er bod cyfleu nodau'r prosiect a rôl y gweithlu wrth ysgogi'r newid wedi bod yn dipyn o her, roedd eu dyfalbarhad wedi paratoi'r ffordd i sbarduno model gofal mwy cydlynol. Roedd y gwaith i ymgysylltu'r gweithlu wedi pylu dros y misoedd diwethaf oherwydd 'pwysau'r gaeaf', ond cydnabuwyd y byddai angen eglurder pwrpas parhaus er mwyn cynnal ymgysylltiad ac ymrwymiad y gweithlu
- Cynhaliodd **Datblygu Dull Gweithredu Ymwybodol o ACE at Blant a Phobl Ifanc** [BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg](#) gyfarfod allweddol cyn dechrau'r prosiect, gan dynnu'r rhanddeiliaid allweddol ynghyd, yn ogystal ag unigolion oedd yn gweithio'n lleol ym maes lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Roedd hyn wedi creu cyfle i goladu gwybodaeth am y gwasanaethau a'r gweithgareddau sydd eisoes

yn gweithredu yn y rhanbarth, a chlustnodi'r unigolion allweddol a ddylai chwarae rhan yn natblygiad a chyflawniad y prosiect. Mae'r broses hon wedi creu cyfle i drafod syniadau, problemau a phryderon ynghylch y prosiect. Sefydlwyd dau fwrdd rhanddeiliaid yn rhan o'r prosiect hwn, oedd yn cynnwys arbenigwyr o'r byd addysg, iechyd, sefydliadau iechyd meddwl, gwasanaethau cymdeithasol a chyrff allanol eraill. Rhoddodd hyn gyfle i randdeiliaid barhau i fynegi eu safbwyntiau ynghylch natur y prosiect a sut y dylai gael ei gyflawni, ac i godi unrhyw bryderon.

- Yn **BPRh Cwm Taf Morgannwg** roedd y tri phrosiect oedd yn cwmpasu ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflawni gwaith ymgysylltu â staff. Yn achos y prosiect [Dydd Mawrth yw Pob Dydd](#) bu rhywfaint o wrthwynebiad gan y staff o ran y diwrnodau gwaith estynedig a gweithio saith diwrnod, ac roedd proses ymgynghori drylwyr yn cael ei gyflawni gyda'r staff
- Yn **BPRh Gwent**, roedd y model [ICEBERG](#) wedi defnyddio partneriaeth sefydlog a oedd wedi bod yn gweithredu yn y rhanbarth ers sawl blwyddyn cyn cyflwyno'r CD. Roedd hyn wedi ei gwneud hi'n bosibl cysylltu'n eang â staff ar bob lefel ac ar draws sefydliadau er mwyn hyrwyddo dull cyffredin o weithredu o ran darparu gwasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd. Roedd rhaglen o gysylltu staff rheng flaen amlasiantaeth ar droed er mwyn sicrhau bod yna ddealltwriaeth o'r model ICEBERG, a chyfle i ystyried sut y gallai arferion alinio â'r amcanion.

8. Allbynnau a deilliannau sy'n dod i'r amlwg

- 8.1 Mae'r bennod hon yn pennu'r gwaelodlinau, yr allbynnau a'r deilliannau y mae prosiectau'r CD wedi eu cofnodi, a hynny'n seiliedig yn bennaf ar yr adroddiadau gwerthuso canol cyfnod rhanbarthol.

Gwaelodlinau

- 8.2 Darparodd pump o'r saith rhanbarth o leiaf rhywfaint o ddata gwaelodlin yn eu hadroddiadau canol cyfnod.
- 8.3 O'r pump a ddarparodd rywfaint o ddata gwaelodlin, dim ond un, sef BPRh Gorllewin Morgannwg, sydd wedi ymdrechu i bennu data gwaelodlin yn gyson ar draws yr holl brosiectau unigol yn eu rhanbarth. Mae'r lleill yn darparu data gwaelodlin ar gyfer rhai o'u prosiectau - er enghraifft, yn achos BPRh Gogledd Cymru, mae data gwaelodlin ar gael ar gyfer dau o'r pedwar prosiect, tra bod gan dri o'r saith prosiect ar draws BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg rhywfaint o ddata gwaelodlin.
- 8.4 Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau canol cyfnod yn clustnodi'r angen am gasglu a phennu data gwaelodlin ar gyfer eu prosiectau, gyda rhai yn pennu hyn fel blaenoriaeth i'w chyflawni nawr. Mae sawl un yn cydnabod bod yna fylchau pendant yn y gwaelodlinau sydd ar gael er mwyn mesur deilliannau a pherfformiad.
- 8.5 Mae natur y data gwaelodlin a bennwyd yn yr adroddiadau canol cyfnod yn amrywio. Mae'n cynnwys data meintiol fel y data sy'n cael ei godi o ffynonellau cyhoeddedig, a data ansoddol a gasglwyd gan werthuswyr neu dimau prosiect er mwyn pwysu a mesur canfyddiadau o ran sut roedd pethau'n sefyll cyn yr ymyrraeth.
- 8.6 Mewn ambell i achos, mae'r prosiectau wedi bod yn gallu pennu targedau perfformiad sy'n alinio'n uniongyrchol â'r data gwaelodlin sydd ar gael, a bydd hyn yn ei gwneud hi'n weddol rwydd monitro'r newid dros amser. Fodd bynnag, mae angen i brosiectau sicrhau bod data gwaelodlin y prosiectau (a'u hallbwn wedyn) yn canolbwyntio ar yr effaith y disgwylir i'r ymyrraeth ei chael.
- 8.7 Mae Ffigur 8.1 yn pennu'r mathau o ddata gwaelodlin sy'n bodoli ar draws y prosiectau a ariennir:

Ffigur 8.1: Esiamlau o'r data gwaelodlin a bennwyd yn yr adroddiadau canol cyfnod

Ar draws **Caerdydd a Bro Morgannwg**:

- Cyflawnodd prosiect y [Model Cyflymu'r Clwstwr](#) arolwg o staff ymarferwyr cyffredinol yn 2019 er mwyn darparu data gwaelodlin ar foddhad pobl â'u swyddi, a chasglu data gwaelodlin ar gyfeiriadau ac apwyntiadau cleifion
- Mae gan y prosiect [Un Pwynt Mynediad ar gyfer Brysbennu gan Ymarferwyr Cyffredinol](#) fesuriadau gwaelodlin ar gyfer practisau ymarferwyr cyffredinol fel apwyntiadau ymarferwyr cyffredinol a gollwyd, ac apwyntiadau amhriodol gydag ymarferwyr cyffredinol

Ar draws **Gogledd Cymru**:

- Mae'r prosiect [Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Dwys ar gyfer Plant a Phobl Ifanc](#) yn pennu data ystadegol gwaelodlin hanesyddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar lefel awdurdod lleol a godwyd o StatsWales, a naratif ansoddol ar dueddiadau dros amser
- Cymeradwywyd partneriaeth [Gogledd Cymru Law yn Llaw: At Wasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu](#) ymarferion mapio i ddarparu data gwaelodlin ansoddol lefel uchel oedd yn cwmpasu agweddau fel graddfa'r integreiddiad rhwng timau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion; cost gwasanaethau preswyl a lefelau defnydd o'r archwiliadau iechyd blynyddol. Cyfeirir at ddata gwaelodlin fel lleoliadau y tu allan i'r sir er mwyn caniatáu ar gyfer meincnodi at y dyfodol

Ar draws **Powys**:

- Mae rhai targedau prosiect wedi cael eu halinio'n uniongyrchol â'r data gwaelodlin e.e. i leihau lleoliadau'r sir i 70 neu lai o waelodlin o 90
- Bydd y ffrwd gwaith [Targedu Gwaith Atal - Hybu Talebau Cychwyn Iach](#) yn dechrau trwy adolygu'r data ar y sefyllfa gwaelodlin e.e. sawl un sy'n gymwys i hawlio talebau Cychwyn Iach, diweddariadau cyfredol a rhwystrau i ddefnydd

Ar draws **Gorllewin Morgannwg**:

- Mae'r prosiect [Ein Cymdogaeth](#) yn pennu nifer o fesurau sy'n alinio'n uniongyrchol â'r sefyllfa gwaelodlin. Er enghraifft, mae targedau fel lleihau nifer y derbyniadau newydd i blant sy'n derbyn gofal yn ymwneud â'r data gwaelodlin a bennwyd yn yr adroddiad canol cyfnod.

Allbynnau

- 8.8 Yn nhermau'r allbynnau a gyflawnwyd hyn yn hyn, fe drown i ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at bedwar allbwn disgwylidig y Gronfa Drawsnewid a bennwyd ym Model Rhesymeg y Theori Newid ym mhennod pedwar.

Profi a chyflawni modelau gweladwy, arloesol a rhanbarthol

- 8.9 Mae cyfanswm o 30 'prosiect' wedi cael eu hariannu ar draws saith BPRh²⁹. Yn ôl y wybodaeth a bennwyd yn eu hadroddiadau canol cyfnod, mae 22 o brosiectau'n weithredol, er nad oedd nifer o'r rhain wedi mynd yn 'fyw' tan yn ddiweddar adeg paratoi'r adroddiadau. Er enghraifft:
- 'bydd sawl un o'r gwasanaethau newydd yn 'mynd yn fyw' yn ystod chwarter cyntaf 2020.'
- 8.10 Y prosiectau sy'n ehangu ar ddulliau a gwasanaethau sy'n bodoli eisoes yw'r prosiectau sydd wedi bod yn weithredol am gyfnod hirach ar y cyfan.
- 8.11 Ar draws yr wyth prosiect sy'n weddill, roedd hi naill ai'n aneglur a oedd y prosiectau'n hollol weithredol, neu roedd yr adroddiadau canol cyfnod yn awgrymu nad oeddent ar gael eto. Yn y mwyafrif o'r achosion hyn, mae'r ffocws hyd yn hyn wedi bod ar recriwtio staff a sefydlu gwasanaethau. Yn achos un prosiect sy'n gysylltiedig â thechnoleg, nodwyd bod y dechnoleg yn ei lle yn barod i'w chyflwyno a'i chyflawni. Mewn achos arall, mae'n debyg bod y prosiect ar gael yn rhannol, ar y sail na ddarparwyd unrhyw wybodaeth ar gyfer y rhan fwyaf o'r ffrydiau gwaith ar draws y rhanbarth adeg yr adolygiad canol cyfnod.
- 8.12 Mae llawer o adroddiadau canol cyfnod yn tynnu sylw at yr oedi cyn bod prosiectau'n dod yn hollol weithredol. Byddai'r rhain yn cynnwys prosiectau sy'n mabwysiadu dull gam wrth gam i weithredu o ran bod yna fwriad iddynt gael eu cyflawni ar draws nifer gyfyngedig o leoliadau neu glystyrau i gychwyn cyn iddynt gael eu ymestyn gam wrth gam dros oes y rhaglen.

²⁹ O gymryd holl ganghennau'r gweithgareddau ar draws BPRh Powys fel un prosiect a chynnwys Prosiect Cydweithio dros Ofal yr Arennau.

- 8.13 Mae gan rai o'r prosiectau sydd ar droed hunaniaethau mwy diffiniedig a gweladwy nag eraill, ac o ganlyniad gallai fod yn haws eu cyfleu, eu mabwysiadu a'u datblygu ar draws ardaloedd eraill yn y dyfodol. Mae'r rhain yn dueddol o fod yn brosiectau â modelau gweithredu a phrosesau sydd wedi ei dogfennu'n dda ac sydd â 'brand' clir. O ran eu natur, mae prosiectau sydd wedi esblygu o ddulliau sy'n bodoli eisoes ac sydd wedi eu sefydlu'n gadarnach yn narpariaeth y brif ffrwd yn fwy ymestynnol i'w cyflwyno fel modelau gweladwy a gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau sydd wedi defnyddio'r cyllid i gynyddu capasiti'r gweithlu, yn hytrach na chreu gwasanaeth newydd ar y cyfryw.

Modelau a gafodd eu datblygu a'u hehangu yn gynt nag y byddent heb y cyllid

- 8.14 Mae'r adborth a gasglwyd gan ymatebwyr yn awgrymu bod CD wedi bod yn allweddol wrth alluogi prosiectau i gael eu datblygu a'u gweithredu'n gynt nag a fyddai wedi yn bosibl fel arall. Yn wir, mae canfyddiadau'r gwaith maes yn awgrymu'n gryf na fyddai'r mwyafrif helaeth o'r prosiectau wedi cael eu datblygu o gwbl yn nifyg cyllid pwrpasol wedi ei neilltuo o ystyried y pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn ôl un adroddiad gwerthuso canol cyfnod:

'Hawliodd un rhanddeiliad lefel prosiect, heblaw am y buddsoddiad yn eu gwasanaeth, y byddai wedi cymryd 10 mlynedd iddynt drawsnewid eu gwasanaeth fel hyn yn fwy na thebyg oherwydd diffyg capasiti'³⁰.

- 8.15 Mae ambell i fodel (e.e. [Cyflymu'r Clwstwr](#) Caerdydd a Bro Morgannwg a [System-gyfan y Clwstwr](#) Gorllewin Morgannwg) wedi eu dylunio i fod yn un cynllun peilot mewn un ardal, a'u datblygu ar draws y rhanbarth yn ystod oes y CD wedyn. Mae hyn yn dipyn o her, nid yn unig oherwydd yr amserlenni cyfyngedig i gyflwyno modelau newydd ar draws sawl ardal, ond hefyd am fod yn rhaid i gyflwyniad y modelau ddigwydd cyn y gellir cyflwyno unrhyw dystiolaeth o lwyddiant neu cyn bod y peilot cychwynnol ar gael. Cododd adroddiad un gwerthusiad canol cyfnod hyn fel problem:

'Y gobaith yw y gellir cyflwyno'r prosiect ar draws yr wyth clwstwr arall, ond dywedodd y rhanddeiliaid bod angen y data i brofi llwyddiant y model er mwyn gwneud hynny'³¹.

Y dystiolaeth gadarn sydd ar gael i ddangos pa fodelau sy'n gweithio (a pha rai sydd ddim) a'r gwahaniaeth a gyflawnwyd

³⁰ Adroddiad Gwerthuso Canol Cyfnod y Gronfa Drawsnewid ar gyfer Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg. t.18

³¹ Gwerthusiad Canol Cyfnod BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg (heb ei gyhoeddi) t.30.

- 8.16 Nid oes unrhyw dystiolaeth yn yr adroddiadau canol cyfnod sy'n caniatáu i ni ddod i safbwynt gwybodus o ran pa fodelau sy'n gweithio a pha rai sydd ddim ar y cam yma yn y rhaglen. Mae'r ffaith fod llawer o brosiectau wedi dechrau'n hwyrach na'r disgwyl yn golygu bod llawer ohonynt wedi bod yn weithredol am gyfnod byr yn unig, ac nid oes yna ddata dibynadwy felly i ddangos y gwahaniaeth cadarnhaol y maent yn eu gwneud i'r gwasanaeth ac yn uniongyrchol i'r cleifion. Mewn achosion eraill, lle mae'r prosiectau wedi bod yn weithredol am gyfnod hwy, mae'r diffyg data gwaelodlin cadarn yn ei gwneud yn anodd i BPRh gasglu tystiolaeth gadarn o'r deilliannau y mae prosiectau'n eu cyflawni.
- 8.17 Wedi dweud hynny, mae'r dystiolaeth gychwynnol yma'n bwrw goleuni ar pam nad yw nifer fechan o'r dulliau a gynigiwyd wedi parhau yn ôl y bwriad, a pham nad ydynt yn gweithredu yn unol â'r disgwyl. Byddem yn tynnu sylw at yr esiamplau canlynol lle mae'r dulliau o weithredu a gynigiwyd wedi bod yn rhy uchelgeisiol o safbwynt ariannol:
- mae elfennau o brosiect [Dydd Mawrth yw Pob Dydd](#) Cwm Taf Morgannwg, fel y gwasanaeth Gofal Nos a'r cyfleuster Camu Fyny-Camu Lawr yn un o gartrefi gofal yr awdurdod lleol, yn cael eu hadolygu am yr ystyriwyd bod y model gwreiddiol yn rhy uchelgeisiol
 - adolygwyd elfen o brosiect [Presgripsiynau Cymdeithasol Di-dor](#) Caerdydd a Bro Morgannwg ar y sail bod y swyddogaeth Sgwrsbot arfaethedig i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn rhy ddrud i'w ariannu o fewn y prosiect.

Clustnodi modelau y gellir eu cynnal a'u datblygu yn y dyfodol

- 8.18 Nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael hyd yn hyn i ganiatáu i ni ddod i safbwynt gwybodus o ran a ellir cynnal y modelau a ariennir trwy'r CD a'u datblygu pan ddaw'r cyllid i ben. Er gwaethaf hyn, ar y cyfan mae'r adroddiadau canol cyfnod yn ategu'r ffaith fod prosiectau'n anelu at gynaliadwyedd ar ôl i'r cyllid ddod i ben, a dangos eu gwerth i'r BPRh yn yr hirdymor. Er enghraifft, mae'r prosiect [Cydwethio dros Ofal yr Arennau](#) yn pennu deiliant lefel prosiect o greu 'model cyflawni rhanbarthol cynaliadwy ar draws Cymru'. Roedd yna gydnabyddiaeth helaeth y bydd angen tystiolaeth gadarn er mwyn i brosiectau ddadlau'r achos dros barhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben o ystyried yr hinsawdd ariannol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddo, ac y bydd hyn yn ofyniad ymestynnol ond allweddol ar gyfer gwerthusiadau lefel prosiect. Mae rhai gwerthusiadau'n amlygu'r anawsterau y mae prosiectau'n debygol o'u hwynebu ar ôl i'r cyllid ddod i ben o ystyried y bydd y rhan fwyaf yn chwilio am gyllid o gyllidebau iechyd a gofal craidd, ac y 'byddai angen gwyro arian o waith hanfodol arall sy'n cael ei wneud yn yr ardal'.

- 8.19 Yn eu gwerthusiad canol cyfnod a dros gwrs y gwaith maes, mae ambell i brosiect yn pwysleisio'r angen am brofi eu gwerth ariannol i'r BPRh yn yr hirdymor. Er enghraifft, mae prosiect [Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc](#) Gogledd Cymru'n datgan fod yn rhaid i'r prosiect ddangos arbedion ariannol o wasanaethau na fydd eu hangen mwyach o ganlyniad i'r project wrthbwysio lefel y buddsoddiad a wnaed trwy'r CD.
- 8.20 Yn achos [Model Cyflymu'r Clwstwr](#) Caerdydd a Bro Morgannwg, mae'r adroddiad canol cyfnod yn datgan 'nad oes trafodaeth go iawn wedi bod am gynaliadwyedd ariannol hyd yn hyn' er taw'r cynllun yw, 'os gallant ddangos tystiolaeth o'r manteision a ddisgwylir o ran cost, yna'r gobaith yw y bydd hynny'n galluogi iddynt wneud arbedion sy'n rhyddhau cyllid craidd ar gyfer cynaliadwyedd tymor hwy'³². Yn yr achos hwn, disgwylir i'r prosiect wireddu manteision tebyg i'r rhai a gyflawnodd model Cymunedau Tosturiol Frome, a gofnododd ostyngiad o 21 y cant mewn costau derbyniadau brys dros gyfnod o dair blynedd.
- 8.21 Mae rhai prosiectau'n rhagweld y byddant yn cyflawni cynaliadwyedd ar ôl i'r cyllid ddod i'r ben trwy symud mwy o alw i gyfeiriad gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae hynny'n arbennig o wir yn achos prosiectau sy'n canolbwyntio ar gael pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles, yn ogystal â modelau gofal yn y gymuned ac atebion sy'n cynnwys rhoi mwy o rôl i wirfoddolwyr fel ffrindiau a chymdogion. Disgwylir i'r dulliau yma o weithredu leihau'r galw am wasanaethau iechyd sylfaenol a brys. Mewn achosion eraill, mae cynlluniau i gynnal modelau ar ôl i'r cyllid ddod i ben yn cynnwys sefydliadau cymunedol a mentrau cymdeithasol yn chwarae rhan amlycach wrth ddarparu gwasanaethau, am eu bod yn gallu cyrchu ffynonellau cyllid nad ydynt ar gael i'r gwasanaethau statudol, yn ogystal â thynnu ar fewnbwn aelodau o'r gymuned a gwirfoddolwyr. Er enghraifft:
- Mae prosiect [System-gyfan Clwstwr](#) Gorllewin Morgannwg yn rhagweld y bydd yn sicrhau cynaliadwyedd ar ôl i'r cyllid ddod i ben trwy ddarparu atebion sy'n seiliedig ar fentrau cymunedol a chymdeithasol, o ystyried ei fod yn anelu sefydlu mentrau cymdeithasol yn rhan o'r model.
 - Mae prosiect [Creu Cysylltiadau i Bawb](#) Gorllewin Cymru yn disgwyl i'r trydydd sector a sefydliadau cymunedol gymryd perchnogaeth o'r model er mwyn cyflawni cynaliadwyedd ar ôl i'r cyllid ddod i ben
 - Mae prosiect [Dull Gweithredu Ymwybodol o ACE er mwyn creu Plant a Phobl Ifanc Gwydn](#) Caerdydd a Bro Morgannwg yn rhagweld y bydd yn sicrhau cynaliadwyedd ar

³² Gwerthusiad Canol Cyfnod BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg (heb ei gyhoeddi) t.43.

ôl i'r cyllid ddod i ben yn rhannol trwy grwpiau cymorth i gymheiriaid mewn ysgolion a chanolfannau eraill, a gaiff eu cynnal gan y gwirfoddolwyr hyfforddedig sy'n cael eu recriwtio. Mae ei adroddiad gwerthuso canol cyfnod yn datgan taw 'mater i'r partneriaid fydd clustnodi adnoddau i brif-ffrydio hyn fel model 'buddsoddi i arbed' cost-effeithiol'³³.

- 8.22 Canfu ein gwaith maes amrywiaeth o safbwyntiau ymysg y rhanddeiliaid o ran i ba raddau y mae pa fodelau'n debygol o gael eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben, er bod yna gydnabyddiaeth helaeth ei bod hi'n rhy gynnar dod i safbwynt gwybodus am y peth. Mynegwyd rhywfaint o bryder am greu cynifer o rolau na fyddai modd eu cynnal yn yr hirdymor, yn enwedig o ystyried ffocws y Nod Pedwarplyg ar ddatblygu gweithlu cynaliadwy.

Deilliannau

- 8.23 Yn nhermau gwneud cynnydd yn erbyn deilliannau'r CD, fe drown i ystyried y tri deilliant canolradd disgwylledig a bennwyd ym Model Rhesymeg y Theori Newid ym mhennod pedwar. Cyn gwneud hyn, fe ystyriwn ni'r dystiolaeth a bennwyd yn yr adroddiadau gwerthuso canol cyfnod mewn perthynas â'r deilliannau sy'n cael eu cyflawni ar lefel prosiect.

Deilliannau lefel prosiect

- 8.24 Mae yna gonsensws eang ei bod hi'n rhy gynnar i allu dangos tystiolaeth o'r gwahaniaeth y mae prosiectau'n ei gwneud, ac i ba raddau y maent yn cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd, ac eithrio'r rhai sy'n dueddol o fod yn gysylltiedig â phrosesau, fel newidiadau i systemau sefydliadol a dulliau o weithio. Mae'r ffaith y daeth cadarnhad o'r cyllid yn hwyrach na'r disgwyl, a'r oedi a brofwyd wrth symud o ddylunio i gyflawni prosiectau i gyfrif am ran helaeth o hyn.
- 8.25 Nid yw clustnodi a mesur y deilliannau strategol y gellir disgwyl i brosiectau eu cyflawni yn dasg rwydd, er bod y ceisiadau am gyllid wedi pennu'r rhain ar lefel eang. Mae'r holl ranbarthau wedi ystyried ac adolygu eu Theori Newid ar gyfer ymyraethau sy'n helpu i glustnodi deilliannau prosiectau, ac mae rhai wedi mynd â hyn gam ymhellach trwy sefydlu fframwaith gwerthuso.
- 8.26 Mae adolygiad o'r adroddiadau canol cyfnod yn awgrymu bod pedwar rhanbarth (Caerdydd a Bro Morgannwg, Gwent, Gorllewin Morgannwg a Gorllewin Cymru) wedi gweithio i ddatblygu set briodol o ddeilliannau ar gyfer y rhan fwyaf o'u prosiectau, er bod yna lai o eglurder o ran

³³ Gwerthusiad Canol Cyfnod BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg (heb ei gyhoeddi) t.25..

y deilliannau a ddefnyddir i dystiolaethu eu cyflawniad yn y rhan fwyaf o achosion. Er enghraifft:

- Mae Caerdydd a Bro Morgannwg wedi clustnodi nifer fechan o ddeilliannau lefel uchel (rhyw 4-6 i bob prosiect) ac mae'n disgwyl adrodd ar y rhain trwy set gyson o fesurau perfformiad allweddol.
- Mae Gorllewin Morgannwg wedi clustnodi rhyw 3-5 o brif ddeilliannau ar gyfer ei ddau brosiect, ond mae angen datblygu metrics ar gyfer adrodd ar y rhain. O ran ei [Ddull System-gyfan y Clwstwr](#) y deilliannau a ragwelir yw: a. cynnydd yn nifer y cleifion sy'n cael eu gweld gan dimau amlddisgyblaeth, wedi ei fesur yn fisol trwy gofnodion practisau; b. cynnydd/gwelliant mewn hunanreolaeth/gwybodaeth a boddhad, dulliau mesur i'w diffinio; c. cynnydd mewn gwasanaethau yn y gymuned, dulliau mesur i'w diffinio ac ch. gostyngiad mewn cyfeiriadau at ofal sylfaenol, dulliau mesur i'w diffinio

Hwyrach taw'r prosiect [Adre'n Gyntaf](#) yw'r mwyaf datblygedig o brosiectau Gwent yn nhermau bod â set glir o fesuriadau o ddeilliannau. Y dangosyddion, sydd efallai'n debycach i fesuriadau o berfformiad, yw:

- Nifer y cleifion a gyfeiriwyd at y gwasanaeth
- Nifer y cleifion a welwyd o fewn awr i'r cyfeiriad
- Nifer y cleifion a ryddhawyd
- Nifer y cleifion a ryddhawyd cyn pen 24 awr
- Nifer y cleifion na ryddhawyd
- Nifer y bobl na ryddhawyd yn ôl y bwriad, a'r rhesymau am hynny
- Y canran o gleifion oedd yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth wrth eu rhyddhau
- Effaith Adre'n Gyntaf ar arferion gwaith staff wardiau

Yn nhermau deilliannau, mae'r rhain yn llai penodol ac yn gofyn am ddatblygiad pellach, ond maent yn cynnwys:

- Adborth gan ddefnyddwyr a staff iechyd
- Statws risg dyddiol safleoedd ysbyty
- Lleihad mewn derbyniadau i wardiau hirdymor.

- 8.27 Ar draws y rhanbarthau eraill adeg paratoi'r adroddiadau canol cyfnod, nododd prosiectau eu bod yn bwriadu blaenoriaethu datblygiad fframweithiau gwerthuso a fyddai'n cynnwys pennu mesuriadau o ddeilliannau a dulliau o gasglu data adrodd.
- 8.28 Mewn un rhanbarth, mae'r ffocws wedi bod ar glustnodi mesuriadau o berfformiad a fydd yn rhoi darlun o'r cynnydd a wnaed (e.e. nifer y cleifion a gynorthwywyd) ond nid o reidrwydd y gwahaniaeth a wnaed i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwyddi draw. Mae'r un peth yn wir am Gaerdydd a Bro Morgannwg, er enghraifft:

Model Cyflymu'r Clwstwr, Caerdydd a Bro Morgannwg

Mae'r hyb rhyddhau yn seiliedig ar glwstwr, sy'n un o bum cydran allweddol y prosiect yma, wedi bod yn hollol weithredol ers Hydref 2019. Bu angen gohirio sefydlu'r hyb oherwydd yr angen i ddatblygu model gweithredu ac anawsterau recriwtio. Mae'r hyb yn gweithredu fel canolfan gydlynar ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty ac a all fod angen cymorth gan wasanaethau cymunedol statudol ac anstatudol i'w cynorthwyo i adfer a chynnal eu hannibyniaeth gartref. Mae'r hyb rhyddhau yn cwmpasu ardaloedd 11 o bractisau ymarferwyr cyffredinol. Mae'n cael ei weithredu gan ddau swyddog sy'n mynd ati'n rhagweithiol i gysylltu â chleifion sydd wedi cael eu rhyddhau cyn pen 72 awr ar ôl iddynt ddod allan o'r ysbyty gyda'r nod o'u cysylltu â chymorth statudol, y trydydd sector neu gymunedol os oes angen. Mae'r adborth gan gleifion a staff practisau'r ymarferwyr cyffredinol wedi bod yn gadarnhaol. Mae data am allbwn yn cael ei gasglu a'i adrodd, e.e. ar nifer y galwadau a wnaed a nifer y cleifion y cysylltwyd â nhw ac a gyfeiriwyd ymlaen, ond mae angen cyflawni gwaith pellach i sicrhau bod yr holl ddeilliannau perthnasol o ran cleifion yn cael eu cofnodi.

- 8.29 Dros gwrs gwaith maes OB3, tynnodd y prosiectau sylw at ddwy sialens oedd yn ymwneud â thystiolaethu deilliannau'r prosiectau. Yn gyntaf, mae prosiectau'n ei chael hi'n anodd dewis mesurau a fydd yn tystiolaethu eu bod wedi cyflawni deilliannau'r prosiectau o ran y ffaith y bydd y dangosyddion sy'n cael eu defnyddio a'u hadrodd ar draws y sectorau iechyd a gofal yn darparu rhywfaint yn unig o'r dystiolaeth sydd ei hangen. Yn ail, mae'r prosiectau'n ymwybodol y caiff ffactorau allanol ac ymyraethau eraill effaith ar y dangosyddion hyn, gan ei gwneud yn amhosibl priodoli unrhyw newidiadau'n unswydd i'r CD.

Deilliannau lefel rhaglen

- 8.30 Mae Model Rhesymeg Theori Newid y Gronfa Drawsnewid yn pennu tri deilliant canolradd lefel rhaglen, sef:
- parhad modelau CD effeithiol ar ôl i'r cyfnod ariannu ddod i ben
 - modelau'r CD yn cymryd lle dulliau gweithredu sydd wedi cael eu terfynu ac yn cynhyrchu manteision darbodaeth o ran cost
 - datblygu a mabwysiadu modelau CD effeithiol yn ehangach, gan gynnwys ar draws rhanbarthau eraill.
- 8.31 Rhoddir ystyriaeth fanwl i gyflawni'r deilliannau hyn yn yr adroddiad gwerthuso terfynol lefel rhaglen. Hyd yn hyn, mae yna ryw dystiolaeth y gellir cynnal modelau effeithiol y CD ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Dros gwrs ein gwaith maes, nododd dau brosiect ([Gwasanaethau Atal Ewch â Fi Adref](#) ac [Ewch â Fi Adref a Mwy](#), y naill a'r llall wedi eu cyflawni gan Gaerdydd a Bro Morgannwg) eu bod eisoes wedi diogelu gwerth deuddeg mis o gyllid ar ôl i gyllid y rhaglen ddod i ben. Bu modd i'r esiampl yma baratoi achos busnes wedi ei ategu gan dystiolaeth, gan gynnwys dadansoddiad o gost/buddion am fod y prosiect wedi adeiladu ar gynllun sy'n bodoli eisoes ac am fod yr arbenigedd a'r set sgiliau angenrheidiol yn bodoli o fewn y prosiect i gyflawni'r dadansoddiad angenrheidiol. Fodd bynnag, roedd yr angen i ddangos achos busnes cadarn yn amlwg i bob prosiect ar gyfer y dyfodol: 'maen nhw am gael ffigurau absoliwt ar ble, sut, pam a'r arbedion cost'.
- 8.32 Dywedodd y BPRh y bydd dangos effaith y CD a'r gwahaniaeth y mae'n ei chael yn parhau i fod yn ymestynnol rhwng nawr a diwedd y cyllid oherwydd:
- yr amserlenni tynn sy'n dal i fod mewn grym ar gyfer cyflawniad yn golygu taw cyflawni allbynnau fydd y flaenoriaeth o hyd
 - nad oes gwaelodlinau cyn dechrau prosiectau, er bod gwerthuswyr allanol bellach yn gweithio gyda'r rhan fwyaf o brosiectau i ddatblygu fframweithiau addas
 - y bydd priodoli'r gwasanaeth a wnaed yn anodd oherwydd y nifer helaeth o wahanol ffynonellau cyllid sy'n 'cael eu defnyddio yn y gofod yma'
 - y bydd y gwir effaith ar y 'materion mawr' fel niferoedd y derbyniadau i'r ysbyty neu ostyngiad mewn hyd arosiadau mewn ysbytai, ac yn enwedig o'r modelau ataliol, yn cymryd mwy o amser i'w gwireddu (10 mlynedd +)

- 8.33 Nid oes unrhyw dystiolaeth hyd yn hyn bod unrhyw fodelau CD yn cael eu mabwysiadu y tu hwnt i'r rhanbarth lle mae'r peilot yn cael ei gynnal. Yr eithriad i hyn fyddai'r prosiect [Cydwethio dros Ofal yr Arennau](#) a ddyluniwyd fel prosiect Cymru-gyfan o'r cychwyn cyntaf, ac a oedd eisoes wedi bod yn destun cynllun peilot mewn dau ranbarth trwy'r Gronfa Effeithlonrwydd trwy Dechnoleg.
- 8.34 Awgrymodd ymatebwyr y BPRh y byddai'r CD yn gallu tystiolaethu i'r effaith ar gapasiti ac arferion proffesiynol erbyn diwedd cyfnod y gronfa - gyda staff yn cael eu hyfforddi a sgiliau newydd yn cael eu cynnal i ategu trawsnewid yn y dyfodol. Gellir disgwyl hefyd y bydd y CD wedi cael effaith ar systemau a diwylliant sefydliadol, ond mae yna gwestiwn ynghylch a ellir cynnal hyn ar ôl i'r cyllid ddod i ben.

Manteision o ran cost

- 8.35 Cyfyngedig iawn yw'r dystiolaeth gynnar am gyflawni elw ar fuddsoddiad neu arbedion ariannol o gyflawni prosiectau'r CD hyd yn hyn.
- 8.36 Mae'r mwyafrif helaeth o brosiectau'n disgwyl bod yn gallu gwireddu arbedion o ran cost, er bod i ba raddau y mae'r rhain wedi cael eu mesur yn amrywio o un prosiect i'r llall. Er enghraifft, mae prosiect [Ewch â Fy Adre](#) Caerdydd a Bro Morgannwg wedi cofnodi ei fod eisoes yn creu arbedion ariannol trwy leihau hyd arhosiadau mewn ysbytai, ond nid yw gwerth hyn wedi caei ei gyfrif hyd yn hyn.
- 8.37 Mae'r prosiectau sy'n darparu amcangyfrif o'r arbedion cost disgwylledig oherwydd eu cyflawniad yn cynnwys:
- prosiect [Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Dwys ar gyfer Plant a Phobl Ifanc](#) Gogledd Cymru sy'n anelu at ddarparu arbedion cost trwy wro'r galw a'r costau sy'n gysylltiedig â darpariaeth ddrud y tu allan i'r sir/gwlad (£4k yr wythnos y plentyn ar gyfartaledd) a derbyniadau i ysbytai – llai o arosiadau ac achosion o fod yn y ddalfa gyda'r heddlu dros nos (£3k y noson).
 - y prosiect [Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol](#) Gogledd Cymru sydd am ddarparu arbedion cost trwy symud gofal yn agosach at adref, oddi wrth y sector gofal ysbyty aciwt, a helpu i atal derbyniadau diangen i gartrefi gofal. Mae'n amcangyfrif y bydd y prosiect yn cyflawni gostyngiad o 5% mewn defnydd gwelyau, sydd gyfwerth ag arbedion cost o £2.7 miliwn y flwyddyn

- mae prosiect [Cymunedau Cydlynol Cadarn](#) Cwm Taf Morgannwg yn disgwyl elw o 4:1 ar fuddsoddiad, yn seiliedig ar y gwaith gwerthuso blaenorol a gyflawnwyd gan Brifysgol Abertawe.

9. Casgliadau ac argymhellion

9.1 Mae'r casgliadau a'r argymhellion a gynigir yma'n seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad o'r gwaith maes a'r gwaith dadansoddi data a gyflawnwyd hyd canol Mawrth 2020. Mae hi'n ddilys ac yn briodol bod y canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn y cyd-destun hwnnw, ac ar sail yr adeg hwnnw, am fod gwersi pwysig a diddorol wedi codi o'r peth. Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod bod y coronafeirws Covid-19 wedi ychwanegu pwysau digynsail at y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a bod hynny'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyllid a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Er ein bod ni'n parhau i gyflwyno ein casgliadau a'n hargymhellion yma, rydyn ni'n deall y cânt eu hystyried mewn cyd-destun hollol wahanol i'r cyd-destun adeg eu llunio. Rydyn ni wedi ceisio pennu rhai o'r argymhellion hyn gan gymryd cyd-destun newydd argyfwng iechyd cyhoeddus y coronafeirws Covid-19 i ystyriaeth, wrth gydnabod bod yr amgylchiadau hyn yn ymestynnol iawn a'u bod yn newid yn gyflym, sy'n ei gwneud hi'n anodd gwneud rhagdybiaethau ynghylch dyfodol cyflawniad y CD.

Dyluniad y Rhaglen

9.2 Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais hirdymor i drawsnewid y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Cymru, ac mae hyn wedi cael ei fynegi'n glir yn ei strategaeth 'Cymru Iachach' (CI). Mae'r Gronfa Drawsnewid (CD) sydd â'r nod o gynorthwyo'r trawsnewid yma, wedi cael ei datblygu mewn cyd-destun polisi cefnogol iawn, ac mae'n ymateb yn uniongyrchol i'r blaenoriaethau ar gyfer newid a bennwyd mewn dau adolygiad allweddol, sef Adolygiad OECD a'r Adolygiad Seneddol. Wrth ddylunio'r CD, mae'r rhai sy'n gyfrifol am lunio polisi wedi cofleidio'r egwyddorion allweddol sydd wrth wraidd y CI, a'r blaenoriaethau a bennwyd yn yr adolygiadau hyn, gan gynnwys y Nodau Pedwarplyg, y deg Egwyddor Cynllunio a Gofal Iechyd Darbodus. Yn ogystal, mae'r Gronfa wedi cael ei dylunio i fabwysiadu'r amcanion a bennwyd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

9.3 Fodd bynnag, yn ei ddull o weithredu i ddyrannu cyllid trwy'r CD, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull llai cyfarwyddol o fynd ati nag yr oedd Adolygiad OECD yn ei awgrymu, ac mae hyn wedi golygu bod yr BPRh yn dylunio cynigion prosiect trwy ddull sy'n fwy 'o'r gwaelod i fyny'. Er y gallai hynny fod yn rhesymegol wrth sicrhau bod prosiectau'n mynd i'r afael â blaenoriaethau rhanbarthol, mae hi wedi golygu bod prosiectau â nodau ac amcanion tebyg yn cael gwahanol hunaniaethau a modelau gweithredu hefyd, a fydd yn codi sialensiau o ran datblygu ymyraethau effeithiol mewn rhanbarthau eraill. At hynny, mae hi'n nodedig bod y rhesymeg sylfaenol a sylfaen y dystiolaeth ar gyfer dull 'arian iro' y CD yn cael

ei gwestiynu'n ddigon cadarn ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, â safbwynt y gallai canolbwyntio'r cyllid ar lai o fodelau sydd wedi profi eu gwerth, fod yn fwy effeithiol wrth sbarduno'r gwir drawsnewid y mae'r sector yn ysu amdano.

- 9.4 At hynny, o ran ei ddulliau o ddyrannu cyllid, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi 30 o brosiectau ar draws y rhanbarthau, sy'n uwch o lawer na'r nifer a awgrymodd CI, a awgrymodd y dylai pob rhanbarth ddatblygu dau brosiect strategol yr un. Er y bwriedir i lawer o'r prosiectau hyn gyfrannu at raglenni gwaith strategol mwy a strategaethau rhanbarthol, mae yna risg na fydd ariannu nifer fawr o brosiectau llai yn cyflawni lefel strategol y newid a ragwelwyd ar gyfer y CD. Am hynny, mae angen i'r BPRh sicrhau eu bod yn gallu dangos, ar ffurf tystiolaeth werthuso gadarn, y cyfraniad a wnaeth yr holl brosiectau a ariennir tuag at eu deilliannau rhanbarthol strategol.
- 9.5 Mae'r Gronfa Drawsnewid yn un o sawl ffrwd ariannu y mae BPRh yn eu defnyddio yn eu hymdrechion i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae yna achos cadarn o blaid dull system-eang o weithredu mewn perthynas ag ariannu yn y dyfodol er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ac adrodd, ac eglurhau'r nodau strategol cyffredinol y mae'r cyllid yn ceisio eu cyflawni.
- 9.6 Gwnaeth amseriad y galw am geisiadau hi'n ymestynnol i'r rhan fwyaf o'r BPRh ddatblygu cynigion, ac er y croesawyd y dull hyblyg ac agored o weithredu ar y cychwyn, mae'r dull o fynd ati i reoli'r CD wedi bod yn gynyddol gyfarwyddol. Gyda'r dyddiad a bennwyd ar gyfer cyflawni prosiectau cwta flwyddyn i ffwrdd, mae'r BPRh yn galw am lai o ofynion monitro ac adrodd er mwyn canolbwyntio ar gyflawniad gweithredol mewn ymdrech i gyflawni cymaint â phosibl gyda'r cyllid. Fodd bynnag, gwnaed y gofynion adrodd a gwerthuso rhanbarthol yn glir o'r cychwyn cyntaf yn rhan o'r broses ymgeisio, a dylai'r prosesau angenrheidiol i sicrhau bod y wybodaeth yma ar gael fod wedi cael eu datblygu yn ystod y cyfnod cynnar. Os nad yw gwybodaeth o'r fath ar gael, mae yna risg y bydd yna ddiffyg truenus o dystiolaeth gadarn am effaith y CD a'r gwahaniaeth a wnaed.

Cyflawni'r rhaglen

- 9.7 Mae'r rhan fwyaf o'r modelau sy'n cael eu hariannu gan y CD yn rhai newydd a gallent fod yn drawsnewidiol i'r rhanbarth o dan sylw, ond mae yna themâu sy'n gorgyffwrdd a dulliau gweithredu tebyg. Mae yna risg o ddyblygu ymdrechion - gyda sawl dull o weithredu sydd ychydig bach yn wahanol i'w gilydd yn cael eu datblygu mewn amryw o ranbarthau heb unrhyw ymdrech i rannu'r hyn a ddysgwyd. Yn aml, mae gwahanol enwau a therminoleg i

ddisgrifio dulliau tebyg o weithredu, sy'n ei gwneud yn anodd clustnodi modelau cyffredin a all fod yn weithredol ar draws mwy nag un rhanbarth. Nid yw nifer o fodelau'n arbennig o ddiffiniedig ac mae yna risg na fydd fawr ddim datblygiad i'r rhain o lefel isranbarthol i ranbarthol, neu o ranbarthol i genedlaethol o ganlyniad. Mae rôl yma i Lywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol i helpu i gynorthwyo'r broses, yn enwedig yn nhermau rhannu'r baich a lleihau unrhyw ddyblygu diangen rhwng prosiectau, er enghraifft trwy'r Cymunedau Maes.

- 9.8 Er bod y rhan fwyaf o'r prosiectau wedi datblygu ar gyflymdra newid sydd naill ai'n gyflym (saith) neu resymol (16), mae lleiafrif (saith) wedi wynebu problemau sylfaenol ac oedi, ac nid oeddent wedi eu sefydlu adeg paratoi'r adroddiadau canol cyfnod. Yn nodweddiadol, mae'r prosiectau sydd wedi cymryd mwy o amser i'w rhoi ar waith wedi wynebu problemau technegol, sialensiau recriwtio, problemau sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu a phroblemau sy'n ymwneud â negodi manylebau contract allanol. Mae hi'n bwysig myfyrio ar y problemau hyn sy'n aml y tu hwnt i ddylanwad rheolwyr prosiectau, a dysgu gwersi naill ai er mwyn gyflymu trefniadau o'r fath, neu er mwyn caniatáu ar gyfer integreiddio cyfnod cynllunio i unrhyw gronfa drawsnewid yn y dyfodol. Dim ond ers dechrau 2020 y mae sawl un o'r prosiectau wedi bod yn hollol weithredol, ac am hynny, ychydig iawn o weithgarwch sydd yna i adrodd arno. Mae hyn yn dwyn goblygiadau pwysig ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen, o ystyried y bydd gan rai prosiectau cwta flwyddyn i'w gweithredu a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.
- 9.9 Mae hi'n debyg bod prosiectau o'r ysbyty adref wedi datblygu'n gynt nag eraill, o bosibl am eu bod wedi cael eu datblygu ar sail dulliau o weithredu sy'n bodoli eisoes, bod y galw am y mentrau hyn eisoes yn bodoli ac am eu bod yn symlach i'w rhoi ar waith. Mae hyn yn ganfyddiad pwysig i'w gofio wrth ddatblygu modelau yn y dyfodol, am y gallai hyn fod yn un maes gweithgarwch lle bu cynlluniau peilot manwl ar draws y rhanbarthau (yn enwedig o ystyried bod naw model o'r fath yn gweithredu eisoes) a lle gallai fod yna dystiolaeth werthuso gymharol i dynnu arni.
- 9.10 Cyfanswm gwariant y gyllideb CD erbyn diwedd Mawrth 2020 oedd 41% o gyfanswm y gyllideb. Roedd y gwariant dros 12 mis cyntaf y rhaglen yn bryderus o araf oherwydd y gwahanol sialensiau roedd y BPRh yn eu hwynebu wrth roi prosiectau ar waith, a dylai Llywodraeth Cymru gymryd hynny i ystyriaeth wrth gynllunio unrhyw raglenni ariannu tebyg yn y dyfodol. Mae hi'n galonogol bod y gwariant dros y chwarter diweddaraf (hyd Fawrth 2020) wedi dwysáu, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod nifer o brosiectau wedi dod yn 'fyw' yn ddiweddar iawn. Bydd yn ymestynol, os nad yn amhosibl, i'r rhaglen ddefnyddio gweddill y

dyraniad cyllid dros y cyfnod o 12 mis sy'n weddill hyd Fawrth 2021, ac un rheswm pwysig am hynny yw effaith ddigynsail y coronafeirws Covid-19 ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn.

- 9.11 Mae hi'n debyg bod y CD yn cael effaith gadarnhaol wrth ddarbwylo partneriaid i gydweithio, ac mae yna ryw dystiolaeth gychwynnol ar draws y rhanbarthau lle mae staff yn dechrau meddwl mewn ffordd wahanol a newid eu diwylliant gwaith. Mae hyn yn dal i fod yn ymestynnol dan amodau ariannol mor anodd fodd bynnag, ac mae prosiectau wedi wynebu sawl sialens wrth roi'r peth ar waith. Roedd yr amserlen oedd ar gael i gyflawni gwir drawsnewid yn uchelgeisiol iawn o'r cychwyn cyntaf, ond mae hyn wedi cael ei lesteirio ymhellach gan nifer o ffactorau gan gynnwys oedi wrth gymeradwyo ceisiadau, problemau helaeth o ran recriwtio a'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ar led. Ers cyflawni'r gwaith maes, mae argyfwng y coronafeirws Covid-19 wedi golygu bod prosiectau CD bellach yn gweithio o fewn amgylchedd hollol wahanol, a bydd angen rheoli'r goblygiadau o ran cyflawniad yn eu cyflawnder maes o law.
- 9.12 Mae'r strwythurau llywodraethu ar gyfer y prosiectau i'w gweld yn briodol ac yn gweithio'n dda, ac mae ganddynt ymrwymiad cynyddol yr uwch reolwyr. Cyfyngedig fu cysylltiad dinasyddion yn y gwaith o gyd-gynhyrchu cysyniadau prosiectau neu eu cyflawni hyd yn hyn, ac mae angen gosod mwy o ffocws ar yr agwedd hon dros weddill y cyfnod cyflawni. Mewn modd tebyg, mae cysylltiad y gweithlu a rhanddeiliaid eraill, lle mae hyn wedi digwydd o gwbl, wedi arwain at fanteision cadarnhaol o ran y prosiectau, ond nid yw hyn wedi digwydd drwyddi draw.

Allbynnau a deilliannau'r rhaglen

- 9.13 Nid yw'n bosibl i'r adroddiad canol cyfnod hwn fwrw llawer o oleuni ar y deilliannau y mae'r prosiectau a ariennir yn eu cyflawni hyd yn hyn, a hynny i raddau helaeth oherwydd dyddiadau dechrau diweddar llawer ohonynt. Yn yr un modd, nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael hyd yn hyn i ganiatáu ar gyfer safbwynt gwybodus o ran a ellir cynnal a datblygu'r modelau pan ddaw'r cyllid i ben. Yn y pwynt canol cyfnod, mae'r prosiectau'n blaenoriaethu'r angen am gasglu a thystiolaethu'r cyfraniad y mae ymyraethau'n ei wneud, er y derbynnir y bydd yn sialens priodoli unrhyw wahaniaeth a wneir oherwydd y ffynonellau cyllid a'r ffactorau allanol eraill sy'n effeithio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Argymhellion

- 9.14 Rydyn ni'n cynnig cyfres o argymhellion ar gyfer y CD. Mae'r rhain wedi cael eu rhannu'n ddwy adran ar wahân. Awgrymiadau gweithredol i'w cyflawni ar unwaith ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen yw argymhellion un i saith. Argymhellion strategol tymor hwy yw argymhellion wyth i bymtheg gyda'r nod o ddysgu'r gwersi ehangach o'r CD.

Argymhellion ar gyfer gweddill cyfnod cyflawni'r CD

Argymhelliad 1

Ar hyn o bryd, nid oes gan brosiectau'r CD y systemau a'r prosesau angenrheidiol i gofnodi data a thystiolaeth o ddeilliannau, effeithiau a'r gwahaniaeth a wnaed er mwyn cyflwyno achos busnes ar gyfer cyllid cynaliadwy yn y dyfodol. Dylai'r BPRh weithio gyda'u gwerthuswyr allanol penodol er mwyn sicrhau bod gan bob prosiect fframwaith gwerthuso cadarn i gasglu tystiolaeth am ddeilliannau (nid dim ond allbynnau clinigol a DPA perfformiad) at ddibenion adrodd yn y dyfodol.

Argymhelliad 2

Er mwyn rhoi mwy o amser i brosiectau CD gael eu gweithredu a chasglu'r dystiolaeth angenrheidiol am effeithiau, dylai Llywodraeth Cymru edrych i ymestyn yr amserlen o leiaf 12 mis. Dylid blaenoriaethu unrhyw estyniad a gymeradwyir ar gyfer prosiectau:

- c) Sy'n gallu dangos eu bod yn cyflawni neu'n rhagori ar eu hamcanion gwreiddiol a/neu
- d) Sydd wedi cael eu cyflymu mewn ymateb i Covid-19.

Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch datblygiad pandemig y coronafeirws Covid-19, dylid parhau i adolygu'r argymhelliad hwn ac ymestyn yr amserlen eto fyth os oes angen.

Argymhelliad 3

Lle bo safbwynt y BPRh yn glir nad yw rhai ymyraethau'n gweithio, neu nad ydynt wedi dwyn ffrwyth eto, dylai'r BPRh a Llywodraeth Cymru gynnal dialog agored a gonest i glustnodi'r rhain a sefydlu proses i gau pen y mwdwl ar y prosiectau hyn.

Argymhelliad 4

Yng ngoleuni pandemig y coronafeirws Covid-19, dylai Llywodraeth Cymru a'r BPRh ystyried newid ffocws prosiectau'r CD ar gyfer gweddill cyfnod y gweithgareddau a all

helpu i leddfu'r pwysau sydd ar iechyd a gofal cymdeithasol yn y cyfnod interim e.e. trwy gynyddu darpariaeth gofal yn y gymuned neu ryddhau pobl o'r ysbyty. Dylid ail-ddyrannu unrhyw gyllid CD sy'n weddill i weithgareddau Covid-19.

Argymhelliad 5

Dylai'r BPRh ganolbwyntio ar ddatblygu strategaethau ymadael clir a chadarn ar gyfer eu prosiectau CD yn ystod gweddill y cyfnod fel y gellir cynnal y chwistrelliad o gyllid a ddarperir gan y CD at y dyfodol.

Dylai strategaethau ymadael ystyried hefyd sut y gall y BPRh sicrhau bod modd cyflymu'r cydrannau llwyddiannus o'r gwahanol fodelau a'r dulliau newydd o weithredu i'w mabwysiadu ar raddfa ehangach a'u datblygu ar lefel ranbarthol neu genedlaethol yn y dyfodol.

Argymhelliad 6

Gofynnir i'r BPRh ddefnyddio gwahanol fecanweithiau adrodd ar gyfer sawl ffrwd ariannu debyg o fewn yr un adran o Lywodraeth Cymru. Mae'r diffyg cysondeb yma'n creu beichiau gweinyddol sylweddol. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried alinio gofynion adrodd y gwahanol gronfeydd fel bod yr holl wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn yr un fformat yr un pryd.

Argymhelliad 7

Os caiff Argymhellion 1-6 eu gweithredu fel rhan o'r model dylunio a chyflawni ar gyfer trawsnewid yn y dyfodol, dylai hynny ryddhau mwy o amser i reolwyr prosiectau ystyried yr hyn a ddysgwyd o brosiectau'r CD.

O ran y Gronfa Drawsnewid gyfredol, lle bo modd dylid gwneud pob ymdrech i roi prosesau ar waith i rannu dysg am 'beth sy'n gweithio' ar lefel ranbarthol ar draws y BPRh.

Ar lefel genedlaethol, mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod yr hyn a ddysgir gan fodelau a dulliau ar themâu tebyg yn cael ei ystyried a'i rannu.

Dylai elfen Cymunedau Maes y gwerthusiad cenedlaethol chwarae rhan bwysig wrth sicrhau hyn. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu 'manylebau' cenedlaethol sy'n

ymgorffori'r gwersi a'r arferion gorau i gydategu unrhyw gyflwyniad pellach neu ddatblygiad o'r modelau llwyddiannus yn y dyfodol.

Argymhellion strategol tymor hwy:

Argymhelliad 8

Er bod y cysylltiadau rhwng CI a CD yn glir, yn y dyfodol rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru neilltuo digon o amser yn ystod cyfnod dylunio unrhyw raglen ariannu i weithio mewn partneriaeth â'r BPRh i ystyried a dadansoddi eu blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer cyllid o'r fath. Dylid datblygu canllawiau manylach sy'n parhau i ddarparu hyblygrwydd, ond sy'n fwy strategol ac wedi eu targedu'n well.

Argymhelliad 9

Yn y dyfodol, dylai fod yna gyfeiriad cliriach gan LIC a chyllid ar gyfer llai o brosiectau trawsnewid ond rhai sy'n fwy strategol eu natur, yn unol â'r bwriad gwreiddiol a nodwyd o fewn yr Adolygiad Seneddol.

Dylai'r BPRh gymryd mwy a mwy o gyfrifoldeb dros gynllunio a darparu eu trawsnewidiad eu hunain a chyflwyno neu ddatblygu dulliau sydd eisoes wedi cael eu profi'n llwyddiannus ar lefel isranbarthol.

Argymhelliad 10

I ddilyn y CD, dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhyddhau cyllid i'r BPRh i gyflawni nifer benodol o fodelau strategol y profwyd eu bod yn gweithio o fewn y cylch ariannu cyfredol (os yw'r dystiolaeth yma ar gael erbyn diwedd y cyfnod ariannu).

Gellid gweld hyn fel cyllid sydd ar gael i gyflawni'r 'manylebau cenedlaethol' a ddatblygwyd o ganlyniad i Argymhelliad 7. Byddai hyn yn ddull mwy cyfarwyddol o weithredu a fyddai'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r CD cyfredol.

Argymhelliad 11

Rydyn ni'n argymhell y dylai unrhyw gronfa drawsnewid yn y dyfodol gynnwys cyfnod cynllunio o chwech i ddeuddeg mis i'r prosiectau a gymeradwyir, ac yn ystod y cyfnod hwn gellir rhoi prosesau recriwtio ar waith a sefydlu strwythurau llywodraethu.

Argymhelliad 12

Dylai fframweithiau gwerthuso cadarn a chlir gael eu cymeradwyo o fewn cyfnod cynllunio'r prosiectau sy'n cael sêl bendith cyn y gallant symud ymlaen i gael eu cyflawni'n llawn yn achos unrhyw gyllid a ddaw i ddilyn y gronfa drawsnewid.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd i gyfuno ffrydiau ariannu yn y dyfodol. Yn benodol, mae yna gyfleoedd i edrych ar y posibilrwydd o integreiddio cyllid ICF a'r CD. Dylid edrych hefyd ar gyfleoedd ehangach i gyfuno cyllid er mwyn symleiddio prosesau a chanolbwyntio cyllid ar flaenoriaethau strategol yn fwy effeithiol.

Argymhelliad 14

Rydyn ni'n argymhell bod Llywodraeth Cymru'n datblygu meini prawf clir ar gyfer gwerthuso a thempledi ymgeisio ochr yn ochr â chanllawiau, prosesau cymeradwyo a phrosesau rheoli ac adrodd gweithredol cyson. Yn ogystal, dylai'r BPRh ddangos yn glir sut y byddant yn bodloni'r gofynion adrodd a rheoli gweithredol a gwerthuso o'r cychwyn cyntaf er mwyn osgoi gorfod gofyn am wybodaeth ychwanegol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau trosiant cyflymach wrth roi sêl bendith i brosiectau a chyfathrebu'n rheolaidd ag arweinwyr y cynigion drwyddi draw. Dylid cynnig adborth manwl am unrhyw brosiectau aflwyddiannus fel mater o drefn hefyd.

Argymhelliad 15

Mae'r CD wedi dangos bod yna ddiffyg capasiti ar gyfer rheoli prosiectau a setiau sgiliau rheoli newid o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd AaGIC, Gofal Cymdeithasol Cymru a CGGC rhoi ystyriaeth, ar lefel genedlaethol, i sut y gall gynyddu'r capasiti yma o fewn yr adnoddau staffio sydd ar gael, trwy gyllido cyfleoedd hyfforddi a chymwysterau cenedlaethol priodol.

Atodiad A – Crynodebau prosiect y Gronfa Drawsnewid

Mae'r atodiad hwn yn nodi crynodeb o'r 30 prosiect a ariannwyd trwy'r Gronfa Drawsnewid ar draws y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh), gan gynnwys y prosiect Gofal Arennau Cydweithredol ledled Cymru.

1. BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg

Y saith prosiect a ariennir ar draws RPB Caerdydd a Bro Morgannwg yw:

1.1 Model Cyflymu'r Clwstwr

